

**Memorandwm Esboniadol** ar gyfer Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro)  
(Cymru) 2024

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Huw Irranca-Davies AS**

**Y DIRPRWY BRIF WEINIDOG AC YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS NEWID  
HINSAWDD A MATERION GWLEDIG**

**19 Tachwedd 2024**

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau") yn gwahardd cyflenwi fêps untro (gan gynnwys rhai am ddim) yng Nghymru.
- 1.2 Nod y Rheoliadau yw mynd i'r afael â'r difrod amgylcheddol arwyddocaol a achosir pan waredir fêps untro mewn ffordd amhriodol yng Nghymru. Bwriad y Rheoliadau yw cyflymu'r newid yn ymddygiad defnyddwyr o ddefnyddio cynhyrchion fepio untro i ddefnyddio cynnyrch amgen mwy cynaliadwy aml dro.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Er mwyn mynd i'r afael â sawl anghysondeb drafftio y sylwyd arnynt ar ôl i'r Rheoliadau gael eu gosod ar 22 Hydref, cafodd y Rheoliadau eu tynnu yn ôl a chafodd fersiwn newydd ei gosod ar 19 Tachwedd.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir y Rheoliadau o dan y pwerau a roddir gan adran 140(1), (c) a (d), (3)(c) a (d) a (9) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("Deddf 1990") ac adran 62(2) o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctiynau 2008 ("Deddf 2008").
- 3.2 Mae Deddf 1990 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wahardd cyflenwi a storio eitemau penodedig i'w hatal rhag achosi llygredd amgylcheddol a niwed i iechyd anifeiliaid. Mae hefyd yn caniatáu iddynt roi pwerau sy'n cyfateb i'r rhai o dan adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i bersonau awdurdodedig, gan gynnwys pwerau mynediad, archwilio ac ymchwilio, pwerau i dynnu ffotograffau a chymryd samplau, a phwerau i chwilio dogfennau ac ymafael ynddynt.
- 3.3 Mae Deddf 2008 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, wrth wneud is-ddeddfwriaeth sy'n creu trosedd, wneud unrhyw ddarpariaeth y gellid ei gwneud o dan Ran 3 o Ddeddf 2008. Mae hyn yn cynnwys gosod y sanctiynau sifil a ganlyn: cosbau ariannol penodedig, cosbau ariannol amrywiadwy, hysbysiadau cydymffurfio, cosbau am beidio â chydymffurfio, hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi.
- 3.4 Gwneir y Rheoliadau o dan y weithdrefn gadarnhaol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

### 4.1 Amcanion polisi'r cynigion hyn yw:

- Lleihau'n gyflym y niwed amgylcheddol a achosir wrth ddefnyddio deunyddiau crai critigol a gwaredu fêps untro yn anghywir mewn ffrydiau gwastraff gweddilliol a thrwy eu taflu'n sbwriel.
- Annog newid ymddygiad ehangach a mwy cynaliadwy wrth ddefnyddio cynnyrch untro i fynd i'r afael â'r diwylliant 'defnyddio a thaflu'.
- Annog symudiad tuag at ddewisiadau amgen y gellir eu haildefnyddio.

### 4.2 Mae'r polisi hwn yn rhan hefyd o agenda ehangach y llywodraeth i ddelio â fêpio ymhlith pobl ifanc.

### 4.3 Mae fêps (neu e-sigaréts fel y'u gelwir hefyd) wedi dod yn fwy poblogaidd yn y blynyddoedd diwethaf, gan ddod yn gynhyrchion mwy prif ffrwd. Yng Nghymru, [cododd cyfran yr oedolion sy'n defnyddio fêps](#) o 6% yn 2020-2021 i 8% yn 2022-2023. Mae'r farchnad wedi tyfu'n gyflym, gydag amcangyfrif bod [diwydiant fêps y DU](#) yn gyfrifol am drosiant o £1.325 biliwn yn 2021.

### 4.4 Mae fêps yn ddyfeisiau sy'n cael eu pweru gan fatri sy'n gwresogi hylif (nicotin fel arfer, er bod hylifau heb nicotin ar gael hefyd) i gynhyrchu aerosol sy'n cael ei anadlu. Mae ffurfiau y gellir eu haildefnyddio (amldro) a ffurfiau untro'n cael eu gwerthu. Fêps untro yw'r rheini na ellir eu hailwefru na'u hail-lenwi ac sydd wedyn yn cael eu taflu (fel sbwriel neu fel gwastraff cyffredinol gan amlaf) pan fyddant yn rhedeg allan o fatri neu e-hylif. Ni ddylid eu rhoi mewn bin gwastraff cyffredinol na'u taflu fel sbwriel. Dylid yn hytrach fynd â nhw yn ôl i siop sy'n cymryd rhan neu i ganolfan wastraff ac ailgylchu'r cartref (HWRCs). Amcangyfrifir bod [14 miliwn o fêps untro yn cael eu prynu bob mis](#) yn y DU, a bod 1.3 miliwn ohonynt yn cael eu taflu'n anniogel mewn biniau sbwriel neu ar y strydoedd bob wythnos.

## **Sbwriel**

### 4.5 Pan fydd fêps untro yn cael eu taflu'n sbwriel, maent yn gollwng plastig, halwynau nicotin, metelau trwm, plwm, mercwri a batris lithiwm ion fflamadwy i'r [amgylchedd naturiol](#). Gall y cemegau hyn halogi dyfrffyrdd a phridd a gallant

hefyd fod yn wenwynig ac yn niweidiol i fywyd gwylt. Gall rhai deunyddiau bara am gannoedd o flynyddoedd gan achosi niwed i ecosystemau. Gall cemegau a ychwanegir wrth wneud plastigau eu gwneud yn wytnach a gweithredu fel lliwydd, plastigeidddydd, sefydlogydd neu arafydd fflamau. Mae rhai o'r cemegau hyn yn cael eu dosbarthu fel llygryddion organig parhaus (POPs) a chemegau amharol endocrin (EDCs) a byddant yn niweidio [bywyd tir a môr](#) ymhellach os cânt eu llyncu fel [microblastigau](#). Gall y gwaith electroneg a'r deunyddiau crai critigol (batris lithiwm-ion, copr, cobalt ac ati) eu hunain beri risg i iechyd dynol ac ecosystemau.

- 4.6 Pan fyddant yn cael eu taflu'n sbwriel, gall y casys plastig ddadelfennu'n ficroblastigau niweidiol. Canfu arolygon o lendid strydoedd a gynhaliwyd gan [Cadwch Gymru'n Daclus](#) (KWT) gynnydd sydyn yn y fêps untro yn ein hamgylchedd. Rhwng 2023/24, canfuwyd fêps untro ar 10.2% o strydoedd ledled Cymru, gydag amcangyfrif o 6,700 o fêps yn sbwriel ar ein strydoedd ar unrhyw un adeg. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r arolwg hwn yn cynnwys ymylon ffyrdd, parciau, manau gwyrdd na thraethau ac mae'n debygol felly o fod wedi tangyfri'r fêps sy'n sbwriel ledled Cymru. Mae fêps untro yn categori ar wahân bellach yn arolygon Cadwch Gymru'n Daclus, yn dilyn cynnydd yn yr adroddiadau anecdotaidd gan dimau glanhau y cyhoedd ac awdurdodau lleol.
- 4.7 Ychwanegwyd fêps at ffurflenni casglu sbwriel ar y tir a gedwir gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol (MCS) fel rhan o'r [Source to Sea Litter Quest ar gyfer Beach Watch 2023](#), ac adroddwyd bod fêps wedi'u gweld ar 14% o'r triplau glanhau a gynhaliwyd ledled Cymru.
- 4.8 Yn 2023, mewn ymchwil gan [Material Focus](#) amcangyfrifwyd bod dros 5 miliwn o fêps untro naill ai'n cael eu taflu'n sbwriel neu eu taflu mewn gwastraff cyffredinol bob wythnos yn y DU, bron i bedair gwaith fwy nag yn y flwyddyn cynt. Mae fêps untro yn cael eu taflu'n bennaf mewn manau cyhoeddus gan greu costau glanhau i awdurdodau lleol (ALLau).
- 4.9 Mae datrys problemau ansawdd yn yr amgylchedd lleol yn sicrhau bod pobl yn byw ac yn gweithio mewn cymunedau glanach, mwy diogel, iachach a mwy deniadol. Mae'n taclo'r anharddwch sy'n cadw pobl rhan buddsoddi i ddatblygu economi'r ardal. Gall ansawdd amgylcheddol lleol gwael gael effaith negyddol hefyd ar iechyd meddwl a lles pobl, gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r fath yn aml yn gwneud i'r ardal ymddangos yn ddi-raen ac wedi'i hesgeuluso. Gall hyn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol pellach neu hyd yn oed troseddau mwy difrifol. Mae'r mathau hyn o droseddau yn aml yn effeithio'n anghymesur ar gymunedau dan anfantais economaidd.

4.10 Ceir anwybodaeth am nad yw mwyafrif defnyddwyr fêps untro yn gwybod am effeithiau amgylcheddol camdaflu fêps. Ceir anwybodaeth hefyd ynghylch sut i'w gwaredu'n gywir.

## Gwaredu

- 4.11 Ar ôl eu gwaredu, mae fêps untro'n cael eu galw'n [Gyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff \(WEEE\)](#) ac mae angen triniaeth benodol arnynt yn y ffrwd wastraff. Nod [Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff 2013](#) yw annog pobl i aildefnyddio ac ailgylchu'r eitemau hyn drwy osod cyfrifoldebau ariannol ar gynhyrchwyr a dosbarthwyr cyfarpar trydanol ac electronig (EEE) i dalu am gynlluniau casglu a gwaredu cyfarpar WEEE. Mae hyn yn golygu bod yr holl gynhyrchwyr sy'n rhoi EEE ar y farchnad yn y DU, gan gynnwys cynhyrchwyr fêps untro, yn gyfrifol am ariannu costau casglu, trin ac adfer WEEE a'i waredu trwy ddulliau amgylcheddol cadarn.
- 4.12 O dan [reoliadau WEEE](#), mae cynhyrchion EEE wedi'u rhannu'n 14 o gategoriâu. Mae fêps yn perthyn i gategori 7, sy'n cynnwys teganau ac offer hamdden a chwaraeon. Mae hyn yn creu tebygolrwydd mawr y bydd pob cynhyrchydd yn y categori (boed fêps neu fel arall) yn rhannu cost ailgylchu fêps. Fodd bynnag, mae costau ailgylchu fêps yn sylweddol uwch nag ailgylchu cynhyrchion eraill categori 7. Amcangyfrifir ei bod yn costio £0.40-£1 i ailgylchu un fêp, a £5-£10 i ailgylchu 1 cilogram o fêps. Mae'r ffigurau hyn yn golygu na fydd cynhyrchwyr fêps yn debygol o gael yn ôl gost lawn casglu fêps ar gyfer eu hailgylchu, gan leihau'r cymhelliant iddynt sicrhau bod fêps yn hawdd eu hailgylchu.
- 4.13 Tan yn ddiweddar, roedd gofyn i fanwerthwyr oedd yn gwerthu dros £100,000 o fêps y flwyddyn gynnis gwasanaeth 'cymryd fêps yn ôl' i'w hailgylchu (h.y. trwy ddarparu bin casglu hen fêps yn y siop). Ychydig o ymwybyddiaeth sydd ymhlith perchnogion siopau a dosbarthwyr am y cynlluniau 'cymryd yn ôl', ac ychydig o [gyfranogiad a welwyd ymhlith cwsmeriaid](#) yn y cynllun. Ym mis Ionawr 2024, cafodd y trothwyon hyn eu newid. Mae gofyn nawr i bob manwerthwr fêps (waeth beth fo gwerth ei werthiant) gynnig gwasanaeth 'cymryd yn ôl' un am un, tebyg am ei debyg, ar gyfer ailgylchu fêps.
- 4.14 Yn ddiweddar, [ymgynghorwyd](#) ar gynlluniau i ddiwygio'r system cyfrifoldeb cynhyrchwyr ar gyfer offer trydanol ac electronig gwastraff. Mae'r cynigion sy'n cael eu hystyried yn cynnwys darparu seilwaith ar gyfer casglu WEEE y cartref a fyddai'n cael ei ariannu gan gynhyrchwyr cyfarpar trydanol ac electronig; diwygio'r cyfrifoldebau presennol ar ddosbarthwyr i 'gymryd cyfarpar yn ôl';

rhwymedigaethau ar farchnadoedd ar-lein; a chreu categori newydd ar wahân ar gyfer fêps i sicrhau bod cynhyrchwyr fêps yn ariannu costau ailgylchu yn briodol pan fydd fêps yn troi'n wastraff. Dylai'r newidiadau hyn i gyfrifoldebau cynhyrchwyr ddatrys problem y diffyg ymwybyddiaeth a welwyd ymhlith cynhyrchwyr am eu rhwymedigaethau. Trafodir y diwygiadau hyn a'u perthynas â'n rheoliadau ymhellach yn yr adran Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) isod.

## Ailgylchu

- 4.15 Mae fêps untro yn [anodd ac yn ddrud i'w hailgylchu](#). Yr unig ffordd sydd ar gael yn y DU i'w hailgylchu yw eu datgymalu â llaw. Mae hynny'n gostus ac yn cymryd llawer o amser gan nad yw'r rhan fwyaf o fêps untro wedi'u [dylunio i gael eu tynnu'n ddarnau'n hawdd](#). Maent wedi'u dylunio i fod yn un uned ac mae angen offer penodol i dynnu'r batri lithiwm-ion i'w ailgylchu a rhaid trin y cydrannau'n ofalus rhag i'r datgymalwr ddod i gysylltiad â'r e-hylif sydd ar ôl.
- 4.16 O'r holl fêps untro sy'n cael eu dychwelyd i siop neu ganolfan ailgylchu yn y DU, amcangyfrifir [mai dim ond 1% sy'n cael eu hailgylchu, hynny oherwydd diffyg capasiti ailgylchu](#). Mae'n debygol bod gweddill y fêps a gesglir i'w hailgylchu yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi gan fod [canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd](#) (sy'n weithredol ledled y DU) yn datgan na ddylai fêps untro gael eu llosgi.
- 4.17 Mae cywasgu yn ystod y broses gasglu yn cynyddu'r perygl o dyllu a chynnau'r batris lithiwm-ion, gan roi gwastraff sych a fflamadwy neu wastraff cartref o'u cwmpas ar dân. Gallai hyn beryglu'r cyhoedd a'r staff sy'n gweithio ar lorïau ac mewn canolfannau gwastraff a gall niweidio eiddo cyhoeddus a phreifat. Mae [gwaith ymchwil gan y Senedd](#) wedi amcangyfrif bod batris lithiwm-ion yn gyfrifol am tua 48% (dros 200) o'r holl [danau gwastraff](#) sy'n digwydd yn y DU bob blwyddyn. Mae'r tanau gwastraff hyn hefyd yn cyfrannu at lefel uchel o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Yn 2023 yn ôl adroddiad gan y cwmni yswiriant Zurich Municipal, gwelwyd [cynnydd o 62% mewn tanau mewn lorïau biniau a chynnydd o 108% mewn tanau mewn cartrefi](#) oherwydd fêps yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae ei ymchwil yn dangos:
- Bod tri fêp untro yn cael eu gamwaredu yn y DU bob eiliad;
  - Nid yw tri o bob pedwar defnyddiwr yn gwybod sut i gael gwared ar fêps yn gywir; ac
  - Mae cyfran debyg yn anymwybodol bod yna fatris lithiwm mewn fêps.

## Economi gylchol

- 4.18 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i symud tuag at economi fwy cylchol, gan symud o fodel "cymryd, gwneud a gwaredu" i un lle rydym yn trysori

deunyddiau ac yn eu defnyddio mor hir ag y gallwn. Mae fêps aml dro yn ddewis arall rhwydd yn lle fêps untro ac maent yn para lawer hirach. Maent yn cael eu gwneud o ddeunyddiau mwy gwydn ac yn cael eu hadeiladu i bara'n hirach. Er eu bod yn ddrutach i'w prynu, mae fêps aml dro yn fwy cost-ffeithiol yn y tymor hir. Ystyrir bod fêps aml dro yn llai niweidiol i'r amgylchedd, gan y gellir defnyddio'r un fêp am gyfnod hirach o'i gymharu â fêp untro.

- 4.19 Byddai gwahardd cynhyrchion fel fêps untro sy'n ddiangen o broblematig yn rhan o becyn o fesurau ehangach i leihau effaith negyddol sbwriel, llygredd plastig a hinsawdd sy'n newid ar ein hamgylchedd. Bydd y gwaharddiad yn cyfrannu at weithredu dros iechyd y cyhoedd trwy amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y niwed a ddaw o ddibyniaeth ar nicotin ac o'r sylweddau gwenwynig a'r gwastraff amgylcheddol a geir mewn fêps untro. Hefyd, nod y polisi yw rhwystro fepio a smygu ymhlith plant a phobl ifanc rhag cael eu normaleiddio.
- 4.20 Mae ein deddfwriaeth hefyd yn ategu ymrwymiad [Rhaglen Lywodraethu 2021-2026](#) i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol drwy sicrhau ein bod yn "ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn". O dan yr ymrwymiad cyffredinol hwn, mae addewid penodol i "Ddeddfu i ddiddymu'r defnydd o blastigau untro sydd yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel".

### **Gweithgynhyrchu**

- 4.21 Mae effeithiau amgylcheddol eraill sy'n deillio o gynhyrchu fêps untro yn peri pryder hefyd. Fel arfer, mae fêp untro wedi'i wneud o blastig, copr a chobalt ac yn cynnwys batri lithiwm. Mae lithiwm a chobalt yn ddeunyddiau crai critigol a restrir yn [Strategaeth Deunyddiau Crai Critigol y DU](#) ac maent yn hanfodol i gynhyrchu dyfeisiau electronig a batris ac ar gyfer cynhyrchu ynni. Mae'r galw cynyddol am fêps untro yn arwain at gynyddu'r galw am y deunyddiau crai critigol hyn. Amcangyfrifir bod digon o lithiwm yn y fêps untro a brynir bob blwyddyn i ddarparu batris ar gyfer [5,000 o gerbydau trydan](#).
- 4.22 Dyma wastraffu adnoddau gwerthfawr mewn cynnyrch sydd ag oes byr ac sy'n cael ei ailgylchu'n wael, er bod dewis amgen aml dro ar gael yn rhwydd. Yn ogystal â cholli adnoddau'r economi, mae cloddio am ddeunydd crai a chynhyrchu a gweithgynhyrchu fêps untro'n cael effaith ar yr amgylchedd hefyd. Yn fwyaf arbennig, cynhyrchir [allyriadau nwyon tŷ gwydr](#) a defnyddir llawer o ddŵr wrth gynhyrchu fêps untro.

### **Cyd-fynd ag amcanion eraill – Fepio gan Bobl Ifanc**

- 4.23 Gall fêps fod yn gyfrwng effeithiol i helpu smygwyr i roi'r gorau iddi, ac mae'r GIG yn annog [smygwyr i droi at fêps](#). Ystyrir eu bod yn llai niweidiol na sigarêts gan nad oes ynddynt dybaco, ond mae [nicotin ynddynt fel arfer a](#)

[chemegau eraill](#). Mae hyn yn golygu nad ydynt yn gwbl ddi-risg ac nid yw'r effeithiau hirdymor eto yn hysbys.

4.24 Er ei bod hefyd yn drosedd gwerthu fêps i unrhyw un o dan 18 oed yn y DU, deallir mai fêps untro sydd y tu ôl i'r cynnydd diweddar mewn fepio ymhlith pobl ifanc gyda data'n dangos bod nifer y [plant a phobl ifanc sy'n fepio wedi treblu](#) yn y tair blynedd diwethaf. Ym mis Mai 2024 cyhoeddodd [ASH Cymru](#) ddata o'u [Harolwg o Fepio ymhlith Pobl Ifanc](#) lle holwyd 12,000 o ddisgyblion ysgolion uwchradd. Dangosodd fod 24% o'r bobl ifanc 11-16 oed a holwyd wedi fepio. Dangosodd yr arolwg hefyd, o'r bobl ifanc sy'n fepio yn rheolaidd;

- mae 40% yn defnyddio fêps untro yn unig
- mae 46% yn defnyddio fêps untro a fêps y gellir eu hail-lenwi / ailwefru
- mae 10% yn defnyddio fêps y gellir eu hail-lenwi / ailwefru yn unig

4.25 Mae'r grŵp defnyddwyr hwn fel arfer yn prynu eu fêps yn uniongyrchol o siop. Mae tystiolaeth gan [Safonau Masnach Cymru yn](#) awgrymu bod 15% o bob ymgais gan bobl dan oed i brynu fêp yn llwyddiannus. Mae fêps ar gael mewn amrywiaeth o flasau (e.e. blasau ffrwythau, blasau melys, diodydd meddal, ac ati) wedi'u pecynnu'n ddeniadol. Mae hynny o bosib yn cynyddu'r risg y daw plant i gysylltiad â'r cynhyrchion hyn. Mae hyn yn awgrymu bod diffyg cydymffurfio â'r cyfyngiadau ar werthu fêps i bobl dan oed, gan arwain at ddefnyddio fêps yn anghyfreithlon gan bobl dan oed.

4.26 Am eu bod yn cynnwys nicotin ac am nad ydym yn gwybod pa niwed hirdymor y gallent ei achosi, mae yna risg bod fêps yn niweidio iechyd plant ynghyd â chreu'r risg o ddibyniaeth. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod [5% o ddysgwyr oed uwchradd](#) yn defnyddio fêps bob wythnos ac mai fêps untro yw'r [math mwyaf cyffredin o ddyfais](#) a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc. Mae ymchwiliad diweddar gan [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) a phartneriaid iddo'n awgrymu bod fepio wedi para'n gyffredin a fwy na thebyg wedi cynyddu ers cynnal [Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion \(SHRN\) 2021/22](#).

4.27 Yn ôl Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru, [Siapio ein Hiechyd](#), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023, "*er ei bod yn wir bod y cynhyrchion hyn yn parhau i fod yn gymharol newydd a bod effaith hirdymor eu defnydd yn datblygu o hyd, mae'n amlwg bod rhaid bod yn ofalus er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc a phobl nad ydynt yn smygu. Rydym yn wynebu perygl gwirioneddol yn y DU o greu cenhedlaeth newydd o bobl ifanc sy'n gaeth i nicotin oni bai ein bod yn gweithredu ar frys. Felly, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn dysgu o'n profiad gyda thybaco a sicrhau ein bod yn gweithio mor galed â phosibl i atal plant a phobl ifanc rhag defnyddio e-sigaréts*".



4.28 Bydd cyflwyno ein deddfwriaeth i wahardd fêps untro (fersiynau nicotin a di-nicotin) yn mynd i'r afael ag effaith sylweddol gwaredu'r cynnyrch hyn yn amhriodol ar yr amgylchedd yn ogystal â'r cynnydd mewn fepio ymhlith pobl ifanc. Hefyd, bydd yn annog busnesau i symud tuag at gynhyrchu dewisiadau amgen mwy amlbro, haws eu hailgylchu a llai niweidiol i'r amgylchedd.

## **Gorfodi**

4.29 Bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei gorfodi gan awdurdodau lleol a'u swyddogion safonau masnach yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn y dyfodol. Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cosbau ariannol sefydlog, hysbysiadau cydymffurfio a hysbysiadau stop yn ogystal â chosbau am beidio â chydymffurfio. Ceir sancsiynau troseddol hefyd pan na chydymffurfir â'r gofyn. Bydd awdurdodau lleol yn cyhoeddi canllawiau cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Bydd y canllawiau yn helpu gweithgynhyrchwyr, cyflenwyr, manwerthwyr a'r cyhoedd i ddeall sut i gydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

## **Gweithredu**

4.30 Byddwn yn gweithio'n agos gyda busnesau, gweithgynhyrchwyr a grwpiau yn y sector cyhoeddus i ddatblygu canllawiau cynhwysfawr i helpu i roi'r ddeddfwriaeth ar waith. Bydd y canllawiau hyn yn cynnwys deunydd cyfathrebu i helpu i godi ymwybyddiaeth am gynhyrchion nad ydynt ar gael mwyach.

# **5. Ymgynghori**

## **Ymgynghoriad y DU**

5.1 Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar y cynigion i gyfyngu ar werthu a chyflenwi fêps untro ar 12 Hydref 2023. Daeth bron 28,000 o ymatebion i law. Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn y pedair gwlad a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr gefnogaeth glir i gyfyngiadau ar werthu a chyflenwi fêps untro. O'r ymatebion a ddaeth i law yng Nghymru, cytunodd 60.4% y dylai'r cyfyngiadau ar fêps untro fod ar ffurf gwaharddiad ar eu gwerthu a'u cyflenwi. Themâu cyffredin ymhlith y rhai oedd yn cytuno â gwaharddiad oedd pryderon ynghylch y cynnydd mewn gwastraff plastig, cemegau niweidiol yn treiddio i'r amgylchedd a'r risg o danau wrth gamwaredu fêps untro.

5.2 Tynnwyd sylw at y ffaith bod fêps untro yn bwysig i grwpiau penodol sy'n ceisio rhoi'r gorau i smygu, gan gynnwys defnyddwyr hŷn, pobl â phroblemau trafod, pobl mewn lleoliadau iechyd meddwl ar gyfer cleifion mewnol a charchardai a'r

digartref. Ystyriwyd hefyd, yr effaith ar blant a phobl ifanc sydd eisoes yn ddibynnol ar nicotin. Mae ein hasesiadau effaith wedi ystyried y pryderon hyn yn llawn a thrafodir hyn ymhellach yn yr adran RIA isod.

- 5.3 Roedd 54% o'r ymatebwyr yn credu bod o leiaf chwe mis o gyfnod pontio yn briodol i roi digon o amser i weithgynhyrchwyr, busnesau, manwerthwyr a defnyddwyr addasu i'r newidiadau.
- 5.4 Mae'r ymatebion llawn i'r ymgynghoriad i'w gweld yma: [Creating a smokefree generation and tackling youth vaping: your views - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/creating-a-smokefree-generation-and-tackling-youth-vaping-your-views)

### **Ymgynghoriad ar yr OS drafft**

- 5.5 Cyhoeddwyd rheoliadau drafft Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024 ar 12 Gorffennaf gyda gwahoddiad ar i bobl anfon eu sylwadau ar ein cynigion polisi. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 26 Gorffennaf gyda 21 o ymatebion wedi dod i law. Roedd yr ymatebion yn adleisio'n fras y rhai a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad yn 2023, a ddisgrifir uchod. Arweiniodd hyn at fân ddiwygiad i'r Rheoliadau i ddarparu eglurder ynghylch y term 'mangre'. Caiff hyn ei ddiffinio bellach fel term sy'n cynnwys unrhyw gerbyd, llestr neu offer symudol ac mae'n adlewyrchu'r diffiniad yn adran 109N(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ("Deddf 1995"). Yn ogystal, codwyd pryderon ynghylch darpariaethau yn y rheoliadau sy'n ymwneud â diffiniadau a gorfodi, a arweiniodd at fân newidiadau/dim newidiadau i'n cynnig ar gyfer polisi.
- 5.6 Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd yn yr ymgynghoriad yn 2023, aethom ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid ychwanegol wedi'u targedu dros sawl mis yn 2024. Roedd y gwaith ymgysylltu hwn yn ystyried yr effeithiau ar wahanol grwpiau o bobl, gan gynnwys plant a phobl ifanc, y canlyniadau cadarnhaol, negyddol neu anfwriadol posibl a chamau lliniaru. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am y gwaith ymgysylltu hwn yn nhrosolwg perthnasol yr Aseidiadau Effaith yn adran Aseiad Effaith Rheoleiddiol y ddogfen hon.
- 5.7 Ceir mentrau ledled Cymru sy'n helpu pobl ifanc i ymateb i amrywiol bryderon amgylcheddol, gan gynnwys materion fel yr argyfwng hinsawdd. Mae'r [rhaglen Eco-Sgolion](#) yn blatfform sydd gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc i ddatblygu ymddygiad cynaliadwy a chyflawni blaenoriaethau o ran newid hinsawdd ac adnoddau naturiol. Rydym hefyd yn cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan drwy roi grantiau i Plant yng Nghymru redeg Cymru Ifanc, sef prif fodel cyfranogi Llywodraeth Cymru ar gyfer ystyried barn plant a phobl ifanc wrth ddatblygu polisiau, rhaglenni a deddfwriaeth.

- 5.8 Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru arolwg ar-lein am y gwaharddiad ar gynhyrchion plastig untro problematig, gan gynnwys fêps. Rhannwyd arolwg ar-lein ag [Eco-Sgolion](#) i blant a phobl ifanc ei ateb ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd wedi'i anelu at fyfyrwyr Ysgol Uwchradd. Cafodd fersiwn copi caled o gefndir y polisi a holiadur ei rhannu â phlant a phobl ifanc 14–18 oed yn y gynhadledd '[Ein Daear, Ein Dyfodol](#)' ym mis Gorffennaf.

### **Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn y dyfodol**

- 5.9 Yn dilyn y pryderon a godwyd am effeithiau'r gwaharddiadau ar blant a phobl ifanc yn ystod ymgynghoriad 2023 a'r ymatebion a gafwyd gan Eco-Sgolion, penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai'n rhaid ymgysylltu ymhellach â phlant a phobl ifanc i rannu gwybodaeth am y polisi ar y gwaharddiadau a rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc am y cymorth sydd ar gael iddyn nhw i roi'r gorau i smygu.
- 5.10 Comisiynodd Llywodraeth Cymru [Youth Friendly](#) i gynhyrchu fersiynau 'cyfeillgar i bobl ifanc' o'n cynigion polisi a'n holiaduron i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc gydol 2024/25. Bydd hyn yn sicrhau bod barn plant yn cael ei hystyried ac yn cael ei hadlewyrchu yn ffurf y gwaharddiad a'r ffordd y caiff ei roi ar waith. Mae hyn yn cynnwys adolygu a gwerthuso'r gwaharddiad i asesu ei effaith a'i effeithiolrwydd. Bydd cael plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn gynnar yn sbarduno newid ymddygiad cadarnhaol a meddwl creadigol ymhlith ein cenhedlaeth nesaf. Bydd Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2025 i gynnwys y canfyddiadau hyn.
- 5.11 Mae'r effeithiau a nodwyd wedi'u crynhoi yng Nghrynodeb yr Asesiad Effaith yn Adran 9 isod.

### **Ymgysylltu â'r Diwydiant Tybaco**

- 5.12 Roedd yr holl waith ymgysylltu â'r diwydiant tybaco yn cadw at ein hymrwymadau o dan Erthygl 5.3 Confensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco (FCTC). Mae hyn yn sicrhau bod ein polisïau rheoli tybaco yn cael eu diogelu rhag buddiannau masnachol a breiniedig eraill y diwydiant tybaco.

### **Sut mae gwledydd eraill y Deyrnas Unedig yn mynd ati**

- 5.13 Er mwyn mynd i'r afael â'r ystod o broblemau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â fêps untro, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno â Llywodraeth y DU (sy'n deddfu ar gyfer Lloegr), Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i wahardd cyflenwi fêps untro. Y disgwyl yw y daw i rym yn y pedair

gwlad ym mis Mehefin 2025. Mae hyn yn cynnwys cytundeb i sicrhau cyfnod pontio o chwe mis fan leiaf i roi amser i fusnesau addasu.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Dewisiadau

- 6.1. Nod y polisi yw gwahardd gwerthu a chyflenwi fêps tafladwy yng Nghymru er mwyn lleihau niwed amgylcheddol y cynhyrchion hyn. Mae'r sail resymegol ar gyfer hyn wedi'i nodi yn y Memorandwm Esboniadol.
- 6.2. Ystyriwyd nifer o ddewisiadau polisi amgen ochr yn ochr â'r opsiwn 'busnes fel arfer' a 'dewisol' (h.y., gwaharddiad ar werthu a chyflenwi fêps tafladwy). Fodd bynnag, cawsant eu hidlo wrth eu hystyried yn erbyn meini prawf llwyddiant polisi.
- 6.3. Roedd manylion y meini prawf [polisi](#) a'r broses sgrinio yn dilyn yr hyn a nodwyd yn asesiad effaith Llywodraeth y DU sydd i'w gweld yn llawn ar wefan Defra. Er hwylustod cyfeirio, rydym wedi darparu crynodeb isod:
  - **Lleihau niwed a risg i'r amgylchedd:** i ba raddau mae effeithiau negyddol sylweddol i'r amgylchedd yn cael eu hosgoi neu eu lleihau, er mwyn cyflawni'r amcanion polisi.
  - **Amserlen weithredu:** i ba raddau mae'r polisi yn cyflawni'r amcanion a nodwyd mewn modd amserol i fynd i'r afael â'r broblem sy'n cael ei hystyried.
  - **Dichonoldeb/cyflawniad:** i ba raddau y gellir cyflwyno'r opsiwn gyda'r adnoddau a'r sgiliau presennol sydd ar gael, heb fawr o broblemau logistaidd neu weithredu.
  - **Gwerth am arian:** i ba raddau mae'r opsiwn polisi yn debygol o ddarparu gwerth cymdeithasol o ran costau, buddion a risgiau.
  - **Cyd-fynd yn strategol â pholisiâu ehangach:** i ba raddau mae'r opsiwn polisi yn cyd-fynd ag amcanion ehangach y llywodraeth sy'n targedu fepio ymhlith pobl ifanc.
- 6.4. Ceir diffiniad o'r ystyriaethau hyn isod:

- **Cadw'r status quo (h.y. busnes fel arfer):**

- Dan yr opsiwn busnes-fel-arfer, ni fyddai unrhyw gyfyngiadau ar werthu a chyflenwi fêps tafladwy. Dyma'r llinell sylfaen yr asesir pob opsiwn arall yn ei herbyn. Byddai methiannau'r farchnad mewn perthynas ag effeithiau negyddol allanol ar yr amgylchedd sy'n gysylltiedig â gwaredu yn y ffordd anghywir yn ogystal â defnydd aneffeithlon o adnoddau yn parhau. Er, heb weithredu unrhyw newidiadau, ni fyddai angen ystyried unrhyw faterion cyflawni na gweithredu yn codi gyda'r opsiwn hwn.

- **Gwaharddiad ar werthu a chyflenwi fêps tafladwy (yr opsiwn a ffefrir):**

- Byddai'r opsiwn hwn yn mynd at wraidd y broblem, ac yn creu sefyllfa lle na fyddai fêps tafladwy ar gael i'w gwerthu ac felly'n annog gostyngiad yn y defnydd ohonynt. Gellir gweithredu gwaharddiad yn gynt na'r opsiynau eraill dan ystyriaeth a byddai'n fwy effeithiol o ran atal gwastraff deunyddiau crai critigol. Byddai hyn yn ei dro yn cael mwy o fanteision o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Byddai hefyd yn helpu i hyrwyddo dewisiadau eraill y gellir eu haildefnyddio sy'n darparu defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Byddai negeseuon o blaid gwaharddiad hefyd yn helpu i dynnu sylw at effeithiau amgylcheddol gwaredu fêps yn anghywir.
- Mae'r opsiwn hwn yn gydnaws ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru hefyd. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn dilyn yr hyn mae gwledydd eraill naill ai eisoes wedi'i wneud neu'n bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r problemau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â fêps tafladwy.

- **Gweithredu Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) ar gyfer fêps tafladwy:**

- Byddai'r opsiwn hwn yn gosod cynllun dychwelyd ernes ar fêps tafladwy er mwyn cymell pobl i'w dychwelyd a'u hailgylchu. Er y gallai hyn helpu i'r gynyddu cyfraddau ailgylchu fêps tafladwy a thrwy hynny leihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, byddai ganddo hefyd oblygiadau cost i gynhyrchwyr fêps a chostau gorfodi ar gyfer monitro cydymffurfiaeth.
- Byddai'r opsiwn hwn yn llai tebygol o hyrwyddo'r defnydd o ddewisiadau amgen y gellir eu haildefnyddio, a byddai hefyd yn cymryd sawl blwyddyn i'w weithredu, pan mae'r broblem dan ystyriaeth yn tyfu'n gyflym. Ar ben hynny, nid oes gan y wlad gyfleusterau addas i ailgylchu'r cynhyrchion hyn ac felly mae'r opsiwn hwn yn llai tebygol o fod yn ymarferol.

- **Opsiwn cais yn unig:**

- Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod fêps tafladwy ar gael trwy gais yn unig ym mhob lleoliad a ddim yn cael eu harddangos yn hawdd (h.y. dim ond ar gael os bydd defnyddiwr yn gofyn yn benodol am un). Byddai hyn yn debyg i'r dull presennol o drin cynhyrchion tybaco lle mae manwerthwyr yn creu arddangosfeydd dros dro o faint cyfyngedig, a dim ond yn gwerthu cynnyrch tybaco i gwsmer 18 oed neu drosodd ar gais. Dylid nodi bod siopau baco arbenigol yn dal i allu arddangos tybaco mewn ardaloedd tybaco dynodedig (h.y. gall siopau arbenigol arddangos a hysbysebu cynhyrchion tybaco y tu mewn i'w siopau ar yr amod nad ydynt yn weladwy o'r tu allan).
- Yn wahanol i gynhyrchion tybaco, nid oes unrhyw fesurau i reoleiddio arddangos cynhyrchion fepio mewn siopau yng Nghymru. [Mae cynhyrchion fepio yn cael eu harddangos yn agored ac amlwg](#) ar gownteri, wrth y til ac mewn tyrau arddangos trawiadol ar loriau'r siop. [Mae pryderon wedi'u nodi am y ffaith bod plant](#) yn gweld ac yn codi'r fêps yn hawdd mewn eiliau, ger losin a chynnyrch melysion ac ar silffoedd hygyrch.
- Mae ansicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y dull hwn. Er ei fod yn debygol o weithredu fel rhwystr i blant a'u hatal rhag cael mynediad hawdd i fêps, ni fyddai o reidrwydd yn dylanwadu ar oedolion sy'n fepio. Efallai na fydd hyn yn lleihau'r effeithiau amgylcheddol presennol yn llawn ac felly nid yw'n targedu amcanion y polisi yn benodol. Byddai'n anoddach i gyrrff gorfodi fonitro cydymffurfiaeth busnesau mewn perthynas â'r opsiwn hwn ac mae'n debygol na fyddai'n cael unrhyw effaith ar brynu ar-lein.

- **Cynllun cymryd yn ôl ehangach:**

- Byddai'r opsiwn hwn yn adeiladu ar reoliadau presennol WEEE. Bydd hyn yn cynyddu atebion hygyrch cymryd yn ôl ac ailgylchu drwy gyflwyno manau casglu ychwanegol ar safleoedd manwerthwyr neu finiau fêps dynodedig ar safleoedd mwy o fanwerthwyr a lleoedd fel ysgolion/prifysgolion a manau cyhoeddus eraill.
- [Roedd ymatebion i gais am dystiolaeth Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol San Steffan](#) yn dweud yn aml y dylai ysgolion fod â 'biniau fêps' dynodedig lle gallai plant gael gwared ar fêps yn ddiogel, er mwyn lleihau sbwriel a gwaredu cyfleoedd i blant godi fêps wedi'u taflu er mwyn eu defnyddio neu eu gwerthu, sy'n broblem mewn ysgolion.

- Byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud hi'n haws i waredu'n gyfrifol. Fodd bynnag, mae'r opsiwn hwn yn debygol o fod yn gostus iawn i siopau ac ysgolion ac efallai na fydd yn arwain at fwy o ailgylchu oherwydd diffyg seilwaith ailgylchu yn y DU. O ystyried pa mor gyffredin yw fepio ymysg plant (gan gynnwys fêps yn cael eu gwerthu'n anghyfreithlon i'r rhai dan oed), efallai na fydd y defnyddwyr hyn eisiau dychwelyd fêps i siopau.
- **Creu seilwaith ailgylchu i ymdrin â fêps tafladwy:**
    - Un her allweddol wrth ddelio â fêps tafladwy yw diffyg seilwaith ailgylchu wedi'i sefydlu yn y DU. Ar hyn o bryd, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynghori mai datgymalu â llaw yw'r unig fath o driniaeth ar gyfer ailgylchu fêps. Er mwyn cynyddu'r capasiti ar gyfer ailgylchu fêps, gallai symud tuag at broses drin fwy mecanyddol, gyda gweithdrefnau posibl yn cynnwys defnyddio system 'nitrogen blanketing' i leihau risg tân neu system rwygo wlyb i atal tanau.
    - Byddai hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol dros sawl blwyddyn i'r seilwaith ennill ei blwyf, ac oedi cyn gweithredu i fynd i'r afael â'r difrod amgylcheddol uniongyrchol sy'n cael ei achosi. O ystyried yr amserlenni a'r ansicrwydd hyn ynghylch opsiynau trin yn y dyfodol, diystyriwyd y dull hwn.
  - **Dylunio cynnyrch fêps tafladwy yn well i'w gwneud hi'n haws i'w ailgylchu:**
    - Gallai safoni dyluniad a dull ailgylchu fêps tafladwy leddfu'r baich ar ailgylchwyr a galluogi awtomeiddio'r broses ailgylchu, yn hytrach na'r broses gyfredol o ddatgymalu â llaw. Fodd bynnag, byddai unrhyw safon cynnyrch yn cymryd amser i ddatblygu, gweithredu a gorfodi. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn methu â hyrwyddo'r defnydd o ddewisiadau eraill y gellir eu haildefnyddio, yn hytrach na fêps tafladwy. Oherwydd pryderon ynghylch ymarferoldeb, ni ystyriwyd yr opsiwn hwn yn ddewis amgen rhesymol o gymharu â gwahardd gwerthu a chyflenwi fêps tafladwy.
  - **Treth ar fêps tafladwy (fesul dyfais)**
    - Mae sawl gwlad, gan gynnwys yr Eidal a Sweden, wedi cyflwyno mathau gwahanol o dreth ar fêps, ond mae llawer yn seilio'r dreth ar faint o hylif a ddefnyddir yn hytrach na threth fesul dyfais. Mae'r dreth hefyd yn cynnwys pob math o fêp yn hytrach na thargedu dyfeisiau tafladwy yn benodol.

- Yng nghyllideb y gwanwyn ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol y DU Doll Cynhyrchion Fêps ar draws y DU y disgwylir iddi ddod i rym ym mis Hydref 2026. Mae'n targedu cryfder nicotin hylif mewn cynhyrchion fêps yn fwy cyffredinol, ac nid yw wedi'i dargedu'n benodol at ddyfeisiau tafladwy. Byddai codi treth ar fêps tafladwy (fesul dyfais) yn hytrach na - neu'n ychwanegol at - doll fepio gyffredinol sydd hefyd yn cynnwys fêps y gellir eu hailddefnyddio, yn gwneud fêps tafladwy yn llai fforddiadwy ac yn effeithiol o ran lleihau'r defnydd, gyda'r posibilrwydd o leihau nifer absoliwt y rhai sy'n cael eu gwaredu'n anghywir a lleihau'r effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â hynny. Byddai hefyd yn cynhyrchu refeniw treth i'r llywodraeth.
  - Yn dibynnu ar swm y dreth, gallai pris fêps tafladwy godi i'r un faint â fêps y gellir eu hailddefnyddio, a thrwy hynny annog llai o ddefnydd o fêps tafladwy. Fodd bynnag, mae'n fwy tebygol y byddai cynnydd ym mhris fêps tafladwy yn darbwyllo'r grwpiau oedran iau i beidio â fepio gan fod fêps yn fwy hygyrch oherwydd eu fforddiadwyedd ar hyn o bryd. Gallai trethi uchel ar gyfer fêps tafladwy annog y rhai sy'n gallu fforddio hynny i newid i fêps y gellir eu hailddefnyddio. Mae'n annhebygol y byddai cynnydd ym mhris fêps tafladwy yn annog newid i smygu sigarêts oherwydd eu cost.
  - Risg bellach gyda threth yw bod effeithiolrwydd yn debygol o leihau dros amser heb ymyrraeth bellach ac felly efallai na fydd yr effeithiau a ddymunir yn parhau. Mae hyn oherwydd bod fêps, yn debyg i sigarêts, yn cynnwys nicotin - sylwedd caethiwus - a allai olygu y bydd defnyddwyr fêps yn chwilio amdanynt beth bynnag yw'r baich treth i fodloni'r awydd am nicotin. Ar ben hynny, ni fyddai treth o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r broblem sbwriel yn llwyr gan na fyddai'n hybu nac yn hwyluso ailgylchu fêps tafladwy. Gellid defnyddio treth i helpu ariannu opsiynau eraill - megis creu seilwaith ailgylchu i ailgylchu fêps tafladwy - fodd bynnag, mae clustnodi refeniw treth yn arfer anghyffredin iawn yn y DU.
- **Ymgyrch wybodaeth i gynyddu nifer y fêps tafladwy sy'n cael eu hailgylchu (opsiwn nad yw'r rheoleiddiol):**
    - Mae tystiolaeth yn dangos bod 75% o'r bobl sy'n fepio yn credu y dylai cynhyrchwyr a manwerthwyr ddarparu mwy o wybodaeth y gellir ailgylchu fêps ac na ddylid defnyddio'r gair [tafladwy neu untro mewn unrhyw waith marchnata a hyrwyddo](#). Byddai ymgyrch wybodaeth sydd wedi'i thargedu'n benodol at fêps tafladwy, sy'n cynnwys cyfarwyddiadau haws ar sut i'w gwaredu'n ddiogel (h.y. bod defnyddwyr yn gwybod y dylent ailgylchu bob tro yn hytrach na thafllu eu fêps i'r bin neu achosi sbwriel) yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o sut i ailgylchu fêps tafladwy yn ddiogel.



- Fodd bynnag, gallai hyn greu cymhlethdodau oherwydd capasiti ailgylchu cyfyngedig yng Nghymru ac ar draws y DU. Yn ogystal, byddai'r dull hwn yn annhebygol o gyflawni'r amcanion polisi o gyflymu'r gostyngiad mewn niwed amgylcheddol dros amser ac ni fyddai'n mynd i'r afael ag effeithiau cylch bywyd ehangach fêps tafladwy nac yn hyrwyddo dewisiadau amgen y gellir eu hailddefnyddio.

## Rhestr fer o opsiynau

6.5 Mae Tabl 1 yn dangos crynodeb sgôr RAG o'r asesiad ansoddol o bob un o'r opsiynau ar y rhestr hir yn erbyn y meini prawf llwyddiant polisi, ac mae allwedd ar gyfer y sgoriau/graddau ar gael yn Nhabl 2.

**Tabl : 1 Asesiad ansoddol cryno o opsiynau'r rhestr hir**

Opsiw'n	Lleihau niwed a risg i'r amgylchedd	Cyflwyno/ gweithredu mewn da bryd	Dichonoldeb / posibl i'w gyflawni	Gwerth am arian	Strategaeth ategol yn cyd-fynd â pholisïau cyhoeddus ehangach
Gwneud Dim	Coch	Gwyrdd	Gwyrdd	Coch	Coch
Gwahardd gwerthu a chyflenwi fêps tafladwy	Gwyrdd	Gwyrdd	Gwyrdd	Oren / Gwyrdd	Gwyrdd
Gweithredu cynllun dychwelyd ernes ar gyfer fêps tafladwy	Oren	Coch	Coch	Oren	Coch
Opsiw'n cais yn unig	Coch	Gwyrdd	Gwyrdd	Oren	Oren
Cynllun cymryd yn ôl ehangach	Oren	Coch	Oren	Oren	Coch
Creu seilwaith ailgylchu i ymdrin â fêps tafladwy	Oren	Coch	Coch	Coch	Coch
Dylunio cynnyrch fêps tafladwy yn well i'w gwneud nhw'n haws i'w hailgylchu	Oren	Coch	Oren	Oren	Coch
Treth ar fêps tafladwy (fesul dyfais)	Oren	Oren	Oren	Oren	Oren
Ymgrych wybodaeth (opsiw'n nad yw'n rheoleiddiol)	Oren	Oren	Gwyrdd	Oren	Coch

**Tabl 2: Allwedd ar gyfer asesu yn erbyn meini prawf llwyddiant**

Allwedd	Disgrifiad
Coch	Ddim yn bodloni meini prawf llwyddiant
Oren	Bodloni'r meini prawf llwyddiant yn rhannol
Gwyrdd	Bodloni/cyflawni meini prawf llwyddiant

6.6 Ar ôl sgorio'r opsiynau yn erbyn y meini prawf llwyddiant, rydym wedi ystyried mai'r opsiwn mwyaf tebygol oedd gwaharddiad ar werthu a chyflenwi fêps tafladwy. Felly, rydym wedi ystyried y ddau opsiwn canlynol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

**Opsiwn 1: Cadw'r status quo (h.y. busnes fel arfer).**

6.7 Dyma'r dewis y mae'r opsiwn a ffefrir yn cael ei asesu yn ei erbyn, ac o'r herwydd mae'r costau a'r buddion yn sero. Heb ymyrraeth gan y llywodraeth, byddai fêps tafladwy yn parhau i gael eu cynhyrchu, eu mewnfario a'u gwerthu yma yng Nghymru heb unrhyw gostau ychwanegol i fusnesau. Rhagwelir y bydd gwerthiant yn dal i gynyddu yng Nghymru, ond ar gyfradd sy'n lleihau. O'r herwydd, bydd yr effeithiau amgylcheddol a achosir gan waredu fêps tafladwy yn anghywir (e.e. risg o danau gwastraff sy'n gysylltiedig â batris) yn parhau.

**Opsiwn 2: Cyflwyno gwaharddiad ar werthu a chyflenwi fêps tafladwy (opsiwn a ffefrir).**

6.8 Dyma'r opsiwn a ffefrir. Bydd gwaharddiad ar werthu a chyflenwi fêps tafladwy yn lleihau'r costau amgylcheddol a chymdeithasol a achosir gan eu cynhyrchu a'u gwaredu'n anghywir, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r ymyrraeth hon yn cymhwyso'r egwyddor ragofalus a bydd yn sicrhau'r newid a'r buddion amgylcheddol cysylltiedig yn gyflym, gan sicrhau eu bod yn parhau i'r dyfodol. Bwriad y gwaharddiad yw atal niwed amgylcheddol a achosir gan bobl yn gwaredu fêps tafladwy yn anghywir.

6.9 Mae fêps tafladwy yn gynnyrch cynhenid anghynaliadwy, sy'n golygu mai gwaharddiad llwyr yw'r ateb mwyaf effeithiol i'r broblem hon o hyd a'r ateb a fyddai'n cefnogi amcanion y polisi. Byddai gwaharddiad yn mynd llawer pellach nag opsiynau eraill i leihau nifer y fêps tafladwy sydd o gwmpas. Byddai hefyd yn helpu i anfon neges at ddefnyddwyr bod dewis arall ar gael y gellir ei aildefnyddio a chodi ymwybyddiaeth o ailgylchu (h.y. ei gwneud yn arferol i bobl brynu fêps y gellir eu haildefnyddio a'u hailgylchu'n iawn pan fydd y cynnyrch yn cyrraedd diwedd oes). Disgwylir i'r ymyrraeth leihau nifer y fêps sy'n cael eu cynhyrchu ac yna eu taflu fel sbwriel, eu hanfon i safle tirlenwi a'u

llosgi. Bydd felly'n annog cyfraddau aildddefnyddio dewisiadau eraill y gellir eu haildddefnyddio, gan sicrhau bod y cynnyrch tafladwy (h.y. fêps tafladwy) allan o gylchrediad, a thrwy hynny, yn cywiro methiannau yn y farchnad bresennol a mynd i'r afael â gwraidd y broblem.

- 6.10 Byddai gwaharddiad hefyd yn cefnogi'r diwygiadau arfaethedig ehangach i reoliadau WEEE a fyddai'n cynyddu'r defnydd o ailgylchu cynhyrchion y gellir eu haildddefnyddio ac yn sicrhau y byddant yn cael eu hailgylchu mewn ffordd addas ar ddiwedd eu hoes. Ar ben hynny, bydd y diwygiadau i reoliadau WEEE yn sicrhau mai dim ond cynhyrchwyr fêps y gellir eu haildddefnyddio sy'n ysgwyddo'r gost o ailgylchu fêps dan y rheoliadau hyn.
- 6.11 Hefyd, byddai deddfu i roi terfyn ar werthu fêps tafladwy yn creu chwarae teg i fusnesau ac yn creu cysondeb, gan helpu i sicrhau nad yw plant yn gallu eu prynu ac felly'n helpu i daclo achosion o fepio ymhlith pobl ifanc. Yn wahanol i opsiynau eraill yn y rhestr hir sy'n canolbwyntio mwy ar gynyddu lefelau ailgylchu, mae'r opsiwn polisi o waharddiad yn fwy cydnaws â pholisïau cyhoeddus cysylltiedig, gan gynnwys y pecyn ehangach o fesurau i fynd i'r afael â phobl ifanc yn fepio.
- 6.12 Ni chynigir unrhyw eithriadau o dan y gwaharddiad hwn. Mae rhagor o fanylion am hyn yn y 'Crynodeb o'r Asesiad Effaith' yn Adran 9 isod.
- 6.13 Fel y nodwyd eisoes ym Memorandwm Esboniadol y ddogfen hon, roedd cefnogaeth gref i wahardd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad '[Creu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc](#)'. Wrth holi a oedd pobl yn cefnogi cyfyngu ar gyflenwi a gwerthu cynhyrchion fêps tafladwy, roedd 79.6% o'r ymatebwyr o Gymru yn cytuno â'r dull hwn. Pan ofynnwyd iddynt a ddylai hyn fod ar ffurf gwaharddiad, roedd 69.4% o ymatebwyr Cymru yn cytuno ac yn nodi pryderon ynghylch niwed amgylcheddol (gan gynnwys yr angen i leihau plastig) yn eu hymateb.

## 7. Costau a manteision

### Tybiaethau

7.1. Mae'r adran a ganlyn yn amlinellu cyfres o ragdybiaethau a dulliau a ddefnyddiwyd i ategu'r dadansoddiad o gostau a manteision a gynhaliwyd.

#### Modelu'r opsiynau polisi, y tybiaethau a'r pwysoliad ar gyfer Cymru

7.2. Mae'r dadansoddiad o gostau a manteision yn mabwysiadu'r un dull modelu a ddefnyddiwyd gan Defra a Llywodraeth yr Alban. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull cydgysylltiedig a roddwyd ar waith i weithredu'r polisi ledled y DU. Defnyddiwyd ystod eang o dystiolaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn a, lle y bo'n bosibl, rydym wedi defnyddio gwaith ymchwil a setiau data sy'n benodol i Gymru i gyfrifo ein ffigurau. Os nad oedd setiau data ar gyfer Cymru, gwnaethom naill ai lunio ffigur i Gymru gan ddefnyddio data o bob rhan o'r DU (a gasglwyd drwy waith ymchwil a gomisiynwyd yn allanol, setiau data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac ati) neu, os nad oedd hyn yn bosibl, defnyddiwyd ffigur ar gyfer y DU gyfan.

7.3. Ystyrir bod y dull hwn yn briodol oherwydd credir bod yr arferion defnydd yn eithaf tebyg ledled y DU ac, yn absenoldeb diwydiant domestig ar gyfer gweithgynhyrchu fêps untro, mae'n debygol bod cysylltiad agos rhwng y cadwyni cyflenwi (mewnforwyr, dosbarthwyr a chyfanwerthwyr) sy'n gwasanaethu Cymru a gweddill y DU. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd yr effeithiau ar ddefnyddwyr a busnesau yn gymesur yn fras i faint cymharol y boblogaeth a'r farchnad.

7.4. Mae dull modelu costau a manteision Defra yn defnyddio methodoleg safonedig sy'n gyson ledled y DU gyfan ar gyfer arfarnu effaith ymyriadau polisi. Y canllaw troswaol sy'n llywio'r holl asesiadau effaith tebyg ledled y DU yw Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Fawrhydi, sy'n darparu arweiniad ynghylch sut i arfarnu a gwerthuso polisiau, prosiectau, a rhaglenni.


#### Gwrthffeithiol

- 7.5. Er mwyn archwilio'r tueddiadau cyfredol yn y farchnad fêps untro, defnyddiwyd [data gwerthiannau o adroddiad gan Eunomia a gomisiynwyd gan Defra](#). Cynhaliwyd eu gwaith ymchwil yn 2023 yn benodol i wella'r sail dystiolaeth ar gyfer y farchnad fêps untro a'i heffeithiau amgylcheddol yn y DU. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o'r dystiolaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a gwaith modelu rhagarweiniol i ddadansoddi effaith amgylcheddol fêps untro. Mae costau a manteision yr opsiwn a ffeirir wedi'u hasesu yn erbyn sefyllfa wrthffeithiol pan nad oes gwaharddiad (h.y. yn y senario 'gwneud dim'/cadw'r sefyllfa bresennol).

### Amcanestyniad o werthiannau fêps untro

- 7.6. Mae [Material Focus yn amcangyfrif](#) bod 360 miliwn o fêps untro wedi'u rhoi ar y farchnad (POM) yn y DU yn 2023. Mae'r ffigur hwn wedi'i ragamcanu gan Eunomia yn ei [adroddiad ymchwil](#), sy'n dangos y gallai tua 1 biliwn o fêps untro gael eu rhoi ar farchnad y DU erbyn 2030. Mae hyn yn tybio y bydd y defnydd yn parhau i gynyddu ar raddfa sy'n gostwng o gymharu â'r twf cyflym a welwyd cyn 2023 ac yn absenoldeb unrhyw ymyriadau polisi. Mae hyn hefyd yn ystyried y ffaith y byddai rhai o'r rheini [sy'n defnyddio fêps untro yn rheolaidd yn newid i fêps amldro](#) o gofio bod y rhain yn sylweddol rhatach yn yr hirdymor. Rydym wedi addasu'r ffigur hwn ar sail y gyfran o boblogaeth y DU sy'n byw yng Nghymru (4.6%) ac rydym wedi allosod y data ymhellach i gyrraedd 66.2 miliwn o fêps untro yn 2034 i gwmpasu'r cyfnod arfarnu o 10 mlynedd.
- 7.7. Gellir gweld y senario a fodelwyd yn absenoldeb gwaharddiad yn **Ffigur 1** isod, a cheir yr amcangyfrifon ar gyfer blynyddoedd 1, 5 a 10 y cyfnod arfarnu yn **Nhabl 3**.

**Ffigur 1: Siart amcanestyniad o werthiannau fêps untro yng Nghymru**



**Tabl 3: Amcanestyniad llinell sylfaen o werthiannau fêps untro yng Nghymru**

	Senario isel	Senario ganol	Senario uchel
<b>2025</b>	21,120,223	24,000,253	26,880,284
<b>2029</b>	37,567,715	42,690,585	47,813,455
<b>2034</b>	58,278,974	66,226,107	74,173,239

7.8. Mae trosolwg o sut y defnyddiwyd y senarios hyn i gyfrifo'r costau wedi'i amlinellu yn Adran 7 isod.

7.9. Mae cyfradd twf gwerthiannau o un flwyddyn i'r llall wedi'i chrynhai yn **Nhabl 4**, ac mae'r gwerthoedd wedi'u nodi i'r ganran agosaf.

**Tabl 4: Y gyfradd dwf o un flwyddyn i'r llall ar gyfer fêps untro a roddir ar y farchnad**

	2024	2025	2026	2027	2028	2029	2030	2031	2032	2033	2034
<b>Cyfradd y twf o un flwyddyn i'r llall (%)</b>	21%	19%	18%	16%	15%	13%	12%	11%	9%	8%	6%

7.10 Mae amcanestyniad Eunomia yn seiliedig ar gyfradd twf o un flwyddyn i'r llall yn y defnydd o fêps untro a ragwelwyd gan [Zero Waste Scotland](#), ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2027. Tybir y bydd y duedd hon o ran twf yn parhau rhwng 2027 a 2030 ac mae wedi'i hallosod ymhellach gan dybio y bydd yn parhau hyd 2034. Yn absenoldeb unrhyw ymyriad, y newidiadau allweddol a ddisgwylir yw parhad y twf yn y defnydd o fêps ymysg y boblogaeth gyda chyfran gynyddol o ddefnyddwyr fêps untro (a chyfran gynyddol o refeniw gwerthiant) ymysg y nifer gynyddol sy'n defnyddio fêps.

7.11 Gwnaeth yr amcangyfrifon a gynhaliwyd gan Zero Waste Scotland ystyried y canlynol:

- Mae'n ymddangos bod cyfran yr oedolion sy'n defnyddio fêps (pob math, nid fêps untro yn unig) yn tyfu tua 0.55 pwynt canran y flwyddyn ar lefel Prydain

Fawr, ar sail data o'r arolwg Prydeinig blynyddol gan Action on Smoking and Health (ASH). Yn ogystal, roedd y ffigur diweddaraf ar gyfer cyfran yr oedolion sy'n defnyddio fêps yn yr Alban yn tua 13.2% ym mis Hydref 2022.

- Mae'r newid radical a adroddwyd mewn gwerthiannau a'r defnydd cynyddol o fêps untro fel y brif ddyfais fepio yn nodi cyfeiriad y duedd, ond ni fydd cyflymder y newid a welwyd yn 2021-2022 yn cael ei gynnal.
- Ar draws cyfnod o 10 mlynedd rhwng 2012 a 2022, awgrymodd amryw o arolygon 'dechrau fepio' (gan gynnwys gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ASH a'r Smoking Toolkit Study) y bydd cynnydd pellach yn nifer y defnyddwyr fêps yn debygol mewn blynyddoedd i ddod yn ogystal â'r ffaith y bydd gostyngiad yn y nifer sy'n ysmegu yn ystod yr un cyfnod. Mae hyn yn awgrymu y bydd gostyngiad pellach yn debygol yn y dyfodol (h.y. gan fod fêps yn gymorth rhoi'r gorau i ysmegu, gellir priodoli rhai o'r ffigurau dechrau fepio i'r lleihad mewn ysmegu wrth i ysmegwyr roi'r gorau iddi).

7.12 O'r herwydd, ystyriwyd ei bod yn rhesymol ystyried, yn absenoldeb unrhyw ymyriad, mai'r prif newidiadau a ddisgwylir yw:

- Twf parhaus yn y nifer sy'n dechrau fepio ledled y boblogaeth;
- Ochr yn ochr â'r twf hwn, bydd cyfran gynyddol o ddefnyddwyr fêps untro ymysg y rheini sy'n defnyddio fêps (ni waeth a yw rhai defnyddwyr yn newid i fêps aml dro ai peidio).

7.13 Yn fwy penodol, [roedd amcanestyniad Zero Waste Scotland](#) yn seiliedig ar y tybiaethau a ganlyn gan ddefnyddio'r tueddiadau presennol:

- Mae nifer y bobl ifanc o dan 16 oed sy'n dechrau fepio yn cynyddu 2 bwynt canran y flwyddyn;
- Mae'r boblogaeth 16 oed neu hŷn sy'n dechrau fepio yn cynyddu 1.5 pwynt canran y flwyddyn (h.y. mae 1.5% o'r boblogaeth yn cael ei hychwanegu at nifer y defnyddwyr fêps bob blwyddyn);
- Mae cynnydd o 4% y flwyddyn yng nghyfran y defnyddwyr fêps sy'n defnyddio fêps untro fel eu prif ddyfais (o blith y defnyddwyr e-sigarêts yn yr ystod oedran) ymysg y rheini o dan 16 oed, 16-24 oed a 25-34 oed;
- Mae cynnydd o 2% y flwyddyn yng nghyfran y defnyddwyr fêps sy'n defnyddio fêps untro fel eu prif ddyfais (o blith y defnyddwyr e-sigarêts yn yr ystod oedran) ymysg y rheini sy'n 35 oed a hŷn.

- Mae nifer yr unedau fêps untro a brynir bob blwyddyn, a nodir fesul unigolyn sy'n defnyddio fêps untro fel ei brif ddyfais, yn aros yn gyson (139 a 177 o unedau fêps untro y flwyddyn fesul defnyddiwr ar gyfer y senarios isel ac uchel).


7.14 Cydnabyddir bod yr amcanestyniadau yn ansicr. Felly, cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd o gwmpas y senario ganol i archwilio'r risg hwn. Mae hyn yn seiliedig ar y senarios uchel ac isel yn yr amcangyfrif o'r defnydd o fêps untro yn '[Scoping policy options for Scotland focusing on understanding and managing the environmental impact of single use e-cigarette for the period 2022 to 2027](#)' gan Zero Waste Scotland oherwydd defnyddiodd Eunomia yr un gyfradd dwf ar gyfer y cyfnod hwn. Mae hyn yn cael ei gyfrifo fel 12% (i'r ganran agosaf) uwchlaw ac islaw'r senario gyfartalog/canol ar gyfer fêps untro a roddir ar y farchnad, gan gadw'r gyfradd dwf o un flwyddyn i'r llall yr un fath.

### **Amcanestyniad o'r sgil-gynhyrchion gwastraff**

7.15 Mae'r gyfradd dwf a'r sensitifrwydd uchel/isel wedi'u cymhwyso hefyd i sgil-gynhyrchion gwastraff fêps untro (a fesurir mewn tunelli o wastraff yn hytrach na nifer yr eitemau). Addaswyd y ffigurau hefyd ar sail y gyfran o boblogaeth y DU sy'n cyfateb i boblogaeth Cymru ac fe'u hallosodwyd ymhellach i gwmpasu'r cyfnod arfarnu. Ar gyfer pob fêp untro sy'n cyfrannu at hyn, tybir bod y rhan fwyaf o hylif y fêp wedi'i ddefnyddio yn ystod oes y fêp ac felly pwysau cyfartalog fêp untro pan fydd yn dod yn wastraff yw tua 30g (y pwysau cyfartalog pan fydd y fêp tafladwy yn llawn yw 32.2g ac mae'r gostyngiad yn y pwysau yn seiliedig ar 2ml o hylif yr amcangyfrif ei fod yn 50:50 propylen glycol a glyserin gyda 20mg o halwynau nicotin toddedig, ond gyda 0.25g yn weddill ar ddiwedd ei hoes). Mae **Ffigur 2** yn dangos amcanestyniad o sgil-gynhyrchion gwastraff fêps untro, ac mae'r ffigurau ar gyfer blynyddoedd 1, 5 a 10 o'r cyfnod arfarnu yn **Nhabl 5** yn defnyddio'r un gyfradd dwf o **Dabl 4**.

### **Ffigur 2: Siart o'r amcanestyniad o sgil-gynhyrchion gwastraff fêps untro yng Nghymru**





**Tabl 5: Amcanestyniad llinell sylfaen o sgil-gynhyrchion gwastraff fêps untro yng Nghymru (tunelli)**

	Senario isel	Senario ganol	Senario uchel
<b>2025</b>	634	720	806
<b>2029</b>	1,127	1,281	1,434
<b>2034</b>	1,748	1,987	2,225

## Rhyngweithio posibl â pholisïau eraill

### Diwygiadau i'r Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE)

7.16 Disgwylir i rai o'r diwygiadau arfaethedig i'r rheoliadau WEEE a nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon gael eu gweithredu yn 2025, ond ni fyddant yn cael unrhyw effaith ar y senario wrthffeithiol, sy'n golygu nad oes angen addasu'r amcangyfrifon llinell sylfaen o ganlyniad.

7.17 Yn sgil y cynnig i greu categori newydd ar gyfer fêps i sicrhau bod cynhyrchwyr fêps yn ariannu'n briodol y costau ailgylchu pan fyddant yn dod yn wastraff, gallai cynhyrchwyr fêps dalu mwy am ailgylchu, gan drosglwyddo rhai o'r costau hynny i'r defnyddwyr o bosibl. Pe bai'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r defnyddwyr, gallai ostwng y galw am gynhyrchion fepio. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd yr effaith ar y galw yn ddigon arwyddocaol iddi beidio â

chael ei chynnwys yn ein dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer data ar fêps untro a roddir ar y farchnad.

- 7.18 Ymhellach, mae'r [Rheoliadau WEEE](#) yn rhoi'r pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu targedau blynyddol ar gyfer casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff. Byddai penderfyniad i greu categori newydd ar gyfer fêps yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu targed casglu ar sail pwysau. Yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â disgresiwn llwyr i bennu maint y targed hwnnw; felly, nid yw'n bosibl mesur effeithiau cost tebygol targedau yn y dyfodol ar gynhyrchwyr fêps (neu yn wir unrhyw fath arall o gynhyrchydd). Yn wir, byddai angen rhagdybio targedau'r dyfodol i wneud hynny, a gallai hynny effeithio ar ddisgresiwn yr Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau presennol eisoes yn sicrhau bod y costau sy'n codi oherwydd sgil-gynhyrchion fêps mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref a mannau dosbarthu yn cael eu cynnwys yn y system. Byddai unrhyw darged yn y dyfodol yn ystyried y symiau hyn a'r data sydd ar gael yn y dyfodol ar effeithiau gwahardd fêps untro ar sgil-gynhyrchion gwastraff.
- 7.19 Mae'n annhebygol y bydd creu'r categori newydd hwn yn effeithio ar yr hyn y mae defnyddwyr yn ei wneud â'u fêps pan fyddant yn dod yn wastraff, pa un ag ydynt yn dewis eu taflu mewn bin, eu taflu ar lawr neu eu hailgylchu. O'r herwydd, ni fydd yn arwain at gynnydd yn y tunelli o fêps sy'n dod i mewn i system ailgylchu y DU neu Gymru. Yn hytrach, pan fo fêps yn cael eu hailgylchu, byddai'n golygu mai cynhyrchydd y fêps sy'n talu amdanynt yn hytrach na chynhyrchwyr trydanol eraill.
- 7.20 Er bod diwygiadau ehangach a wrthwynebwyd yn yr ymgynghoriad (gan gynnwys ymgyrchoedd cyfathrebu a chasgliadau o gartrefi) a allai arwain at gynnydd yn nifer y fêps untro sy'n cael eu casglu i'w hailgylchu, ni ddisgwylir y bydd y symiau hyn yn ddigon mawr i fynd i'r afael â'r broblem a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Bydd angen amser i adeiladu'r seilwaith angenrheidiol i sicrhau bod pob fêp yn cael ei ailgylchu yn y pen draw ac, yn ddelfrydol, bod seilwaith cyfyngedig yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynnyrch amldro sy'n gwella effeithlonrwydd economaidd.
- 7.21 Ar sail yr uchod, byddai'r problemau o ran cyfraddau ailgylchu isel ac effeithiau amgylcheddol negyddol yn sgil cael gwared ar fêps untro yn y ffordd anghywir yn parhau yn y senario wrthffeithiol (h.y., senario dim gwaharddiad), beth bynnag fo'r cynigion WEEE diweddaraf.

## **Polisiau cenhedlaeth ddi-fwg**

- 7.22 Mae'r Bil Tybaco a Fêps yn ceisio ei gwneud yn drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco i'r rheini sydd wedi'u geni ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009. Nod hyn yw rhoi diwedd yn raddol ar werthu cynhyrchion tybaco, heb wahardd unrhyw un sy'n ysmegu'n gyfreithlon ar hyn o bryd rhag gallu gwneud hynny, gan gyfrannu at amcan ehangach y llywodraeth o greu cenhedlaeth ddi-fwg. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw un sy'n troi'n 15 oed neu iau yn 2024 yn gallu prynu cynhyrchion tybaco yn gyfreithlon o fis Ionawr 2027, pan fydd y polisi hwn yn dod i rym a phan fydd y rheini a aned yn 2009 yn dechrau troi'n 18 oed.
- 7.23 Mae'r [data diweddaraf yn 'Smoking Habits in the UK' y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) yn dangos bod 14% o'r rheini yn y grŵp oedran 18-24 yng Nghymru yn ysmegu ar hyn o bryd (o 2022). Gan dybio bod dosbarthiad unffurf ar draws y grŵp oedran hwn (gan nad yw'r data wedi'u rhannu ar sail oedrannau unigol) a chan ei gymhwyso i [amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#), mae hyn yn awgrymu bod tua 4900 o unigolion 18 oed yn ysmegu ar hyn o bryd yng Nghymru. Fodd bynnag, dylid nodi ei bod yn ymddangos bod y gyfran o bobl yn y grŵp oedran hwn sy'n ysmegu ar hyn o bryd wedi bod yn lleihau'n raddol o un flwyddyn i'r llall, ac felly mae posibilrwydd y gallai'r gyfran hon leihau ymhellach mewn blynyddoedd i ddod.
- 7.24 Er bod fêps yn adnodd rhoi'r gorau i ysmegu, defnyddir cyfran sylweddol ohonynt gan bobl nad ydynt erioed wedi ysmegu tybaco o'r blaen. O ganlyniad i'r ffaith nad yw unigolion a aned ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009 yn gallu prynu sigarêts neu gynhyrchion tybaco eraill, mae posibilrwydd y byddant yn dechrau fepio (h.y., mae'r rheini a fyddai wedi dod yn ysmygwyr yn absenoldeb y polisi yn dechrau fepio yn lle). Gallai hyn olygu y bydd cynnydd posibl yn y galw am gynhyrchion fepio yn gyffredinol, ac am fêps untro hefyd. Rhagwelir y gallai'r gyfran o bobl 18 oed bob blwyddyn, a fyddai wedi dechrau ysmegu yn absenoldeb yr ymyriad polisi hwn, ddechrau fepio yn y pen draw ac y gallai hyn fod ar ffurf fêps untro. Pe bai hyn yn digwydd, gallai arwain at gynyddu'r amcanestyniad o werthiannau fêps yn y senario wrthffeithiol bresennol a amlinellir uchod. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth i gefnogi a yw hyn yn debygol ac nid oes gwybodaeth bellach ar gael am y newidynnau eraill (e.e., faint o'r defnyddwyr hyn fyddai wedi bod yn ddefnyddwyr deuol, yn defnyddio tybaco a fêps), ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y senario wrthffeithiol.

### **Toll Cynhyrchion Fepio**

- 7.25 Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol y DU yng [Nghyllideb y Gwanwyn](#) y byddai'n cyflwyno Toll Cynhyrchion Fepio newydd o fis Hydref 2026. Bwriedir i'r doll annog y rheini nad ydynt yn ysmegu i beidio â dechrau fepio, ond gan gadw'r cymhelliad ariannol i ddewis fepio yn lle ysmegu. Yn

ogystal, bydd y doll ar dybaco'n cael ei chynyddu o fis Hydref 2026 i gynnal ymhellach y cymhelliad ariannol i ddewis fepio yn hytrach nag ysmegu.

7.26 Bydd y doll fepio yn seiliedig ar y lefelau o nicotin mewn cynhyrchion. Mae'r cyfraddau arfaethedig fel a ganlyn ar hyn o bryd (dylid nodi y gallant fod ar sail pro rata):

- £1.00 fesul 10ml ar gyfer hylifau heb nicotin.
- £2.00 fesul 10ml ar gyfer hylifau sy'n cynnwys 0.1-10.9mg o nicotin y mililitr, a
- £3.00 fesul 10ml ar gyfer hylifau sy'n cynnwys 11mg neu fwy o nicotin y mililitr.

7.27 Adeg llunio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, nid oedd manylion y polisi hwn wedi'u cwblhau'n derfynol (Mai 2024). Roedd yr [ymgyngoriad ar y doll hon](#), dan arweiniad Trysorlys EF a Chyllid a Thollau EF (CThEF), yn croesawu sylwadau ar y cynigion ar gyfer dyluniad a gweithrediad y doll DU gyfan hon hyd 29 Mai 2024, sy'n golygu bod posibilrwydd y bydd yr amserlenni a gweithrediad y dreth yn newid ar ôl yr ymgyngoriad.

7.28 Yn ogystal, mae strwythur y doll yn golygu na fyddai'n gymwys i fêps untro. Mae hyn oherwydd bod y gwaharddiad eisoes wedi'i gyfrif yn y llinell sylfaen i hysbysu'r sail dreth oherwydd ei fod wedi'i gyhoeddi cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi Cyllideb y Gwanwyn ac oherwydd ei fod wedi'i weithredu cyn i'r doll fepio ddod i rym. Amcangyfrifodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y bydd y doll fepio'n codi £0.5 biliwn erbyn 2028-29 gyda nifer o elfennau ansicr yn y costiaid, gan gynnwys effaith gwahardd fêps untro. [Yn ei dadansoddiad](#), tybiwyd y byddai 40% o'r rhai sy'n defnyddio fêps untro ar hyn o bryd yn newid i gynhyrchion fepio amgen ac y byddent, felly, yn gorfod talu'r doll. O ganlyniad, ni chafodd y doll hon ei chynnwys yn ein senario wrthffeithiol i osgoi cyfri'r effeithiau ddwywaith, wrth geisio sicrhau cysondeb ar draws dadansoddiadau llywodraeth.

7.29 Mewn senario lle nad oes gwaharddiad ar fêps untro, gellid disgwyl y byddai'r doll yn lleihau'r amcanestyniad o werthiannau fêps untro. Fodd bynnag, byddai maint y newid yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys ymateb gan y gadwyn gyflenwi a allai geisio lleihau effaith y doll o bosibl, er enghraifft drwy leihau maint yr elw, sy'n awgrymu y gallai'r effaith gyffredinol ar y diwydiant fod yn llai pe bai'r doll yn cael ei hystyried yn ein senario wrthffeithiol.

### **Tybiaethau ynghylch diwedd oes a llwybrau trin**

7.30 Mae'r rhan fwyaf o'r costau a'r manteision a ystyrir yn yr Asesiad hwn yn seiliedig ar sut y mae fêps untro'n cael eu gwaredu. I asesu hyn, bu'n rhaid

gwneud tybiaethau ynghylch sut maent yn cael eu rheoli ar ddiwedd eu hoes a sut y maent yn cael eu trin.

### **Rhaniaid llwybrau rheoli diwedd oes**

7.31 Ar ddiwedd oes fêps, mae ymddygiad gwaredu ac ailgylchu yn pennu'r effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag adfer adnoddau a rheoli gwastraff. Mae Eunomia wedi amcangyfrif, ar sail data gan Zero Waste Scotland, y ffigurau canlynol ar gyfer llwybrau rheoli diwedd oes gwahanol ar gyfer fêps untro (i'r ganran agosaf), a amlinellir yn Nhabl 6.

**Tabl 6. Cyfran y sgil-gynhyrchion gwastraff o fêps untro ar sail y llwybrau rheoli diwedd oes**


<b>Llwybrau Rheoli Diwedd Oes</b>	<b>Cyfran o sgil-gynhyrchion gwastraff</b>
Ailgylchu mewn siop neu Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref	21%
Taflu mewn bin	68%
Ysbwriel/arall (mae 'arall' yn cwmpasu categorïau sydd â chyfran fach iawn, gan gynnwys eu rhoi i rywun arall neu eu gwaredu lawr y toiled, ac felly maent wedi'u cyfuno ag ysbwriel)	11%

### **Rhaniaid y llwybrau trin terfynol**

7.32 Ar sail cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid ac Ystadegau Gwastraff Defra, tybiodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol Defra y byddai fêps untro'n cael eu trin ym mhob llwybr casglu, fel yr amlinellir yn Ffigur 3.

7.33 Dylid nodi, yng Nghymru, [yn wahanol i rannau eraill o'r DU, anfonir cyfran llawer llai o wastraff trefol i safleoedd tirlenwi](#). Fodd bynnag, yn absenoldeb dadansoddiad manwl o lwybrau gwaredu ar gyfer fêps untro yng Nghymru ac o gofio'r costau niwtral sy'n gysylltiedig â chyfrifiadau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a ddefnyddir yn yr Asesiad hwn, rydym wedi dewis mabwysiadu'r model llwybrau casglu a geir yn Asesiadau Effaith Lloegr a'r Alban.

**Ffigur 3. Siart lif o llwybrau diwedd oes fêps untro**



7.34 Mae'r cyfrannau cyffredinol ar gyfer y llwybrau trin terfynol ar sail Ffigur 3 wedi'u crynhoi yn Nhabl 7 (i 1 pwynt degol).

**Tabl 7. Cyfran o sgil-gynhyrchion gwastraff o fêps untro fesul llwybr trin terfynol**

Llwybr trin	Cyfran o sgil-gynhyrchion gwastraff
<b>Ailgylchu</b>	0.1%
<b>Llosgi</b>	66.3%
<b>Tirlenwi</b>	33.6%

7.35 Mae'r llwybrau trin terfynol ar gyfer sgil-gynhyrchion gwastraff o fêps untro yn cael effeithiau amgylcheddol sylweddol. Tybir y bydd y cyfrannau hyn yn aros yn gyson dros y cyfnod arfarnu ar gyfer y senario wrthffeithiol. Heb unrhyw ymyriad polisi, bydd eu heffaith amgylcheddol yn parhau i gynyddu, o gofio'r lefelau defnydd uwch a ragwelir dros y cyfnod arfarnu.

7.36 Mae'r cyfrannau sy'n cael eu hanfon drwy'r llwybrau trin yn absenoldeb gwaharddiad yr un fath â'r cyfrannau o sgil-gynhyrchion gwastraff o fêps untro sy'n cael eu dargyfeirio o'r llwybrau trin o ganlyniad i'r gwaharddiad. Trafodir hyn wrth gyfrifo effeithiau penodol yn y dadansoddiad o gostau a manteision. Gellir gweld y manylion ar gyfer y gwastraff gweddilliol (h.y. tirlenwi a llosgi) ar gyfer y cyfnod arfarnu yn Nhabl 8 gan ddefnyddio'r cyfrannau o Dabl 7 wedi'u cymhwyso i Ffigur 2 mewn senario ganol.

**Tabl 8. Sgil-gynhyrchion gwastraff o fêps untro a ddargyfeirir o wastraff gweddilliol (tunelli)**

	2025	2029	2034
Llosgi	477	2849	1317
Tirlenwi	242	430	668

### Yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â llwybrau trin diwedd oes fêps

- 7.37 Gan fod bron bob un deunydd mewn fêps yn ddeunydd anadweithiol, pan fyddant yn cael eu rhoi mewn safle tirlenwi, ni fyddant yn diraddio neu'n rhyddhau allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG). Felly, prin iawn iawn fyddai'r allyriadau GHG sy'n gysylltiedig â thirlenwi fêps.
- 7.38 Wrth eu llosgi, bydd pŵer yn cael ei greu gan dyrbinau o ganlyniad i hylosgi'r gwastraff (h.y. troi gwastraff yn ynni (EfW)) ac, felly, bydd unrhyw allyriadau sy'n cael eu creu yng Nghymru yn sgil y broses hon yn cyfrif tuag at ein targedau GHG statudol. Gall llosgi fêps i greu pŵer ddisodli ffynonellau tanwydd eraill, fel nwy. Drwy roi cyfrif am hyn (mae gwaith modelu Eunomia yn rhoi cyfrif am hyn ac yn rhoi credyd am yr ynni a gynhyrchir y byddai angen ei gynhyrchu mewn man arall fel arall, er enghraifft, gan ffynonellau pŵer glo neu dyrbinau gwynt), mae 0.21 tonnell o CO<sub>2</sub> net yn cael ei ryddhau wrth losgi tonnell o sgil-gynhyrchion gwastraff fêps untro. Er hynny, mae hwn yn debygol o fod yn amcangyfrif ceidwadol oherwydd mae'n cynnwys y gwrthbwysiad ynni, pan fydd y sector ynni yn [datgarboneiddio erbyn 2035](#), ac felly gallai'r effaith fod yn fwy wrth nesáu at y dyddiad hwnnw. Felly, ar gyfer allyriadau sy'n cael eu hosgoi wrth droi gwastraff yn ynni, rydym yn tanamcangyfrif y fantais i bob pwrpas.
- 7.39 Mae allyriadau prosesau ac allyriadau sy'n cael eu hosgoi yn gysylltiedig ag ailgylchu fêps untro. Mae'r allyriadau ailgylchu net yn negyddol, sy'n awgrymu bod y credydau o ailgylchu fêps yn gorbwysu'r beichiau prosesu. Mae'r credydau a gyflawnir drwy ailgylchu yn uwch na'r beichiau, oherwydd mae'r allyriadau GHG sy'n gysylltiedig â chynhyrchu deunyddiau sylfaenol (e.e., copr ac alwminiwm) yn uchel. Felly, drwy ailgylchu'r deunyddiau hyn, mae modd osgoi lefel uchel o allyriadau GHG, drwy dybio bod y deunyddiau ailgylchu'n gwrthbwysu allyriadau o'r gwaith cynhyrchu sylfaenol. Ar gyfer y cydrannau batri a'r cydrannau nad ydynt yn fatris mewn fêps untro, mae [gwaith ymchwil Eunomia yn cyfrifo](#) bod -0.58 tonnell o CO<sub>2</sub> yn cael ei ryddhau ar gyfer pob tonnell o sgil-gynhyrchion gwastraff o fêps untro sy'n cael eu hailgylchu.


### Y gadwyn gyflenwi a'r llwybr i'r defnyddwyr

- 7.40 Mae [canllawiau Llywodraeth y DU](#) yn defnyddio cynhyrchydd i gyfeirio at unrhyw un sy'n gweithgynhyrchu neu'n mewnfario cynhyrchion fepio neu sy'n

ail-frandio unrhyw gynhyrchion fepio fel eu rhai nhw eu hunain. At ddibenion y dadansoddiad o gostau a manteision hwn, rydym wedi ystyried y categorïau hyn o 'gynhyrchydd' ar wahân oherwydd ni fyddent yn cael eu heffeithio yr un fath o ganlyniad i'r gwaharddiad.

7.41 Mae'r gadwyn gyflenwi ar gyfer fêps untro yn gymhleth, o gofio amrywiaeth y cwmnïau dan sylw sy'n eu mewnfurio a'u dosbarthu a'r amwysedd ynghylch pa un yw'r 'cyntaf' i roi'r cynhyrchion ar y farchnad. At ddibenion ein dadansoddiad o gostau a manteision, rydym wedi defnyddio'r gadwyn gyflenwi a ddefnyddir yn [Asesiad Effaith Defra](#) a luniwyd ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r llwybr arferol i'r farchnad ar gyfer fêps untro wedi'i amlinellu yn Ffigur 4, sy'n arddangos y llwybr mwyaf cyffredin i'r defnyddwyr ac yn helpu i osgoi cyfrif effeithiau ddwywaith.

**Ffigur 4: Siart lif y llwybr arferol i'r farchnad ar gyfer fêps untro**



7.42 Nododd yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar gyfer Asesiad Effaith Defra ar fêps untro mai ychydig iawn o fêps untro a weithgynhyrchir yn y DU, os o gwbl. Dyma'r un dybiaeth a ddefnyddiwyd yn y '[Scottish Government Business and Regulatory Impact Assessment \(BRIA\)](#)'. Awgrymodd yr ymarfer ymgysylltu hefyd fod cyfanwerthwyr yn annhebygol o fewnfurio fêps untro yn uniongyrchol; yn hytrach, byddent yn eu prynu gan fewnfuriwr/ail-frandiwr. Roedd tystiolaeth hefyd fod cynhyrchion yn mynd yn syth o fewnfuriwr, sydd â'i sianelau manwerthu ei hun o bosibl, yn hytrach na thrwy gyfanwerthwr traddodiadol mewn rhai achosion. Ar y sail hon, defnyddiwyd yr un dull yng Nghymru.

### **Effaith ar weithgynhyrchwyr**

7.43 Er ei bod yn anodd canfod yr union gyfran o fêps untro a gynhyrchir yn y DU sydd ar y farchnad, mae'n debygol o fod yn fach iawn neu'n sero. [Mae'r mwyafrif helaeth o fêps untro'n cael eu gweithgynhyrchu yn Tsieina](#), ac amcangyfrifir bod dros 80% o'r farchnad gyfan wedi'i rhannu rhwng 5 i 6 cynhyrchydd mawr.

7.44 Yn y DU, rhaid hysbysu'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal (MHRA) ynghylch unrhyw fêps cyn ei bod yn gyfreithlon eu rhoi ar farchnad y DU. Ar sail y data hysbysu ynghylch cynhyrchion fepio a ddarparwyd gan yr MHRA i Defra, ceir 323 o gyfrifon gweithgynhyrchwyr (394



cyfrif gan gynnwys mewnforyr) yn y DU. Mae hyn yn adlewyrchu sut y mae'r rhai sy'n cyflwyno hysbysiad yn gweld eu hunain ac ni fyddai nifer ohonynt yn cael eu hystyried yn weithgynhyrchwyr yn yr ystyr traddodiadol, nac at ddibenion y dadansoddiad hwn (e.e. mae rhai ohonynt yn debygol o fod yn ailfrandwyr). Yn ogystal, nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys fêps untro yn unig oherwydd mae'n cynnwys pob cynnyrch e-sigarét (e.e. pob fêp arall, e-hylifau, cetrís, ac ati).

7.45 Fel rhan o ymarfer Asesiad Effaith Defra i ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd â gwybodaeth am y diwydiant fepio, nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw weithgynhyrchwyr fêps untro yn Lloegr. Fel yn achos y tybiaethau a wnaed gan Asesiad Effaith Llywodraeth yr Alban, rydym wedi cymryd bod hyn yn golygu nad oes unrhyw gynhyrchu fêps yng Nghymru. Os oes, yna credwn y byddai ar raddfa fach iawn ac ni fyddai'n cynrychioli cyfran ystyrlon o'r fêps untro a roddir ar y farchnad. Felly, yn sgil absenoldeb tystiolaeth gadarn am gynhyrchu domestig, nid ydym wedi cyfrif unrhyw effeithiau ar weithgynhyrchwyr oherwydd byddai cynhyrchion o dramor y tu allan i gwmpas ein hasesiad.

### **Nifer y manwerthwyr**

7.46 Mae'r llwybr i'r defnyddwyr wedi'i nodweddu gan ystod amrywiol o sianelau dosbarthu sy'n cynnwys siopau cyfleustra, siopau manwerthu a siopau fêps arbenigol, a phresenoldeb ar-lein sy'n tyfu. Felly, mae'n anodd pennu union faint y sector manwerthu. I bennu nifer y manwerthwyr fêps untro a fyddai'n cael eu heffeithio gan y gwaharddiad, mae'n bwysig ystyried y llwybrau prynu mwyaf cyffredin.

7.47 Amlygodd [Dadansoddiad Eunomia o'r Farchnad ar gyfer Fêps](#) y ffaith y gellir gwerthu fêps yn hawdd mewn unrhyw siop yng Nghymru, yn wahanol i dybaco. Ar gyfer cynhyrchion tybaco, mae'n rhaid i fanwerthwyr gael rhif adnabod gweithredwr economaidd ar gyfer eu busnes a rhif adnabod cyfleuster ar gyfer pob mangre a ddefnyddir i [werthu neu storio cynhyrchion tybaco](#). Mae hyn yn golygu bod amrywiaeth o lwybrau gwerthu anghonfensiynol posibl, gan gynnwys stondinau marchnad siopau ffonau, siopau trin gwallt a manwerthwyr annibynnol eraill a all werthu fêps. Fodd bynnag, mae'n anodd canfod union niferoedd y gwerthwyr hyn oherwydd mae'n annhebygol y bydd pob un yn gwerthu fêps untro.

7.48 Nid yw [Dosbarthiad Diwydiannol Safonol \(SIC\) y DU 2007](#) ar gyfer gweithgareddau diwydiannol yn cynnwys categorïau penodol ar gyfer y diwydiant fepio. Yn hytrach, mae busnesau fepio'n dosbarthu eu gweithgareddau o dan ystod o godau, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys rhai codau sy'n ymwneud â thybaco. Mae'n fwy priodol defnyddio nifer y safleoedd gwerthu (unedau lleol) yn hytrach na nifer y busnesau (mentrau)

oherwydd mae costau penodol (e.e., ymgysylltu) yn fwy tebygol o gael eu hysgwyrddo ar lefel mangre yn hytrach na lefel busnes.

- 7.49 Gwnaeth yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar gyfer Asesiad Effaith Defra amlygu lefel o ansicrwydd ynghylch nifer y manwerthwyr fêps untro. Dywedodd rhai nad ydynt yn cadw data ar nifer cyffredinol y manwerthwyr, dywedodd eraill eu bod yn cadw data ar fathau arbennig o fanwerthwyr ac yn amcangyfrif bod hyd at 200,000 o fanwerthwyr fêps untro yn y DU os yw'r llwybrau anghonfensiynol (e.e. gorsafoedd petrol, bariâu, tafarndai, clybiau nos, siopau ffonau symudol ail-law, barbwyr, ac ati) yn cael eu cynnwys. Awgrymodd un rhanddeiliad sydd â gwybodaeth am y diwydiant fepio y byddai amcangyfrif o ~50,000 o fanwerthwyr fêps yn y DU yn gywir yn fras, os yw'r llwybrau arferol (h.y. siopau cyfleustra, siopau fêps arbenigol) yn cael eu cynnwys.
- 7.50 Mae'r data a nodwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel rhan o'r [Asesiad Effaith ar gyfer y Bil Tybaco a Fêps](#) a gynigwyd gan Lywodraeth Geidwadol flaenorol y DU yn awgrymu'r amcangyfrifir bod 58,982 o fanwerthwyr fêps yn y DU. Mae addasu hyn ar sail y gyfran o boblogaeth y DU sy'n byw yng Nghymru (~5%) yn rhoi amcangyfrif o 2,731 o fanwerthwyr fêps yng Nghymru ([Dadansoddiad Eunomia o'r Farchnad ar gyfer Fêps](#)), sy'n cynnwys:
- 2287 o siopau cyfleustra,
  - 275 o archfarchnadoedd,
  - 169 o siopau fêps arbenigol.
- 7.51 Awgrymodd gwybodaeth a gafwyd ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn drwy'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid fod nifer y siopau cyfleustra yng Nghymru yn amcangyfrif rhy isel, [oherwydd mae gan Gymru fwy o siopau y pen nag unrhyw ran arall o dir mawr y DU](#). Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu bod 3,076 o siopau cyfleustra yng Nghymru, ond mae peth ansicrwydd o ran faint o'r siopau hyn fydd yn gwerthu fêps untro.
- 7.52 Amcangyfrifir bod 30-35% o fêps yn cael eu gwerthu ar-lein, er bod hyn yn wir gan mwyaf am gynhyrchion fepio eraill yn hytrach na rhai untro. Ymgysylltodd Defra â rhanddeiliaid a amcangyfrifodd o wybodaeth gyffredinol am y diwydiant y gallai fod tua 200 o fanwerthwyr fêps ar-lein sy'n gweithredu ar-lein yn unig (h.y. ac eithrio siopau ffisegol sydd â phresenoldeb ar-lein a llwyfannau e-fasnach mawr) yn Lloegr, a dim ond nifer fach iawn o fusnesau o'r fath sy'n fwy na micro-fusnesau. Nid ydym wedi gallu pennu nifer y gweithredwyr ar-lein sy'n cyflenwi cwsmeriaid yng Nghymru, ond o gofio y bydd gwerthwyr ar-lein yn Lloegr hefyd yn debygol o werthu i ddefnyddwyr fêps yng Nghymru, rydym wedi cynnwys yr amcangyfrif o Asesiad Effaith Defra yn ein hasesiad.

7.53 Gan fod y dirwedd fanwerthu yn eang iawn, a bod rhywfaint o ansicrwydd, teimlwn ei bod yn rhesymol cynnal dadansoddiad sensitifrwydd o'r amcangyfrifon a chyfuno rhai o'r ffynonellau. Rydym wedi defnyddio'r amcangyfrifon o Asesiad Effaith Defra ar gyfer Lloegr (sy'n amcangyfrif bod 49,391 o fanwerthwyr) ac wedi'u haddasu ar sail y gyfran o boblogaeth Lloegr sy'n cyfateb i boblogaeth Cymru (5.48%), sy'n cyflwyno amcangyfrif o 2,890 o fanwerthwyr fêps sy'n gwerthu fêps untro yng Nghymru ar gyfer senario ganol. Mae manylion y cyfiawnhad ar gyfer y ffynonellau rydym wedi'u defnyddio wedi'u hamlinellu yn Nhabl 9. Mae'r ffigur hwn yn debyg i'r amcangyfrif a awgrymwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (wedi'i addasu ar gyfer Cymru), er ei fod yn cynnwys rhifau mwy diweddar ar gyfer rhai categorïau.

**Tabl 9: Nifer y manwerthwyr sy'n gwerthu fêps untro yng Nghymru (senario ganol)**

Ffynhonnell	Cyfiawnhad dros ddefnyddio'r ffynhonnell	Nifer y manwerthwyr yng Nghymru
Cod SIC 4711 (Manwerthu mewn siopau nad ydynt yn rhai arbenigol gyda bwyd, diodydd neu dybaco yn bennaf)	Cadarnhaodd yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid bod y cod SIC hwn yn fwyaf tebygol o gwmpasu siopau cyfleustra, a bydd hefyd yn cwmpasu archfarchnadoedd.	2337
Cod SIC 4730 (Manwerthu tanwydd modurol mewn siopau arbenigol)	Amlygodd yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid y bydd gweithredwyr manau gwerthu petrol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithredu o dan fodol siop cyfleustra, hefyd yn cael eu heffeithio gan y gwaharddiad ar fêps untro a'u bod yn dod o dan y cod SIC hwn.	188
Siopau fêps arbenigol – nifer gan y Local Data Company (3,573 yn y DU)	Cadarnhaodd yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid fod hwn yn fwy tebygol o fod yn rhif mwy cywir a'i fod yn fwy diweddar, ac felly rydym yn defnyddio hwn yn hytrach na'r cod SIC '4726: Manwerthu cynhyrchion tybaco mewn siopau arbenigol' (101 yng Nghymru). Yn ogystal, drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, nodwyd y byddai rhai siopau fêps arbenigol yn defnyddio codau SIC ar wahân i 4726.	165
Manwerthwyr fêps ar-lein	Amlygwyd hyn drwy'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ni fyddai'n briodol defnyddio'r cod SIC '4791: Manwerthu drwy dai archebu drwy'r post neu drwy'r Rhyngwrwyd' y mae busnesau ar-lein yn dueddol o'i ddefnyddio, oherwydd byddai hyn yn ormod o oramcangyfrif	200

	gan fod 1,900 o unedau lleol yng Nghymru sy'n defnyddio'r cod SIC hwn. Mae'r ffigur yn seiliedig ar y data a ddefnyddiwyd yn Asesiad Effaith Lloegr.	
<b>Cyfanswm</b>		<b>2890</b>

7.54 Fel y gwnaed yn Asesiad Effaith Defra, rydym wedi penderfynu peidio â defnyddio dadansoddiad sensitifrwydd senario isel oherwydd ei fod yn ymddangos yn annhebygol y byddai nifer sylweddol is o fanwerthwyr nag a nodwyd yn y senario ganol. Fodd bynnag, ar gyfer dadansoddiad sensitifrwydd uchel, rydym yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r llwybrau posibl sydd, felly, yn cynrychioli senario "eithafol". Rydym yn amcangyfrif bod 7,621 o fanwerthwyr fêps untro yng Nghymru. Mae manylion y rhif hwn gyda chyfiawnhad am y ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi'u hamlinellu yn Nhabl 10. Fel yn y senario ganol, rydym wedi defnyddio'r amcangyfrifon a ddefnyddiwyd yn Asesiad Effaith Defra Lloegr gan eu haddasu ar gyfer y gyfran o boblogaeth Lloegr sy'n cyfateb i boblogaeth Cymru (5.48%). Er ein bod yn ystyried bod nifer y manwerthwyr yn y senario uchel yn amcangyfrif 'eithafol', mae'n mynd i'r afael i ryw raddau â'r pryderon a amlinellir ym mharagraff 7.52 bod nifer y siopau cyfleustra yn ein hamcangyfrif canol yn rhy isel. Fel y gwelir yn Nhabl 15, mae'r gwahaniaeth rhwng costau ymgyfarwyddo masnachwyr (sy'n seiliedig ar nifer y masnachwyr) yn y senarios canol a gwaethaf yn eithaf bach ac nid yw'n cael effaith berthnasol ar y dadansoddiad.

7.55 Dylid nodi bod nifer y masnachwyr a amcangyfrifir yn y senario uchel yn adlewyrchu'r gallu i werthu fêps untro, ond ni fydd pob un ohonynt yn gwneud hynny. Ar ryw bwynt, bydd angen iddynt ymgyfarwyddo â'r rheoliadau newydd, ond nid yw'n gymesur i ni gael nifer mwy cywir o'r masnachwyr oherwydd llwybrau mwy anghonfensiynol masnachwyr fêps untro.

**Tabl 10: Nifer y masnachwyr sy'n gwerthu fêps untro yng Nghymru (senario uchel)**

<b>Ffynhonnell</b>	<b>Cyfiawnhad dros ddefnyddio'r ffynhonnell</b>	<b>Nifer y masnachwyr yng Nghymru</b>
Cod SIC 4711 (Manwerthu mewn siopau nad ydynt yn rhai arbenigol gyda bwyd, diodydd neu dybaco yn bennaf)	Fel yn y senario ganol	2337
Cod SIC 4730 (Manwerthu tanwydd modurol mewn siopau arbenigol)	Fel yn y senario ganol	188
Siopau fêps arbenigol - nifer gan y Local Data Company	Fel yn y senario ganol	165

Masnachwyr fêps ar-lein	Fel yn y senario ganol	200
Cod SIC 4742 (Manwerthu cyfarpar telathrebu mewn siopau arbenigol)	I gyfrif am lwybr anghonfensiynol (h.y. siopau ffonau)	116
Cod SIC 5630 (Gweithgareddau gweini diodydd)	I gyfrif am lwybr anghonfensiynol (h.y. tafarndai, bariâu a chlybiau nos)	2033
Cod SIC 6190 (Gweithgareddau telathrebu arall)	I gyfrif am lwybr anghonfensiynol (h.y. siopau ffonau)	361
Cod SIC 9602 (Torri gwallt a thriniaethau harddu eraill)	I gyfrif am lwybr anghonfensiynol (h.y. barbwyr a thorwyr gwallt)	2337
<b>Cyfanswm</b>		<b>7621</b>

### Defnyddwyr yn amnewid (newid ymddygiad)

- 7.56 Ceir [astudiaethau](#) sydd wedi dangos ei bod yn ymddangos bod fêps untro yn disodli fêps aml dro, a bod fêps yn cael eu defnyddio yn fwy cyffredinol yn lle sigarêts ([prisiau a galw am e-sigarêts – tystiolaeth gan yr Undeb Ewropeaidd](#)). Fodd bynnag, mae'n anodd cyfrif nifer y bobl sy'n newid rhwng y gwahanol fathau o ddyfeisiau (untro i aml dro), ac o fêps i ysmegu sigarêts/tybaco, neu sy'n rhoi'r gorau i fepio/ysmygu yn gyfan gwbl oherwydd y gwaharddiad ar fêps untro. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd rhagweld beth fydd yn cael ei ddefnyddio yn lle'r fêps untro a waherddir.
- 7.57 Drwy'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar gyfer yr Asesiad Effaith hwn, cawsom wybod am dystiolaeth o [arolwg barn a gomisiynwyd](#) ymhlith 2000 o oedolion yn y DU sy'n awgrymu y bydd 44% o'r rheini sy'n defnyddio fêps untro ar hyn o bryd yn newid i fêps aml dro. Dywedodd 8% y byddent yn newid i sigarêts a dywedodd 24% y byddent yn parhau i ddefnyddio fêps untro. Fodd bynnag, rydym wedi dewis defnyddio'r dull a ddefnyddiwyd yn Asesiad Effaith Defra i sicrhau cysondeb o ran yr amcangyfrifon o'r effaith ledled y DU.
- 7.58 Mae'r ['Smoking Toolkit Study' a gynhaliwyd gan University College London](#) yn cynnwys arolygon misol ymhlith oedolion ledled y DU, sy'n cynnwys cwestiynau manwl am ysmegu a rhoi'r gorau i ysmegu. Cyhoeddwyd [astudiaeth ddiweddar](#) yn 2024 yn defnyddio data o'r arolwg hwn a oedd yn edrych ar ba grwpiau fyddai'n cael eu heffeithio gan y gwaharddiad ar fêps untro. Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon wedi dylanwadu'n helaeth ar ein dadansoddiad o ymddygiad newid posibl defnyddwyr.
- 7.59 Drwy edrych ar gyfraddau defnyddio fêps untro wedi'u rhannu ar sail statws ysmegu, gallwn geisio gwneud tybiaethau ynghylch ymddygiad amnewid

defnyddwyr. Ceir disgrifiad byr o'r categorïau o fepwyr ar sail eu statws ysmegu isod:

- **Heb ysmegu erioed:** y rheini nad ydynt erioed wedi ysmegu tybaco yn rheolaidd, ond sy'n fepio ar hyn o bryd.
- **Ysmegwyr cyfredol:** y rheini sy'n ddefnyddwyr deuol, ac felly'n ysmegu tybaco ac yn fepio.
- **Y rheini sydd newydd roi'r gorau i ysmegu:** y rheini sy'n fepio ar hyn o bryd ond sydd wedi rhoi'r gorau i ysmegu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- **Ysmegwyr blaenorol:** y rheini sy'n fepio ar hyn o bryd ond a roddodd y gorau i ysmegu dros flwyddyn yn ôl.

7.60 Trwy ddefnyddio'r wybodaeth hon, rydym yn cyrraedd y rhaniad a ganlyn yn Nhabl 11. Rydym hefyd yn ei defnyddio i ddsbarthu nifer y gwerthiannau, er ein bod yn cydnabod bod hyn yn dybiaeth syml iawn oherwydd ni fydd pob defnyddiwr o reidrwydd yn prynu'r un nifer o gynhyrchion. Felly, mae'n anodd rhagweld a fydd unrhyw effaith ar y nifer (e.e. y defnyddwyr fêps untro presennol sy'n newid i fêps amlro neu'n fepio llai yn gyffredinol).

**Tabl 11: Cyfran o ddefnyddwyr fêps untro ar sail statws ysmegu.**

<b>Categori'r defnyddwyr fêps untro ar sail statws ysmegu</b>	<b>Cyfran o ddefnyddwyr fêps untro</b> <i>Nid yw'r cyfanswm yn dod i 100% oherwydd talgrynnu</i>
Heb ysmegu erioed	20%
Ysmegwyr cyfredol	49%
Newydd roi'r gorau i ysmegu	10%
Ysmegwyr blaenorol	20%

7.61 Rydym wedi tybio y bydd y rheini nad ydynt erioed wedi ysmegu'n rheolaidd yn rhoi'r gorau i fepio/ysmegu yn gyfan gwbl yn y pen draw oherwydd mae'n debygol y bydd y gwaharddiad yn cymell y defnyddwyr hyn i beidio â dechrau fepio, yn enwedig oherwydd bod cyfran sylweddol o'r is-grŵp hwn yn 18-24 oed a nhw sydd wedi gyrru'r cynnydd cyflym mewn fepio ymysg bobl ifanc nad ydynt erioed wedi ysmegu. Rydym hefyd yn tybio bod y rheini a oedd yn ysmegwyr hirdymor yn flaenorol yn fwy tebygol o newid i fêps amlro o gofio ei bod yn debygol eu bod wedi bod yn defnyddio fêps am gyfnod hwy.

7.62 Ceir mwy o ansicrwydd ynghylch y rheini sy'n ysmegu ar hyn o bryd a'r rhieni sydd wedi rhoi'r gorau i ysmegu'n ddiweddar, oherwydd mae posibilrwydd y bydd rhai ohonynt yn dychwelyd i ysmegu tybaco yn unig neu'n ailddechrau ysmegu. Felly, rydym yn defnyddio [data gan ASH](#) ar y lefelau bodlonrwydd ar

gyfer fêps o gymharu â sigarêts ac yn cymhwyso'r canrannau hyn i'r cyfrannau yn Nhabl 9. Mae hyn yn nodi bod 52% o ysmygwyr cyfredol a 28% o gyn-ysmygwyr yn llai bodlon â fêps o gymharu â sigarêts. Felly, rydym yn tybio y bydd y cyfrannau hyn yn debygol o ddychwelyd i ysmegu neu i ddefnyddio cynhyrchion amgen nad ydynt yn fêps, a bydd y gweddill yn debygol o newid i gynhyrchion fepio aml dro amgen. Gellir gweld crynodeb o'r cyfrannau hyn fesul statws ysmegu a'n tybiaethau ar gyfer ymddygiad newid yn Nhabl 12.

**Tabl 12: Cyfran o ddefnyddwyr fêps untro ar sail yr ymddygiad newid a dybir.**

<b>Categori'r defnyddwyr fêps untro ar sail statws ysmegu</b>	<b>Tybiaeth newid ymddygiad</b>	<b>Cyfran o ddefnyddwyr fêps untro</b>
Heb ysmegu erioed	Rhoi'r gorau i fepio/ysmygu yn gyfan gwbl	20%
Ysmygwyr cyfredol	Dychwelyd i ysmegu neu gynnyrch amgen nad yw'n fêp	26%
	Newid i fêps aml dro	24%
Newydd roi'r gorau i ysmegu	Dychwelyd i ysmegu neu gynnyrch amgen nad yw'n fêp	3%
	Newid i fêps aml dro	7%
Ysmygwyr blaenorol	Newid i fêps aml dro	20%
<b>Cyfanswm</b>		<b>100%</b>

7.63 Ar sail Tabl 12, disgwylir y bydd 51% o'r defnyddwyr fêps untro cyfredol yn newid i ddefnyddio fêps aml dro oherwydd y gwaharddiad. Bydd ein cyfrifiadau ar gyfer newid ymddygiad ymhlith defnyddwyr yn canolbwyntio'n unig ar gynhyrchion fepio amgen yn y prif ddadansoddiad o gostau a manteision. Fodd bynnag, rydym yn trafod y categorïau eraill (e.e. ysmegu tybaco neu gynhyrchion amgen nad ydynt yn fêps) yn ansoddol oherwydd bod mwy o ansicrwydd.

7.64 O gofio y bydd peth ansicrwydd ynghylch rhagweld faint o ddefnyddwyr yn y dyfodol fydd yn newid i gynhyrchion fepio amgen, rydym wedi cynnal dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â hyn. Yn y senario ganol, bydd 51% o'r defnyddwyr fêps untro cyfredol yn newid i gynhyrchion fepio amgen; yn y senario isel, rydym yn tybio y bydd 40% yn newid ar sail y gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan CThEF fel rhan o'r doll ar gynhyrchion fepio; ac yn y senario uchel, rydym yn tybio y bydd 100% o'r defnyddwyr yn newid i gynhyrchion aml dro amgen. Amlinellir hyn yn Nhabl 13.

**Tabl 13: Cyfrannau o ddefnyddwyr sy'n newid i gynhyrchion fepio amgen - sensitifrwydd**

	Senario isel	Senario ganol	Senario uchel
<b>Cyfran o ddefnyddwyr fêps tafladwy cyfredol sy'n newid i gynhyrchion fepio amgen.</b>	40%	51%	100%

- 7.65 Dylid nodi nad yw hyn yn cynnwys y rheini sy'n defnyddio fêps untro fel cynnyrch eilaidd, er enghraifft pobl sydd fel arfer yn defnyddio dyfeisiau e-sigarét arall ac yn prynu fêps untro os ydynt yn anghofio eu dyfais arferol.
- 7.66 O gofio bod gwahanol fathau o fêps, rydym wedi penderfynu ei gyfyngu i'r ddau fath mwyaf poblogaidd o fêps amldro: 'fêps y gellir eu hailwefru gyda chetris sydd wedi'u llenwi ymlaen llaw' a 'fêps y gellir eu hailwefru gyda thanc i'w ail-lenwi'. O gofio bod nodweddion y rhain yn amrywio, a bod ansicrwydd ynghylch pa un fydd fwyaf poblogaidd o ganlyniad i'r gwaharddiad, rydym wedi tybio y bydd rhaniad 50/50 rhwng y categorïau hyn.
- 7.67 Oherwydd mai tua 300 yw nifer gyfartalog y cylchoedd ailwefru ar gyfer fêp amldro, rydym yn tybio y bydd dyfais newydd yn cael ei phrynu ar gyfer pob 300 o fêps untro ([The Electronic Cigarette Company, 'The Ultimate Guide to E-cig Batteries'](#)). Mae cetrils ail-lenwi fel arfer yn cael eu gwerthu mewn pecynnau o ddau, ac felly bydd un pecyn yn cael ei brynu ar gyfer pob dau fêp untro. Mae dyfeisiau â thanc y gellir ei ail-lenwi yn cael eu llenwi ag e-hylif ar wahân a gwerthir hwn fel arfer mewn poteli 10ml. Mae hyn bum gwaith yn fwy na chapasiti e-hylif fêp untro (2ml) a'r cynhwysydd tanc ar gyfer fêp amldro – ac felly bydd un botel o e-hylif 10ml yn cael ei phrynu ar gyfer pob pump fêp untro.

### **Costau a manteision disgwylidig yr opsiwn a ffefrir**

- 7.68 Fel rhan o'n proses datblygu polisi, mae'n ofynnol i ni asesu costau cyflwyno'r Rheoliadau hyn i fusnesau ac awdurdodau lleol (fel rheoleiddwyr y gwaharddiadau).
- 7.69 Mae'r holl amcangyfrifon dangosol a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar brisiau 2023 oni nodir fel arall. Mae'r ffigurau wedi'u modelu ar gyfnod arfarnu o 10 mlynedd (yn cwmpasu 2025 - 2034) ar gyfradd ddisgownt o 3.5%.



## Crynodeb o'r effeithiau a ddisgwylir

7.70 Mae'r effeithiau wedi'u grwpio ar sail y grŵp yr effeithir arno wedi'u crynhoi yn Nhabl 14 ac fe'u trafodir yn yr adrannau dilynol.

**Tabl 14: Crynodeb o'r effeithiau a ddisgwylir o ganlyniad i'r polisi**

Grŵp yr effeithir arno	Effaith	Cost / Mantais	Untro / Parhaus	Gwerth wedi'i bennu?	Uniongyrchol / anuniongyrchol ar y busnes
<b>Gweithgynhyrchwyr</b> <i>Nid oes gwerth ariannol wedi'i bennu ar gyfer unrhyw effeithiau ar weithgynhyrchwyr fel rhan o'r prif ddadansoddiad costau a manteision oherwydd nid oes tystiolaeth bod unrhyw weithgynhyrchwyr fêps untro domestig yn bodoli ac mae gweithgynhyrchwyr tramor yn dod y tu allan i gwmpas y dadansoddiad hwn.</i>	Costau ymgyfarwyddo	Cost	Untro	Nac oes	Uniongyrchol
	Colli elw o werthiannau fêps untro	Cost	Parhaus	Nac oes	Uniongyrchol
	Cost buddsoddiad cyfalaf ar gyfer cynhyrchu eitemau amgen.	Cost	Untro	Nac oes	Uniongyrchol
	Costau deunydd amgen ar gyfer cynhyrchu eitemau amgen	Cost	Parhaus	Nac oes	Anuniongyrchol
	Elw a wneir drwy werthu cynhyrchion fepio amgen	Mantais	Parhaus	Nac oes	Anuniongyrchol
<b>Mewnforwyr ac Ailfrandwyr</b>	Costau ymgyfarwyddo	Cost	Untro	Oes	Uniongyrchol
	Colli elw o werthiannau fêps untro	Cost	Parhaus	Oes	Uniongyrchol
	Elw a wneir drwy werthu cynhyrchion fepio amgen	Mantais	Parhaus	Oes	Anuniongyrchol
<b>Cyfanwerthwyr</b>	Costau ymgyfarwyddo	Cost	Untro	Oes	Uniongyrchol
	Colli elw o werthiannau fêps untro	Cost	Parhaus	Oes	Uniongyrchol
	Elw a wneir drwy werthu	Mantais	Parhaus	Oes	Anuniongyrchol

	cynhyrchion fepio amgen				
<b>Manwerthwyr</b>	Costau ymgyfarwyddo	Cost	Untro	Oes	Uniongyrchol
	Colli elw o werthiannau fêps untro	Cost	Parhaus	Oes	Uniongyrchol
	Costau stoc dros ben	Cost	Untro	Nac oes	Uniongyrchol
	Elw a wneir drwy werthu cynhyrchion fepio amgen	Mantais	Parhaus	Oes	Anuniongyrchol
	Elw a wneir drwy werthu tybaco a chynhyrchion nicotin eraill	Mantais	Parhaus	Nac oes	Anuniongyrchol
	Elw a wneir drwy werthu cynhyrchion heb dybaco	Mantais	Parhaus	Nac oes	Anuniongyrchol
	Gostyngiad mewn costau tanwydd	Mantais	Parhaus	Nac ydi	Uniongyrchol
<b>Sectorau eraill</b>	Mwy o elw i gynhyrchwyr cyfredol cynhyrchion fepio amgen	Mantais	Parhaus	Nac oes	Anuniongyrchol
	Costau llai i weithredwyr safleoedd gwastraff yn sgil tanau gwastraff	Mantais	Parhaus	Nac oes	Anuniongyrchol
<b>Defnyddwyr</b>	Effaith andwyol yn sgil colli pleser, cyfleustra neu lai o ddewis	Cost	Parhaus	Nac oes	Ddim yn berthnasol
	Effaith ar iechyd	Cost	Parhaus	Nac oes	
	Effaith ar iechyd	Mantais	Parhaus	Nac oes	
<b>Llywodraeth</b>	Colli refeniw o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi	Cost	Parhaus	Oes	
	Datblygu gohebiaeth a chanllawiau	Cost	Untro	Oes	
<b>Awdurdodau Lleol</b>	Costau gorfodi	Cost	Parhaus	Oes	
	Llai o gostau glanhau sbwriel	Mantais	Parhaus	Nac oes	

	Arbedion y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	Mantais	Parhaus	Oes
	Arbedion ffi glwyd safleoedd tirlenwi	Mantais	Parhaus	Oes
	Arbedion ffi glwyd safleoedd troi gwastraff yn ynni	Mantais	Parhaus	Oes
	Costau llai yn sgil tanau gwastraff	Mantais	Parhaus	Nac oes
<b>Cymdeithas (trydydd partiön)</b>	Mantais yn sgil llai o ysbwriel (amwynder)	Mantais	Parhaus	Oes
	Arbedion allyriadau cynhyrchu	Mantais	Parhaus	Nac oes
	Arbedion allyriadau echdynnu deunydd craidd	Mantais	Parhaus	Nac oes
	Mantais allyriadau gwaredu trwy losgi (llai o allyriadau GHG)	Mantais	Parhaus	Oes
	Llai o danau gwastraff sy'n arwain at lai o allyriadau GHG	Mantais	Parhaus	Oes
	Llai o allyriadau tanwydd	Mantais	Parhaus	Nac oes

## Amcangyfrifon o'r Gwerth Presennol Net

7.71 Mae'r costau a manteision y pennwyd gwerth ar eu cyfer yn llunio cyfanswm yr amcangyfrifon Gwerth Presennol Net ar gyfer yr opsiwn a ffeirir, wedi'i amcangyfrif dros gyfnod arfarnu o 10 mlynedd. Rydym wedi cyflwyno'r tri senario gwahanol (isel, canol ac uchel) i alluogi dadansoddiad sensitifrwydd. Mae'r holl werthoedd yn Nhabl 15 yn defnyddio prisiau 2023 gyda gwerth presennol 2025.

**Tabl 15: Amcangyfrifon o'r Gwerth Presennol Net (NPV) dros 10 mlynedd mewn £miliynau (prisiau 2023, gwerth presennol 2025) (i 1 pwynt degol)**

Effaith	Isel (achos gorau)	Canol	Uchel (achos gwaethaf)
<b>Costs</b>			
Mewnforwyr/ail-frandwyr – Costau ymgyswrtwyddo	£0.00	£0.00	£0.00
Mewnforwyr/ail-frandwyr – Colli elw o werthiannau fêps untro	£110.23	£167.89	£248.27
Cyfanwerthwyr – Costau ymgyswrtwyddo	£0.00	£0.00	£0.00
Cyfanwerthwyr – Colli elw o werthiannau fêps untro	£100.19	£152.68	£225.65
Manwerthwyr – Costau ymgyswrtwyddo	£0.02	£0.02	£0.05
Manwerthwyr – Colli elw o werthiannau fêps untro	£683.91	£1042.78	£1540.32
Llywodraeth – Colli refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi	£0.48	£0.54	£0.61
Awdurdodau Lleol – Costau gorfodi	£0.15	£0.15	£0.15
Llywodraeth Cymru	£0.30	£0.30	£0.30
<b>Cyfanswm y costau</b>	<b>£895.28</b>	<b>£1364.36</b>	<b>£2015.35</b>
Mewnforwyr/Ail-frandwyr - Elw a wneir drwy werthu cynhyrchion fepio amgen	£23.40	£33.90	£74.44

Cyfanwerthwyr – Elw a wneir drwy werthu cynhyrchion fepio amgen	£21.26	£30.81	£67.66
Manwerthwyr – Elw a wneir drwy werthu cynhyrchion fepio amgen	£144.98	£210.05	£461.29
Awdurdodau Lleol – Arbedion y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	£0.48	£0.54	£0.61
Awdurdodau Lleol – Arbedion ffi glwyd safleoedd tirlenwi	£0.12	£0.13	£0.15
Awdurdodau Lleol – Arbedion ffi glwyd safleoedd troi gwastraff yn ynni	£0.84	£0.96	£1.07
Cymdeithas – Mantais llai o ysbwriel (amwynder)	£0.08	£0.18	£0.26
Cymdeithas – Mantais allyriadau gwaredu trwy losgi	£0.51	£0.58	£0.65
Cymdeithas – Llai o danau gwastraff sy'n arwain at lai o allyriadau GHG (sy'n ymwneud â hylosgi)	£0.72	£0.82	£0.92
Cymdeithas – Llai o danau gwastraff sy'n arwain at lai o allyriadau GHG (carbon du)	£3.67	£4.17	£4.67
<b>Cyfanswm y Manteision</b>	<b>£196.05</b>	<b>£282.13</b>	<b>£611.71</b>
<b>Gwerth Presennol Net</b>	<b>£-1818.97</b>	<b>£-1081.90</b>	<b>£-283.24</b>

7.72 Yr elw a gollir ar hyd y gadwyn gyflenwi o ganlyniad i wahardd gwerthu a chyflenwi fêps untro yw'r prif reswm pam y mae'r Gwerth Presennol Net yn negyddol. Y gwaharddiad yw'r opsiwn a ffefrir o hyd oherwydd y ffactorau heb werth ariannol sydd wedi'u hepgor o'r amcangyfrifon Gwerth Presennol Net. Ceir nifer o fanteision allweddol nad oes gwerth wedi'i bennu ar eu cyfer, fodd bynnag maent wedi'u dadansoddi'n ansoddol fel manteision heb werth ariannol. Amlinellir y rhain isod. Bydd gwahardd gwerthu a chyflenwi fêps untro yn lleihau costau amgylcheddol a chymdeithasol eu cynhyrchu a'u gwaredu yn y modd anghywir. O gofio bod fêps untro yn gynhyrchion anghynaliadwy yn y bôn, gwaharddiad llwyr yw'r ateb mwyaf effeithiol.

## **Crynodeb o'r costau â gwerth ariannol**

### **Costau ymgwyfarwyddo i fusnesau**

7.73 Mae costau ymgwyfarwyddo yn gostau untro y bydd busnesau'n eu hwynebu pan weithredir y gwaharddiad felly byddant yn digwydd ym mlwyddyn gyntaf y cyfnod arfarnu yn unig. Bydd yn ofynnol i'r rheini sy'n cyflenwi fêps untro (h.y. manwerthwyr, cyfanwerthwyr, mewnforwyr ac ail-frandwyr) dreulio amser yn adolygu'r canllawiau newydd i sicrhau eu bod yn gwerthu cynhyrchion cyfreithlon.

- 7.74 Mae'r canllawiau ar gyfer busnesau sy'n cyflenwi fêps untro yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, ond rhagwelir na fyddant yn fwy na 2,000 o eiriau. Mae'r amser a gymerir i adolygu'r canllawiau hyn yn seiliedig ar gyflymder darllen testun arferol o 75 gair y munud, fel y nodir yn [arfarniad canllawiau](#) Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU. Felly, byddem yn disgwyl y byddai'n cymryd tua 27 munud i bob unigolyn sydd angen darllen y canllawiau i wneud hynny, ac rydym wedi cynyddu hyn i 30 munud yn ein dadansoddiad (h.y. 0.5 awr). Profwyd yr amser ymgyfarwyddo hwn gyda'r rhanddeiliaid, a gytunodd â'r dull hwn gan mwyaf.
- 7.75 Oherwydd bod mwy o ansicrwydd ynghylch nifer y busnesau yr effeithir arnynt o gymharu â'r amser ymgyfarwyddo, cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd ar yr elfen gyntaf ar gyfer y grwpiau perthnasol yr effeithir arnynt.

### Manwerthwyr

- 7.76 I bennu gwerth ariannol y costau ymgyfarwyddo i fanwerthwyr, ar gyfer ein senario ganol, mae'r categorïau o fangre a nifer y mangreoedd sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y gwaharddiad wedi'u nodi gan ddefnyddio cymysgedd o godau SIC a ffynonellau eraill i wella'r cywirdeb, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr asesiad hwn. Amcangyfrifwyd y byddai cyfanswm o 2,890 o fanwerthwyr yn cael eu heffeithio gan y costau ymgyfarwyddo, sy'n fwyaf tebygol o gynnwys siopau cyfleustra, archfarchnadoedd a manwerthwyr fêps arbenigol.
- 7.77 Tybir mai dim ond perchnogion a rheolwr pob siop sy'n gwerthu fêps untro fyddai'n darllen y canllawiau, fel yr ategir gan yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan Defra. Nid ydym yn disgwyl y byddai angen i gyflogeion ddarllen y canllawiau, oherwydd y perchnogion a'r rheolwyr sydd fwyaf tebygol o fod yn gyfrifol am sicrhau bod y cynhyrchion yn eu siopau'n cydymffurfio â'r rheoliadau newydd. Mae [Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion \(ASHE\) y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) yn nodi cyflog canolrif fesul awr o £11.15 ar gyfer rheolwyr a pherchnogion (manwerthu a chyfanwerthu) gan ddefnyddio cod 7131 y Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC). Cafodd y cyflog fesul awr hwn ei [gynyddu gyda chynnydd cost llafur nad yw'n gyflog o 22%](#).
- 7.78 Mae'r fethodoleg gyfrifo ar gyfer hyn fel a ganlyn, ar sail y gwaith ymgyfarwyddo sy'n cael ei wneud gan un cyflogai cyfwerth ag amser llawn:

$$\begin{aligned} & \text{Cost ymgyfarwyddo fesul manwerthwr} \\ & = \text{amser a gymerir (mewn oriau)} \times \text{cyflog fesul awr} \times (1 + 22\%) \end{aligned}$$

$$\text{Cost ymgyfarwyddo fesul manwerthwr} = 0.5 \times \text{£}11.15 \times 1.22$$

7.79 Mae hyn yn cyfateb i gost ymgyfarwyddo o £6.80 ar gyfer pob manwerthwr.

7.80 Drwy luosi'r gost ymgyfarwyddo ar gyfer pob manwerthwr gyda nifer y siopau/mangreoedd, cyfanswm y costau ymgyfarwyddo y disgwylir i fanwerthwyr fêps untro yng Nghymru fynd iddynt yw £19,652.

7.81 I gyfrif am yr ansicrwydd ynghylch nifer y manwerthwyr, cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd, ac mae ein hamcangyfrif uchel wedi'i amlinellu'n gynharach yn yr asesiad hwn. Mae nifer y manwerthwyr ym mhob senario wedi'i grynhoi yn Nhabl **16** ochr yn ochr â chyfanswm y gost ymgyfarwyddo.

**Tabl 16: Costau ymgyfarwyddo i fanwerthwyr – dadansoddiad sensitifrwydd**

	<b>Senario isel</b> <i>Defnyddir y senario ganol hefyd ar gyfer y senario isel i gyfrifo amcangyfrifon y Gwerth Presennol Net</i>	<b>Senario ganol</b>	<b>Senario uchel</b>
<b>Nifer y manwerthwyr</b>	2890	2890	7621
<b>Cyfanswm y gost ymgyfarwyddo (£)</b>	£19,652	£19,652	£51,823

### Cyfanwerthwyr

7.82 Fel yn achos manwerthwyr, mae cyfanwerthwyr fêps untro hefyd yn debygol o wynebu costau ymgyfarwyddo untro yn sgil gweithredu'r gwaharddiad. Yn wreiddiol, roeddem wedi defnyddio codau SIC y Swyddfa Ystadegau Gwladol i nodi nifer y cyfanwerthwyr fêps untro. Mae cyfanwerthwyr yn dosbarthu eu gweithgareddau o dan ystod o godau, sy'n cynnwys rhai codau sy'n ymwneud â thybaco a chodau eraill sy'n ymwneud â gwerthu nwyddau nad ydynt yn cynnwys tybaco. Roeddem yn ansicr ynghylch y gyfran o'r cyfanwerthwyr hyn sy'n gwerthu fêps untro, felly gwnaethom dybio bod pob un yn y categorïau hyn yn gwneud hynny. Amcangyfrifodd [Asesiad Effaith Defra](#) fod 6,860 o gyfanwerthwyr fêps untro yn y DU ar draws y pedwar cod SIC a ganlyn:

- 4617: Asiantiaid sy'n ymwneud â gwerthu bwyd, diodydd a thybaco
- 4635: Cyfanwerthwr cynhyrchion tybaco
- 4639: Cyfanwerthwr bwyd, diodydd a thybaco anarbenigol
- 4676: Cyfanwerthwr cynhyrchion canolradd eraill

7.83 Trwy addasu hyn ar gyfer Cymru, byddai hyn yn cyfateb i 318 o gyfanwerthwyr.

7.84 Awgrymodd y data a nodwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel rhan o'r gwaith ar gyfer [Asesiad Effaith Bil Tybaco a Fêps Llywodraeth flaenorol](#)

y DU fod 17,294 o gyfanwerthwyr bwyd, diodydd a thybaco yn y DU gan ddefnyddio data o [Arolwg Busnes Blynnyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#). Oherwydd bod diffyg data penodol i bennu pa rai o'r cyfanwerthwyr hyn fyddai'n gwerthu fêps, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi defnyddio'r ffigur hwn fel dirprwy ar gyfer nifer y cyfanwerthwyr fêps yn Lloegr. Trwy addasu hyn ar gyfer Cymru, rydym yn amcangyfrif bod 801 o gyfanwerthwyr bwyd, diodydd a thybaco yng Nghymru.

- 7.85 Mae ein hamcangyfrif cychwynnol ac amcangyfrif cyffredinol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer cyfanwerthwyr fêps yn goramcangyfrif nifer y cyfanwerthwyr sy'n gwerthu fêps untro yng Nghymru. Yn ystod yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer Asesiad Effaith Defra, nid oedd y rhanddeiliaid wedi gallu nodi union nifer y cyfanwerthwyr fêps untro yn Lloegr oherwydd bod nifer ohonynt yn mynd a dod ar sail oportiwnistaidd, yn dibynnu ar y cyflenwad a'r galw gan fanwerthwyr. Ar y sail hon, gwnaethant amcangyfrif bod rhwng 50 a 100 o gyfanwerthwyr fêps untro yn Lloegr. Byddai addasu'r amcangyfrif hwn ar gyfer y gyfran o boblogaeth Lloegr sy'n cyfateb i boblogaeth Cymru (5.48%) yn arwain at amcangyfrif o dri i bum cyfanwerthwr yng Nghymru. I gyfrif am ddealltwriaeth y cyfanwerthwyr sydd wedi'u lleoli yn Lloegr sy'n cyflenwi busnesau yng Nghymru o'r rheoliadau sydd ar waith yng Nghymru, rydym wedi cynnwys y ffigur senario isel (50), y ffigur senario ganol (75) a'r ffigur senario uchel (100) a ddefnyddiwyd yn Asesiad Effaith Defra i gyfrif am unrhyw gostau ymgyfarwyddo. Fodd bynnag, oherwydd y bydd ein rheoliadau'n eithaf tebyg i'r rheini sy'n weithredol yn Lloegr, rydym yn rhagweld y bydd y costau hyn yn fach iawn yn ymarferol.
- 7.86 Unwaith eto, tybir mai dim ond perchennog pob cyfanwerthwr sy'n cyflenwi fêps untro a fyddai'n darllen y canllawiau (h.y. un cyflogai cyfwerth ag amser llawn fyddai'n ymgyfarwyddo), fel y cefnogir gan farn y rhanddeiliaid yn Asesiad Effaith Defra. Nid ydym yn disgwyl y byddai'n ofynnol i staff mewn siopau/warysau ymgyfarwyddo â'r canllawiau, oherwydd y perchnogion sydd fwyaf tebygol o fod yn gyfrifol am sicrhau bod y cynhyrchion yn eu siopau'n cydymffurfio â'r rheoliadau newydd. Mae [ASHE y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) yn nodi cyflog canolrif fesul awr o £11.15 ar gyfer rheolwyr a pherchnogion siopau (manwerthu a chyfanwerthu) gan ddefnyddio'r cod SOC 7121. Cafodd y cyflog fesul awr hwn ei gynyddu gyda chynnydd cost llafur nad yw'n gyflog o 22%.
- 7.87 Mae'r fethodoleg gyfrifo ar gyfer hyn yr un fath ag ar gyfer manwerthwyr, gan hefyd arwain at gost ymgyfarwyddo o £6.80 ar gyfer pob cyfanwerthwr. Ar gyfer ein senario ganol, rydym yn cymryd pwynt canol yr ystod ac yn tybio bod cyfanswm o bedwar cyfanwerthwr fêps untro yng Nghymru. Drwy luosi hyn gyda'r gost ymgyfarwyddo ar gyfer pob cyfanwerthwr, disgwylir mai cyfanswm y



costau ymgyfarwyddo ar gyfer y cyfanwerthwyr fêps untro yw £537 (wrth ystyried y rheini sydd wedi'u lleoli yn Lloegr).

**Tabl 17: Costau ymgyfarwyddo i gyfanwerthwyr – dadansoddiad sensitifrwydd**

	Senario isel	Senario ganol	Senario uchel
<b>Nifer y cyfanwerthwyr</b>	53	79	105
<b>Cyfanswm y gost ymgyfarwyddo (£)</b>	£360	£537	£714

### Mewnforwyr ac ail-frandwyr

7.88 Bydd mewnforwyr ac ail-frandwyr hefyd yn wynebu costau ymgyfarwyddo. Fel yn achos cyfanwerthwyr, mae ansicrwydd ynghylch yr union swm. Awgrymodd yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer Asesiad Effaith Defra fod llai na 10 prif fewnforiwr (mae'r rhanddeiliaid yn amcangyfrif ei fod yn debygol o fod tua saith) ac efallai 20 neu fwy yn rhagor sy'n llai arbenigol. Ceir hefyd tua 10 o ail-frandwyr fêps untro yn Lloegr sydd ar raddfa ddigonol i fod yn amlwg ar y farchnad.

7.89 Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd o'i data hysbysiadau cynhyrchion fepio ar gyfer Asesiad Effaith Defra, ceir tua 80 o gyflwynwyr fêps untro sy'n diffinio eu statws fel gweithgynhyrchwyr a mewnforwyr yn Lloegr. Gan mai'r cyflwynwyr sy'n gyfrifol am ddiffinio eu statws, mae'n annhebygol iawn y byddai'r rhain yn cael eu hystyried yn weithgynhyrchwyr yn y synnwyr traddodiadol (h.y. gyda chyfleusterau cynhyrchu), ac maent yn fwy tebygol o fod yn fewnforwyr, yn ddsbarthwyr neu'n ail-frandwyr, sy'n parhau i gyd-fynd â'r hyn a ystyrir yn "gynhyrchydd" o dan gyfraith y DU.

7.90 Felly, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, rydym yn gweithio ar sail y dybiaeth bod rhwng 20 ac 80 o fewnforwyr/ail-frandwyr fêps untro yn Lloegr, sy'n awgrymu, gyda'r addasiad i Gymru, bod rhwng un a phedwar o fewnforwyr/ail-frandwyr fêps untro yng Nghymru. Byddai terfyn isaf yr ystod hon, sef un, yn cynnwys y prif fewnforwyr ac ail-frandwyr yn unig a byddai'n llunio ein senario isel. Ar gyfer senario ganol, byddem yn ychwanegu un mewnforiwr ychwanegol sy'n llai arbenigol gan ddod â'r cyfanswm i ddau. Ar gyfer senario uchel, rydym yn defnyddio terfyn uchaf yr ystod sef pedwar.

7.91 Fel yn achos ein tybiaethau ar gyfer gwerthwyr ar-lein a chyfanwerthwyr, rydym wedi ystyried y costau posibl i fewnforwyr/brandwyr sydd wedi'u lleoli yn Lloegr sy'n cyflenwi busnesau yng Nghymru. Nododd Asesiad Effaith Defra senario isel (20 o fewnforwyr/ail-frandwyr gyda chost o £304), senario ganol (40 o fewnforwyr/ail-frandwyr gyda chost o £609) a senario uchel (80 o fewnforwyr/ail-frandwyr gyda chost o £1,218). Rydym wedi cynnwys cost y senario ganol yn ein cyfrifiad terfynol.

7.92 Awgrymodd y rhanddeiliaid mai'r cyfarwyddwr/rheolwr technegol sydd fwyaf tebygol o adolygu'r canllawiau. Mae [ASHE y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) yn nodi cyflog canolrif fesul awr o £24.95 ar gyfer rheolwyr a chyfarwyddwyr cynhyrchu mewn gweithgynhyrchu gan ddefnyddio cod SOC 1121 (y cod SOC mwyaf tebyg ar sail disgrifiad o'r swydd, [Warwick Institute of Employment Research](#)). [Cynyddwyd y cyflog fesul awr hwn gyda chynnydd cost llafur nad yw'n gyflog o 22%](#). Mae'r fethodoleg gyfrifo ar gyfer hyn fel a ganlyn, ar sail y ffaith mai un cyflogai cyfwerth ag amser llawn fydd yn gwneud y gwaith ymgyfarwyddo:

$$\begin{aligned} \text{Cost yr ymgyfarwyddo fesul mewnoforiwr/ail – frandiwr} \\ = 0.5 \times £24.95 \times 1.22 \end{aligned}$$

7.93 Mae hyn yn cyfateb i gost ymgyfarwyddo o £15.22 i bob mewnoforiwr/ail-frandiwr.

7.94 Ar gyfer ein senario ganol, rydym yn tybio bod cyfanswm o ddau fewnoforiwr ac ail-frandiwr fêps untro yng Nghymru, sy'n cyfateb felly i gyfanswm cost ymgyfarwyddo o £30. Mae hyn yn cynyddu i £639 pan fyddwn yn ystyried costau'r senario ganol a gyfrifwyd gan Asesiad Effaith Defra. I roi cyfrif am yr ansicrwydd o ran niferoedd, cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd, gan ddefnyddio pwyntiau uchaf ac isaf yr ystod. Crynhoir nifer y mewnoforiwr ac ail-frandwyr ym mhob senario yn Nhabl 18 ynghyd â chyfanswm y gost ymgyfarwyddo:

**Tabl 18: Costau ymgyfarwyddo mewnoforiwr ac ail-frandwyr – dadansoddiad sensitifrwydd**

	Senario isel	Senario ganol	Senario uchel
<b>Nifer y mewnoforiwr/ail-frandwyr</b>	21	42	84
<b>Cyfanswm y gost ymgyfarwyddo (£)</b>	£320	£639	£1,278

## Yr elw y mae busnesau'n ei gollu o werthiannau fêps untro

### Yr elw a gollir gan fanwerthwyr

- 7.95 Roedd yr amcangyfrifon cychwynnol o faint yr elw ar gyfer fêps untro a ddefnyddiwyd yn [Asesiad Effaith drafft Defra](#) ac [Asesiad Effaith Llywodraeth yr Alban](#) yn seiliedig ar ddata o'r [Arolwg Busnes Blynyddol](#). Cyfrifwyd hyn fel y gwerth ychwanegol gros wedi'i rannu â'r trosiant ar gyfer y codau SIC cyffredinol hynny y byddai'r rhai sy'n gwerthu fêps untro yn debygol o gael eu cynnwys ynddynt (4711, 4719, 4726) gan roi ffigur o 24% (i'r cyfarif agosaf). Mae'r ymarfer ymgysylltu dilynol â rhanddeiliaid ar gyfer Asesiad Effaith Defra, ac a gynhaliwyd ar gyfer y drafft o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, wedi nodi bod yr amcangyfrif hwn yn rhy isel.
- 7.96 Mae'r rhanddeiliaid yn awgrymu bod maint yr elw cyfartalog ar gyfer fêps untro i fusnesau manwerthu rhwng 40% a 50% yn y rhan fwyaf o achosion. At ddibenion y dadansoddiad hwn, cymerwyd pwynt canol yr ystod hon, ac felly tybir mai 45% yw maint yr elw cyfartalog.
- 7.97 Cafodd yr amcangyfrifon o brisiau manwerthu fêps untro eu hysbysu gan ymchwil ddesg Defra, yn 2023. Amcangyfrifwyd cost gyfartalog o £5.30, yn seiliedig ar sampl (rhestr a luniwyd o tua 40 o gynhyrchion yr ystyriwyd eu bod yn fêps untro yn seiliedig ar y diffiniad ym mharagraff 80) o gynhyrchion sydd ar werth gan fanwerthwyr ar-lein ac mewn siopau. Roedd hyn yn cynnwys siopau fêps arbenigol, siopau papurau newydd ac archfarchnadoedd. Cadarnhawyd hyn yn yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar gyfer Asesiad Effaith Defra. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd ar y ffigur hwn hefyd, gan ddefnyddio'r pris isaf ac uchaf a nodwyd yn yr ymchwil ddesg. Gwelir hyn yn Nhabl 19.

**Tabl 19: Amcangyfrifon o bris manwerthu fêps untro**

	<b>Pris</b>
Isel	£3.95
Canolog	£5.30
Uchel	£6.99

- 7.98 I gyfrifo'r elw a gollir gan fanwerthwyr, mae pris cyfartalog fêp untro wedi'i luosi â'r amcanestyniad o werthiannau fêps untro yn absenoldeb ymyriad (fel yr amlinellir yn yr adran 'Tybiaethau') ar gyfer pob blwyddyn yn y cyfnod

arfarnu (er mwyn cyfrifo'r refeniw), yna mae hwn yn cael ei luosi â chyfartaledd maint yr elw. Mae'r fethodoleg i gyfrifo hyn ar gyfer pob blwyddyn o'r cyfnod arfarnu fel a ganlyn:

$$\begin{aligned} \text{Cyfanswm yr elw a gollir gan fanwerthwyr} \\ &= \text{pris} \times \text{nifer y gwerthiannau} \times \text{maint yr elw} \\ \text{Cyfanswm yr elw a gollir gan fanwerthwyr} \\ &= £5.30 \times \text{nifer y gwerthiannau} \times 45\% \end{aligned}$$

7.99 Ar gyfer y senario ganol, mae hyn yn creu cost gwerth presennol o £1,042.8 miliwn yn ystod y cyfnod arfarnu.

### Yr elw a gollir gan gyfanwerthwyr

7.100 Yn yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, amcangyfrifodd Aseiad Effaith Defra fod cyfartaledd maint yr elw ar gyfer fêps untro i gyfanwerthwyr rhwng 10% a 14% ar y cyfan. At ddibenion ein dadansoddiad, rydym wedi cymryd pwynt canol yr ystod hon ac felly tybir mai 12% yw cyfartaledd maint yr elw.

7.101 Trwy ddiwyddu maint yr elw o 45% o'r prisiau manwerthu yn Nhabl 19, gallwn gyfrifo'r prisiau cyfanwerthu bras, fel yr amlinellir yn Nhabl 20.

**Tabl 20: Amcangyfrifon o bris cyfanwerthu fêps untro**

	<b>Pris</b>
Isel	£2.17
Canolog	£2.91
Uchel	£3.84

7.102 Yn yr un modd â'r cyfrifiad o'r elw a gollir gan fanwerthwyr, i gyfrifo'r golled i gyfanwerthwyr, mae pris cyfanwerthu cyfartalog fêp untro wedi'i luosi ag amcanestyniad o werthiannau fêps untro yn absenoldeb ymyriad ar gyfer pob blwyddyn yn y cyfnod arfarnu, yna mae hwn yn cael ei luosi â chyfartaledd maint yr elw. Mae'r fethodoleg i gyfrifo hyn ar gyfer pob blwyddyn o'r cyfnod arfarnu fel a ganlyn:

$$\begin{aligned} \text{Cyfanswm yr elw a gollir gan gyfanwerthwyr} \\ &= \text{pris} \times \text{nifer y gwerthiannau} \times \text{maint yr elw} \\ \text{Cyfanswm yr elw a gollir gan gyfanwerthwyr} \\ &= £2.91 \times \text{nifer y gwerthiannau} \times 12\% \end{aligned}$$

7.103 Ar gyfer y senario ganol, mae hyn yn creu cost gwerth presennol o £152.7 miliwn yn ystod y cyfnod arfarnu.

### Yr elw a gollir gan fewnforwyr/ail-frandwyr

- 7.104 Cadarnhaodd yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar gyfer Aseiad Effaith Defra fod mewnforwyr ac ail-frandwyr yn debygol o weithredu gyda maint elw ychydig yn uwch na chyfanwerthwyr, yn yr ystod 10-20%. Rydym wedi cymryd pwynt canol yr ystod hon, ac felly tybir mai 15% yw cyfartaledd maint yr elw.
- 7.105 Trwy ddi-dynnu'r elw o 12% o'r prisiau cyfanwerthu yn Nhabl **20**, gallwn gyfrifo'r prisiau bras a godir gan fewnforwyr ac ail-frandwyr fel yr amlinellir yn Nhabl **21**.

**Tabl 21: Amcangyfrifon o bris mewnforwyr/ail-frandwyr ar gyfer fêps untro**

	<b>Pris</b>
Isel	£1.91
Canolog	£2.56
Uchel	£3.38

- 7.106 Yn yr un modd â'r cyfrifiadau blaenorol o'r elw a gollir, i gyfrifo'r golled i fewnforwyr ac ail-frandwyr, mae pris cyfartalog fêp untro wedi'i luosi ag amcanestyniad o werthiannau fêps untro ar gyfer pob blwyddyn yn y cyfnod arfarnu ac yna mae hwn yn cael ei luosi â chyfartaledd maint yr elw. Mae'r fethodoleg i gyfrifo hyn ar gyfer pob blwyddyn o'r cyfnod arfarnu fel a ganlyn:

$$\begin{aligned}
 & \text{Cyfanswm yr elw a gollir gan fewnforwyr neu ail – frandwyr} \\
 & \quad = \text{pris} \times \text{nifer y gwerthiannau} \times \text{maint yr elw} \\
 & \text{Cyfanswm yr elw a gollir gan fewnforwyr/ail – frandwyr} \\
 & \quad = £2.56 \times \text{nifer y gwerthiannau} \times 15\%
 \end{aligned}$$

- 7.107 Ar gyfer y senario ganol, mae hyn yn creu cost gwerth presennol o £167.9 miliwn yn ystod y cyfnod arfarnu.

### **Colli refeniw o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i'r Llywodraeth**

- 7.108 Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn dreth ymddygiad sydd â'r nod o leihau swm y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi o blaid dewisiadau amgen mwy cynaliadwy, fel ailgylchu. Mae gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn talu'r dreth fesul tunnell o wastraff y byddant yn ei dderbyn. Gall y gweithredwyr drosglwyddo cost y dreth i fusnesau, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi.
- 7.109 Mae gwahardd fêps untro yn cefnogi nod y dreth o leihau gwastraff tirlenwi, oherwydd ni fyddant yn cael eu gwaredu mewn safleoedd tirlenwi mwyach. Mae unrhyw ostyngiad mewn gwastraff tirlenwi yn creu llai o refeniw o'r dreth i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, oherwydd mai Awdurdodau Lleol sy'n

gyfrifol am wastraff trefol, gan gynnwys fêps untro, bydd unrhyw golledion refeniw ar gyfer y dreth i Lywodraeth Cymru yn cynrychioli arbediad i'r awdurdodau.

- 7.110 Mae cyfraddau'r dreth yn cynyddu bob blwyddyn fel arfer yn unol â chwyddiant, yn seiliedig ar y newid a ragwelir yn y Mynegai Prisiau Manwerthu. Ers datganoli yn 2018, maent wedi parhau yn gydnaws â chyfraddau trethi tirlenwi cyfatebol ledled y DU. Cyfradd safonol y dreth o 1 Ebrill 2024 yw £103.70 y dunnell.
- 7.111 Yng [Nghyllideb Gwanwyn 2024](#), cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai ei threth dirlenwi ar gyfer y flwyddyn 2025-26 yn cynyddu i £126.15 y dunnell. Cynlluniwyd y newid hwn i gyfrif am y gwahaniaeth sylweddol yn ddiweddar rhwng y Mynegai Prisiau Manwerthu gwirioneddol a rhagamcanol ac i sicrhau bod y dreth yn parhau i ysgogi buddsoddiad mewn seilwaith rheoli gwastraff mwy cynaliadwy. O gofio bod y gwaharddiad yn dod i rym yn 2025, ystyriwyd ei bod yn briodol defnyddio'r ffigur mwy diweddar hwn a'i addasu i brisiau 2023 er mwyn bod yn gyson â'r dadansoddiad o gostau a manteision. Trwy ddatchwyddo £126.15 ym mhrisiau 2025 i brisiau 2023, rydym yn cael ffigur o £122.81.
- 7.112 Mae'r dreth fesul tunnell yn cael ei lluosio ag amcangyfrif o'r tunelli o sgil-gynhyrchion gwastraff o fêps untro y disgwylir iddynt gael eu dargyfeirio o safleoedd tirlenwi o ganlyniad i'r gwaharddiad ar gyfer pob blwyddyn o'r cyfnod arfarnu (fel yr amlinellir yn adran 'Tybiaethau' yr Asesiad Effaith). Tybir bod 33.6% o'r sgil-gynhyrchion gwastraff o fêps untro yn cael eu gwaredu mewn safleoedd tirlenwi bob blwyddyn a thybir bod y gyfran hon yn parhau'n gyson ar draws y cyfnod arfarnu. Mae'r fethodoleg i gyfrifo hyn ar gyfer pob blwyddyn o'r cyfnod arfarnu fel a ganlyn:

*Colli refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi*  
= *Treth Gwarediadau Tirlenwi fesul tunnell*  
× *fêps untro sydd wedi'u dargyfeirio o safleoedd tirlenwi (mewn tunelli)*

*Colli refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi*  
= £122.81  
× *fêps untro wedi'u dargyfeirio o safleoedd tirlenwi(mewn tunelli)*

- 7.113 Ar gyfer y senario ganol, mae hyn yn creu cost gwerth presennol o £0.5 miliwn yn ystod y cyfnod arfarnu. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd hefyd ar y tunelli o wastraff a ddargyfeirir o safleoedd tirlenwi yn unol â'r tunelli o sgil-gynhyrchion gwastraff (h.y. +/- 12%).

### **Costau gorfodi i awdurdodau lleol**

- 7.114 Bydd costau mewn perthynas â'r gwasanaethau archwilio a gorfodi'r gyfraith i gefnogi'r gwaharddiad. Awdurdodau lleol Cymru sydd yn y sefyllfa orau i orfodi'r gwaharddiad, a bydd gwaith yn cael ei wneud gyda hwy i nodi'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o'i orfodi.
- 7.115 Mae costau gorfodi yn ymwneud â'r baich ychwanegol amcangyfrifedig ar awdurdodau lleol Cymru i orfodi'r polisi, gan ddefnyddio dull adweithiol (h.y. bydd archwiliadau'n cael eu cynnal mewn ymateb i gŵyn yn unig). Gan y bydd y gwaharddiad yn cael ei orfodi gan ddefnyddio dull adweithiol, ni fydd busnesau sy'n cydymffurfio yn wynebu unrhyw gostau sy'n ymwneud â gorfodi. Bydd busnesau nad ydynt yn cydymffurfio yn wynebu costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchion a atafaelir os cânt eu harchwilio ond ni phennwyd gwerth ariannol ar gyfer y rhain gan eu bod yn ganlyniad i fethiant i gydymffurfio â'r gyfraith.
- 7.116 Cytunwyd ar y tybiaethau a'r cyfrifiad o gostau gorfodi gyda Safonau Masnach Cymru. Dim ond yn ystod tair blynedd gyntaf y polisi y disgwylir y bydd costau gorfodi (h.y. dim ond yn ystod tair blynedd gyntaf y cyfnod arfarnu) gan y tybir bod pob busnes yn cydymffurfio.

### **Costau hyfforddiant**

- 7.117 Bydd angen i awdurdodau lleol Cymru ddatblygu canllawiau gorfodi ar gyfer eu swyddogion awdurdodedig, darparu hyfforddiant i staff a datblygu ffurfiau addas o hysbysiadau gorfodi.
- 7.118 Rydym yn tybio y bydd pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn gorfod talu cost weinyddol untro i ymgyfarwyddo â'r pwerau newydd. Yn 2022, cynhaliodd Cymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach waith ymchwil i bennu'r gyfradd adennill costau llawn ar gyfer swyddogion Safonau Masnach. Nid oedd hon yn gyfradd gyflog, ond roedd yn cynnwys argostau cyflogaeth ac argostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth. Roedd y ffigur ar gyfer Cymru ychydig yn is nag ar gyfer Lloegr ac roedd wedi'i gyfrifo yn £84.24 yr awr.
- 7.119 Gan ddefnyddio tybiaeth ganolog o 90 munud fesul awdurdod lleol, gallai'r newidiadau arfaethedig gynnwys cost ymgyfarwyddo drosiannol untro o £126.36 fesul swyddog, fesul awdurdod lleol. Rydym yn rhagweld y bydd angen i wyth swyddog ar gyfartaledd o bob awdurdod lleol gwblhau hyfforddiant. Bydd hyn yn creu cost o £1,011 fesul awdurdod a chyfanswm o £22,242 ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.

### **Costau archwilio**

7.120 Dyma'r costau ar gyfer gwaith archwilio a ysgwyddir gan awdurdodau lleol. Nododd yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ystod o gostau sy'n gysylltiedig ag atafaelu fêps (e.e. digwyddiadau atafaelu, costau storio a gwaredu, costau cyfreithiol posibl) ac ni phenwyd eu cost oherwydd diffyg data cadarn.

7.121 Amcangyfrifwyd yn Asesiad Effaith Defra, o blith y mangreoedd sy'n gwerthu fêps untro, y gallai fod angen ymweld â chyfanswm o 33,105 ohonynt yn Lloegr i wirio eu cydymffurfiaeth neu i weithredu camau gorfodi. Gydag addasiad i Gymru, mae hyn yn cynrychioli 1,814 mangre yng Nghymru. Yn Asesiad Effaith Defra, dywedodd Cymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw ymweliadau ag archfarchnadoedd, siopau gorsafoedd petrol na siopau cyfleustra y mae siopau cadwyn ag enw da yn berchen arnynt, felly dyna pam mae'r ffigur hwn yn is na chyfanswm y manwerthwyr. Mewn trafodaethau â Safonau Masnach Cymru, cadarnhawyd mai dyma fyddai'n digwydd yng Nghymru hefyd. O'r mangreoedd hyn, amcangyfrifir y bydd 10% yn cael eu harchwilio (h.y. 181 mangre). Bydd archwilio'r mangreoedd sy'n gwerthu'r eitemau hyn yn y lle cyntaf yn cymryd dwy awr o amser swyddog y flwyddyn, ar gyfartaledd, ar gyfradd o £82.97 yr awr ar sail prisiau 2023 (£84.24 yn wreiddiol ar sail prisiau 2024 sydd wedi'u datchwyddo (gan ddefnyddio'r Datchwyddydd Cynnyrch Domestig Gros) i brisiau 2023 i gyd-fynd â'n blwyddyn sylfaen prisiau). Mae hyn yn cyfateb i £30,480 ac fe'i cyfrifir fel a ganlyn:

$$\begin{aligned} \text{Cost yr archwiliad cyntaf} \\ &= \text{nifer y mangreoedd a archwilir} \\ &\times \text{amser a dreulir (mewn oriau)} \times \text{cost fesul awr} \end{aligned}$$

$$\text{Cost yr archwiliad cyntaf} = 181 \times 2 \times £82.97$$

7.122 Gan dybio y bydd cyfradd diffyg cydymffurfio o 25% yn dilyn yr ymweliad cyntaf (h.y. gan 45 mangre), bydd archwilio mangreoedd sy'n gwerthu'r eitemau hyn yn yr ail achos yn cymryd tair awr o amser swyddog y flwyddyn ar gyfradd o £82.97 yr awr. Mae hyn yn cyfateb i £11,200 ac mae wedi'i gyfrifo fel a ganlyn:

$$\begin{aligned} \text{Cost yr ail archwiliad} \\ &= \text{nifer y mangreoedd a archwilir} \\ &\times \text{amser a dreulir (mewn oriau)} \times \text{cost fesul awr} \end{aligned}$$

$$\text{Cost yr ail archwiliad} = 45 \times 3 \times £82.97$$

7.123 Felly, cyfanswm y gost orfodi flynyddol i awdurdodau lleol a briodolir i gostau archwilio yw £41,680. Dim ond am dair blynedd gyntaf y polisi y disgwylir i gostau gorfodi gael eu talu. Canlyniad hyn yw cost gwerth presennol o £125,040 dros y cyfnod arfarnu.



## Costau i Lywodraeth Cymru

7.124 Rydym yn rhagweld y bydd cost untro o £300,000 i Lywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau dwyieithog, deunydd cyfathrebu i gefnogi cyflwyno'r rheoliadau a chostau staff sy'n gysylltiedig â'u gweithredu.

## Crynodeb o'r manteision â gwerth ariannol

### Elw a wneir drwy werthu cynhyrchion fêps amgen

7.125 O ganlyniad i'r gwaharddiad ar fêps untro, bydd busnesau'n wynebu gwneud llai o elw. Fodd bynnag, gallai rhywfaint o'r effaith gael ei wrthbwysu'n rhannol gan gynnydd mewn gwariant ar gynhyrchion fepio amgen. Mae'n debygol hefyd y gwneir rhywfaint o elw drwy werthu nwyddau tybaco neu gynhyrchion eraill nad ydynt yn ymwneud â fepio, ond dim ond yr elw a wneir o gynhyrchion fepio amgen rydym wedi pennu gwerth ariannol ar ei gyfer. Gan fod hyn yn effaith anuniongyrchol ar fusnesau, rydym wedi darparu senario enghreifftiol yn ein dadansoddiad ac yn tybio y bydd gan y cynhyrchion hyn yr un maint elw â fêps untro.

### Manwerthwyr

7.126 Gallai manwerthwyr ddisgwyl adennill cyfran o'r elw y byddant yn ei golli o fêps untro o werthiannau fêps aml dro a hylif/cetris ail-lenwi. Rydym yn tybio yn ein senario ganol y bydd 51% o ddefnyddwyr cyfredol fêps untro yn newid i ddefnyddio cynhyrchion fepio amgen. Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym hefyd wedi cynnal rhywfaint o waith dadansoddi sensitifrwydd ar y gyfran hon, gyda 40% o ddefnyddwyr yn newid mewn senario isel a 100% o ddefnyddwyr yn newid mewn senario uchel.

7.127 Rydym yn tybio y bydd 50% o'r cynhyrchion amgen yn ddyfeisiau cetris a bydd y 50% sy'n weddill yn ddyfeisiau tanc y gellir ei ail-lenwi. Ar sail ymchwil ddesg gan Defra, rydym yn amcangyfrif bod pris manwerthu cyfartalog y cydrannau fel a ganlyn fel yr amlinellir yn Nhabl **22**.

**Tabl 22: Amcangyfrifon o bris gwerthu cynhyrchion fepio amgen**

Y math o fêp aml dro	Cydran	Pris
<b>Fêp cetrissen</b>	Fêp y gellir ei ailwefru gyda chetrissen wedi'i llenwi'n barod (h.y. dyfais na ellir ei hail-lenwi)	£9.00
	Cetris ail-lenwi (pecyn o 2)	£7.00
<b>Fêp y gellir ei ail-lenwi</b>	Fêp y gellir ei ailwefru gyda thanc (h.y. dyfais heb e-hylif)	£17.00
	Potel o e-hylif (10ml)	£3.00

7.128 Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adran 'Tybiaethau', rydym yn tybio, yn seiliedig ar sawl gwaith y gellir gwefru batri fêp cyffredin (300), y bydd dyfais newydd yn cael ei phrynu am bob 300 fêp untro. Bydd cetris ail-lenwi, sydd fel arfer yn cael eu gwerthu mewn pecynnau o ddau, yn cael eu prynu am bob dau fêp untro, a bydd potel 10ml o e-hylif yn cael ei phrynu am bob pump fêp untro.

7.129 Yn seiliedig ar 51% yn newid o fêps untro i gynhyrchion fepio amgen, mae hyn yn golygu y gallwn ddosrannu 51% o'r fêps untro a roddir ar y farchnad o'r senario llinell sylfaen (o Ffigur 1 a Thabl 3 yn adran 'Tybiaethau' yr Asesiad Effaith) i'r defnyddwyr hyn sy'n debygol o newid i gynhyrchion fepio amgen. Amlinellir hyn yn Nhabl 23.

**Tabl 23: Nifer y fêps untro o'r senario llinell sylfaen a ddosrennir i ddefnyddwyr sy'n debygol o newid i gynhyrchion fepio amgen**

	2025	2029	2034
<b>Nifer y fêps untro a ddosrennir i ddefnyddwyr sy'n debygol o newid i gynhyrchion fepio amgen</b>	12,240,129	21,772,198	33,775,314

7.130 Yn seiliedig ar raniad 50/50 rhwng y defnyddwyr hyn sy'n newid i fêps cetris a fêps y gellir eu hail-lenwi, bydd y ffigurau yn Nhabl 23 yn cael eu haneru ar gyfer y naill a'r llall. Ac felly, bydd nifer y dyfeisiau newydd y bydd yn rhaid eu prynu ar sail cylchoedd gwefru yr un fath ar gyfer y naill a'r llall ac mae wedi'i gyfrifo fel a ganlyn ar gyfer pob blwyddyn yn y cyfnod arfarnu:

$$\text{Nifer y dyfeisiau aml dro} = \frac{\text{nifer y gwerthiannau fêps untro a ddosberthir i ddefnyddwyr sy'n newid}}{\text{nifer y cylchoedd gwefru fesul fêp aml dro (h. y. 300)}}$$

7.131 Drwy rannu'r cyfanswm ar gyfer pob math o ddyfais, rydym yn cael y niferoedd canlynol yn Nhabl 24.

**Tabl 24: Nifer y dyfeisiau fepio aml dro a brynir o ganlyniad i'r gwaharddiad**

	2025	2029	2034
<b>Nifer y fêps cetriss a werthir</b>	20,400	36,287	56,292
<b>Nifer y dyfeisiau fêps y gellir eu hail-lenwi a werthir</b>	20,400	36,287	56,292
<b>Cyfanswm y dyfeisiau fêp aml dro a werthir</b>	<b>40,800</b>	<b>72,574</b>	<b>112,584</b>

7.132 Yn ogystal â'r dyfeisiau, bydd cynhyrchion ail-lenwi'n cael eu gwerthu hefyd. Ar gyfer dyfeisiau cetrissen, yn seiliedig ar y ffaith bod y cydrannau ail-lenwi yn dod mewn pecynnau o ddau, bydd y gwerthiannau yn seiliedig ar 50% o'r gwerthiannau fêp untro wrth i ddefnyddwyr (yn Nhabl 23) newid, wedi'u rhannu â dau. Ar gyfer dyfeisiau tanc y gellir e ail-lenwi, yn seiliedig ar y ffaith bod poteli o e-hylif ar gyfartaledd yn gyfwerth â'r hylif mewn pump fêp untro, bydd hyn yn seiliedig ar 50% o'r gwerthiannau fêps untro wrth i ddefnyddwyr (yn Nhabl 20) newid, wedi'u rhannu â phump. Cyfrifir y rhain fel a ganlyn:

$$\begin{aligned}
 & \text{Nifer y pecynnau ail – lenwi ar gyfer fêps cetrissen} \\
 & = 50\% \\
 & \times \frac{\text{nifer y gwerthiannau fêps untro a briodolir i ddefnyddwyr sy'n newid}}{2} \\
 & \text{Nifer y poteli e – hylif ar gyfer fêps y gellir eu hail – lenwi} \\
 & = 50\% \\
 & \times \frac{\text{nifer y gwerthiannau fêps untro a briodolir i ddefnyddwyr sy'n newid}}{5}
 \end{aligned}$$

7.133 Ac felly, cawn y niferoedd canlynol o werthiannau ar gyfer cynhyrchion ail-lenwi yn Nhabl 25.

**Tabl 25: Nifer y cynhyrchion ail-lenwi ar gyfer dyfeisiau fepio aml dro a brynnir o ganlyniad i'r gwaharddiad**

	2025	2029	2034
<b>Nifer y cetriss ail-lenwi a werthwyd (pecynnau o 2)</b>	3,060,032	5,443,050	8,443,829
<b>Poteli 10ml o e-hylif a werthwyd</b>	1,224,013	2,177,220	3,377,531

7.134 Rydym yn tybio y bydd manwerthwyr yn defnyddio'r un maint elw (45%) ar gyfer y cynhyrchion fepio amgen hyn ag ar gyfer fêps untro. Ac felly, byddai'r elw a geir o werthu eitemau amgen yn cael ei gyfrifo ar gyfer pob blwyddyn y cyfnod arfarnu:

$$\begin{aligned} & \textit{Elw o werthiannau cynhyrchion fepio amgen} \\ & = \textit{nifer y gwerthiannau o'r cynnyrch} \times \textit{pris manwerthu} \\ & \quad \times \textit{maint yr elw} \end{aligned}$$

7.135 Felly, mae hyn yn creu budd gwerth presennol o £210.1 miliwn yn ystod y cyfnod arfarnu ar gyfer yr holl gynhyrchion fepio amgen gyda'i gilydd. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd hefyd ar hyn, yn seiliedig ar gyfran y defnyddwyr sy'n newid.

### Cyfanwerthwyr

7.136 Mae'r sector cyfanwerthu yn debygol o allu parhau i fasnachu'r cynhyrchion amgen sy'n disodli'r rhai sydd wedi'u gwahardd. Gallai cyfanwerthwyr ddisgwyl adennill cyfran o'r elw a gollir o fêps untro o werthiannau fêps amldro a hylif/cetris ail-lenwi, yn seiliedig ar yr un cyfrannau o ddefnyddwyr sy'n newid a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r cynnydd mewn elw i fanwerthwyr.

7.137 Drwy ddidynnu maint yr elw manwerthu o'r pedair eitem uchod, mae eu prisiau cyfanwerthu cyfartalog fel a ganlyn yn Nhabl 26.

**Tabl 26: Amcangyfrifon o brisiau cyfanwerthu cynhyrchion fepio amgen**

Y math o fêp amldro	Cydran	Pris
<b>Fêp cetrisen</b>	Fêp y gellir ei ailwefru â chetrisen wedi'i llenwi eisoes (h.y. dyfais heb ail-lenwadau)	£4.95
	Cetris ail-lenwi (pecyn o 2)	£3.85
<b>Fêp y gellir ei ail-lenwi</b>	Fêp y gellir ei ailwefru gyda thanc (h.y. dyfais heb e-hylif)	£9.35
	Potel o e-hylif (10ml)	£1.65

7.138 Gwneir y cyfrifiadau yn yr un modd ag ar gyfer manwerthu gyda dim ond y pris a maint yr elw yn amrywio. Rydym hefyd yn tybio y bydd maint elw cyfanwerthwyr ar gyfer y cynhyrchion fepio amgen hyn yr un fath ag ar gyfer fêps untro (12%). Felly, mae hyn yn creu budd gwerth presennol o £30.8 miliwn dros y cyfnod arfarnu. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd hefyd ar hyn gyda chyfran y defnyddwyr sy'n newid.

## Mewnforwyr/ail-frandwyr

- 7.139 Gallai mewnforwyr ac ail-frandwyr ddisgwyl i gyfran o'r elw a gollir o fêps untro gael ei hadennill o werthiannau fêps aml dro a hylif/cetris ail-lenwi, yn seiliedig ar yr un cyfrannau o ddefnyddwyr sy'n newid a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r cynnydd mewn elw i fanwerthwyr.
- 7.140 Drwy ddidynnu maint yr elw manwerthu o brisiau cyfanwerthu'r pedair eitem uchod, mae'r prisiau cyfartalog a godir gan fewnforwyr ac ail-frandwyr fel a ganlyn yn Nhabl 27.

**Tabl 27: Amcangyfrifon o brisiau mewnforwyr/ail-frandwyr ar gyfer cynhyrchion fepio amgen**

Y math o fêp aml dro	Cydran	Pris
<b>Fêp cetris</b>	Fêp y gellir ei ailwefru â chetrisen wedi'i llenwi eisoes (h.y. dyfais heb ail-lenwadau)	£4.36
	Cetris ail-lenwi (pecyn o 2)	£3.39
<b>Fêp y gellir ei ail-lenwi</b>	Fêp y gellir ei ailwefru gyda thanc (h.y. dyfais heb e-hylif)	£8.23
	Potel o e-hylif (10ml)	£1.45

- 7.141 Gwneir y cyfrifiadau yn yr un modd ag ar gyfer manwerthu a chyfanwerthu gyda dim ond y pris a maint yr elw yn amrywio. Rydym hefyd yn tybio y bydd maint elw mewnforwyr ac ail-frandwyr ar gyfer y cynhyrchion fepio amgen hyn yr un fath ag ar gyfer fêps untro (15%). Felly, mae hyn yn creu budd gwerth presennol o £33.9 miliwn dros y cyfnod arfarnu. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd hefyd ar hyn gyda chyfran y defnyddwyr sy'n newid.

## Gostyngiad mewn costau rheoli gwastraff i awdurdodau lleol

- 7.142 Drwy wahardd fêps untro, disgwylir y bydd gostyngiad yng nghostau rheoli gwastraff awdurdodau lleol o ganlyniad i'r gostyngiad yn y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a ffioedd clwyd safleoedd tirlenwi a lloggi (troi gwastraff yn ynni) y mae'n rhaid iddynt eu talu. Yn yr un modd â'r dreth, codir ffioedd clwyd yn ôl pwysau. Mae'r dreth yn drosglwyddiad, ond mae ffioedd clwyd tirlenwi a throi gwastraff yn ynni yn fanteision penodol i awdurdodau lleol. Amlinellir y ffioedd clwyd yn Nhabl 28 ac rydym wedi tybio y bydd y rhain yn parhau i fod yn gyson mewn termau real yn ystod y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd. Dylid nodi hefyd nad yw'r ffi glwyd tirlenwi yn cynnwys y dreth, am eu bod yn cael eu cyfrifo ar wahân. Roedd y ffioedd clwyd a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar brisiau

2022 yn wreiddiol ([ADRODDIAD FFIOEDD CLWYD 2022/23 Wrap](#)), fodd bynnag mae'r rhain wedi'u chwyddo (gan ddefnyddio'r gyfres datchwyddydd cynnyrch domestig gros) i brisiau 2023 i alinio â'r flwyddyn sylfaen prisiau a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn o gostau a manteision fel yr amlinellir yn Nhabl 28. Yna mae'r ffioedd clwyd yn cael eu lluosu â'r tunelli o wastraff y disgwylir iddynt gael eu dargyfeirio o safleoedd tirlenwi a llosgi o ganlyniad i'r gwaharddiad er mwyn cyfrifo'r arbedion.

**Tabl 28: Ffioedd clwyd (i'r £ agosaf)**

	Ffi (£/t)	Glwyd
<b>Troi Gwastraff yn Ynni</b>	£110	
<b>Tirlenwi</b>	£30	

### Arbedion y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

7.143 Fel y trafodwyd eisoes, bydd arbedion o ran y dreth i awdurdodau lleol ond colledion i'r llywodraeth o ganlyniad i drosglwyddo arian. Amlinellir y cyfrifiad ar gyfer hyn yn yr adran 'Colled refeniw o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i'r Llywodraeth', gan nodi y bydd hyn yn creu cost i'r llywodraeth ond mantais i awdurdodau lleol.

7.144 Mae hyn yn creu budd gwerth presennol o £0.5 miliwn yn ystod y cyfnod arfarnu, gyda dadansoddiad sensitifrwydd yn cael ei gynnal ar y tunelli o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (a drafodwyd uchod hefyd).

### Arbedion ffioedd clwyd safleoedd tirlenwi

7.145 Cyfrifir yr arbedion mewn ffioedd clwyd safleoedd tirlenwi fel ffi glwyd safle tirlenwi wedi'i lluosu â'r tunelli o wastraff a ddargyfeirir o safleoedd tirlenwi o ganlyniad i'r gwaharddiad. Tybir bod 33.6% o sgil-gynhyrchion gwastraff fêps untro yn mynd i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn a thybir y bydd y gyfran hon yn aros yn gyson am y cyfnod arfarnu. Mae'r fethodoleg gyfrifo fel a ganlyn ar gyfer pob blwyddyn yn y cyfnod arfarnu:

$$\begin{aligned} & \textit{Arbedion ffioedd clwyd safleoedd tirlenwi} \\ & = \textit{Ffi glwyd safle tirlenwi} \\ & \times \textit{fêps untro wedi'u dargyfeirio o safleoedd tirlenwi (mewn tunelli)} \end{aligned}$$

$$\begin{aligned} & \textit{Arbedion ffioedd clwyd safleoedd tirlenwi} \\ & = £30 \times \textit{fêps untro wedi'u dargyfeirio o safleoedd tirlenwi (mewn tunelli)} \end{aligned}$$

7.146 Felly, mae hyn yn creu budd gwerth presennol o £0.13 miliwn yn ystod y cyfnod arfarnu. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd hefyd ar hyn, o ran y tunelli o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (+/- 12%).

### Arbedion ffioedd clwyd safleoedd troi gwastraff yn ynni

7.147 Cyfrifir yr arbedion mewn ffioedd clwyd safleoedd troi gwastraff yn ynni fel ffi glwyd y safle wedi'i lluosio â nifer y tunelli o wastraff a ddargyfeirir o safleoedd llosgi. Tybir y bydd 66.3% o sgil-gynhyrchion gwastraff fêps untro yn cael eu llosgi bob blwyddyn a thybir y bydd y gyfran hon yn aros yn gyson am y cyfnod arfarnu. Mae'r fethodoleg gyfrifo fel a ganlyn ar gyfer pob blwyddyn yn y cyfnod arfarnu:

$$\begin{aligned} \text{Arbedion ffioedd clwyd safleoedd troi gwastraff yn ynni} \\ = \text{Ffi glwyd y safle} \\ \times \text{fêps untro a ddargyfeirir o safleoedd llosgi (mewn tunelli)} \end{aligned}$$

$$\begin{aligned} \text{Arbedion ffioedd clwyd safleoedd troi gwastraff yn ynni} \\ = \text{£110} \\ \times \text{fêps untro a ddargyfeirir o safleoedd llosgi (mewn tunelli)} \end{aligned}$$

7.148 Mae hyn yn creu budd gwerth presennol o £0.96 miliwn yn ystod y cyfnod arfarnu. Yn yr un modd â gydag arbedion ffioedd clwyd safleoedd tirlenwi, cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â'r tunelli o wastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi (+/- 12%).

### Arbedion allyriadau i gymdeithas

7.149 Er mwyn pennu gwerth arbedion allyriadau ar gyfer rhai manteision i gymdeithas o ganlyniad i'r gwaharddiad, lluosir nifer yr allyriadau sy'n cael eu hosgoi â gwerthoedd carbon, sy'n cael eu prisiau fesul tonnelli o CO<sub>2</sub> ([Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwylliannol, 'Valuation of greenhouse gas emissions: for policy appraisal and evaluation'](#)). Roedd y rhain ar sail prisiau 2020 yn wreiddiol, ac maent wedi'u chwyddo i brisiau 2023 i fod yn gyson â'r dadansoddiad o gostau a manteision. Amlinellir crynodeb o'r costau hyn yn Nhabl 29.

**Tabl 29: Gwerthoedd carbon ar sail prisiau 2023**

	2025	2026	2027	2028	2029	2030	2031	2032	2033	2034
Gwerth carbon (£ fesul tonnelli o CO <sub>2</sub> )	£292	£296	£301	£305	£310	£314	£320	£324	£329	£335

## Mantais allyriadau gwaredu trwy losgi

- 7.150 Mae fêps untro yn cynhyrchu allyriadau nwyon tŷ gwydr wrth gael eu llosgi, felly bydd gwaharddiad yn creu arbedion allyriadau o ganlyniad i ddargyfeirio gwastraff o safleoedd llosgi. Cyfrifir bod 66.3% o fêps untro yn cael eu llosgi ar ôl dod yn wastraff, a disgwylir i'r gyfran hon barhau'n gyson yn ystod y cyfnod arfarnu.
- 7.151 I gyfrifo'r fantais allyriadau llosgi, mae'r tunelli o CO<sub>2</sub>e sy'n cael eu rhyddhau wrth losgi fêps untro (0.21 tonnell o CO<sub>2</sub>e fesul tonnell o sgil-gynhyrchion gwastraff fêps untro wedi'i luosi â'r tunelli o wastraff a ddargyfeirir o safleoedd llosgi) yn cael eu lluosu â'r gwerthoedd carbon (fel yr amlinellir yn adran 'Tybiaethau' yr Aseiad Effaith). Mae'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo hyn fel a ganlyn ar gyfer pob blwyddyn yn y cyfnod arfarnu:

$$\begin{aligned} & \textit{Mantais allyriadau llosgi} \\ & = \textit{fêps untro a ddargyfeirir o safleoedd llosgi (mewn tunelli)} \\ & \times \textit{allyriadau nwyon tŷ gwydr a ryddheir fesul tonnell (h. y. 0.21)} \\ & \times \textit{gwerth carbon} \end{aligned}$$

- 7.152 Mae hyn yn creu budd gwerth presennol o £0.58 miliwn yn ystod y cyfnod arfarnu. Darparwyd dadansoddiad sensitifrydd ar hyn gyda +/- 12% ar gyfer y tunelli o wastraff sy'n cael eu llosgi.

## Llai o allyriadau yn sgil gostyngiad mewn tanau gwastraff

- 7.153 Adroddir bod y batris lithiwm-ïon mewn fêps untro wedi achosi tanau. Byddai gwaharddiad ar fêps untro yn lleihau nifer y batris lithiwm-ïon sy'n cael eu gwaredu'n amhriodol yn y llif gwastraff yn sylweddol ac, felly, byddai llai o berygl o danau.
- 7.154 [Mae Eunomia wedi modelu'r effeithiau allyriadau sy'n gysylltiedig â thanau gwastraff a achosir gan fêps untro.](#) Maent yn amcangyfrif bod batris lithiwm-ïon yn achosi 201 o danau mewn safleoedd tirlenwi y flwyddyn ledled y DU, ac amcangyfrifwyd mai 19% oedd y gyfran a briodolir i fêps untro. Amcanestynwyd y ffigur hwn yn unol â'r defnydd o fêps untro o un flwyddyn i'r llall. Rydym wedi addasu'r ffigurau hyn ar gyfer Cymru'n unig ac wedi'u hallosod i gwmpasu'r cyfnod arfarnu. Mae nifer y tanau gwastraff yr amcangyfrifir y gellir eu priodoli i fêps untro y flwyddyn yng Nghymru yn ystod y cyfnod arfarnu i'w gweld yn Nhabl **30**, gan nodi bod hyn yn defnyddio'r un gyfradd dwf o Dabl **4**.



**Tabl 30: Nifer y tanau gwastraff a briodolir i fêps untro yng Nghymru**

	2025	2026	2027	2028	2029	2030	2031	2033	2034
<b>Nifer y tanau gwastraff</b>	3	3	3	4	5	5	6	7	7

7.155 Mae'r allyriadau sy'n gysylltiedig â llosgi gwastraff mewn safleoedd tirlenwi o ganlyniad i danau a achosir gan fêps untro yn cynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â hylosgi ac allyriadau carbon du. Mae'r rhain wedi'u modelu gan Eunomia hefyd ac rydym wedi addasu'r ffigurau hyn ar gyfer Cymru yn unig ac wedi'u hallosod i gwmpasu'r cyfnod arfarnu. O ganlyniad i'r gwaharddiad, bydd gostyngiad yn yr allyriadau hyn ac amlinellir y rhain yn Nhabl **31** ar gyfer blynyddoedd 1, 5 a 10 y cyfnod arfarnu.

**Tabl 31: Llai o allyriadau o danau gwastraff a achosir gan fêps untro**

	2025	2029	2034
<b>Allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â hylosgi (tCO<sub>2</sub>e)</b>	142	253	393
<b>Allyriadau carbon du (tCO<sub>2</sub>e)</b>	722	1,285	1,993

7.156 Er mwyn pennu gwerth yr arbedion allyriadau o danau gwastraff sy'n cael eu hosgoi o ganlyniad i'r gwaharddiad, mae cyfanswm yr allyriadau ar gyfer pob blwyddyn yn Nhabl **31** yn cael ei luosi â'r gwerthoedd carbon ar gyfer y flwyddyn gyfatebol yn Nhabl **29**. Mae'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo hyn fel a ganlyn ar gyfer pob blwyddyn o'r cyfnod arfarnu:

$$\text{Arbedion allyriadau o danau gwastraff sy'n cael eu hosgoi} \\ = \text{llai o allyriadau} \times \text{gwerthoedd carbon}$$

7.157 Mae hyn yn creu budd gwerth presennol o £0.8 miliwn yn sgil gostyngiad yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â hylosgi a £4.2 miliwn ar gyfer y gostyngiad mewn allyriadau carbon du. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â hylosgi ac allyriadau carbon du, sy'n +/- 12% ar gyfer nifer yr allyriadau bob blwyddyn wedi'u lluosu â'r un gwerthoedd carbon.

### **Mantais llai o sbwriel (amwynder) i gymdeithas**

7.158 Disgwylir i'r gwaharddiad ar fêps untro greu manteision amwynder cadarnhaol drwy leihau'r nifer ohonynt sydd mewn defnydd yn ogystal â'r rhai sy'n creu sbwriel. Gall presenoldeb sbwriel gyfrannu at ofn troseddau ac anafiadau, dau beth sy'n cael effaith negyddol ar lesiant. Gall sbwriel atal y defnydd o fannau cyhoeddus hefyd. Mae gan amgylcheddau glân werth i bobl sy'n poeni am

lesiant bywyd gwyllt a phobl eraill, ac mae amgylcheddau llawn sbwriel yn effeithio ar ymdeimlad pobl o ddiogelwch, mwynhad a pharodrwydd i ddefnyddio manau cyhoeddus. Felly, mae cost annymunoldeb cymdeithasol yn gysylltiedig â sbwriel.

- 7.159 Mae'n anodd pennu gwerth ariannol effeithiau hyn yn uniongyrchol, felly rydym wedi addasu dull parodrwydd i dalu, fel yr un a ddefnyddiwyd yn Asesiad Effaith Defra. Roedd yr [Economics for the Environment Consultancy \(Eftec\)](#) yn amcangyfrif bod parodrwydd ymylol cymedrig aelwydydd i dalu am ostyngiad o 1 pwynt canran yn sbwriel ardal yr awdurdod lleol yn £0.66 y flwyddyn ar sail prisiau 2020. Drwy addasu ar gyfer chwyddiant, mae hyn gyfwerth â £0.74 y flwyddyn ar sail prisiau 2023.
- 7.160 Ar y sail bod 1,312,975 o aelwydydd yng Nghymru ([Swyddfa Ystadegau Gwladol \(2023\), data teuluoedd ac aelwydydd](#)), rydym yn amcangyfrif mai cyfanswm y parodrwydd i dalu am welliant o 1 pwynt canran yn yr amgylchedd daearol yw £971,602 y flwyddyn. Tybir y gellir priodoli canran fach o'r amcangyfrif hwn i ostyngiad yn nifer y fêps untro sy'n sbwriel.
- 7.161 Mae ein priodoli yn seiliedig ar y dull a ddefnyddiwyd yn Asesiad Effaith Defra, sy'n defnyddio gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan [Zero Waste Scotland](#). Mae o leiaf 15,000 tonnelli o sbwriel yn cael ei daflu i'r amgylchedd trefol a gwledig ac yn cael ei glirio wedi hynny gan awdurdodau lleol bob blwyddyn yn yr Alban, sy'n cyfateb i tua 250 miliwn o eitemau sy'n hawdd eu gweld bob blwyddyn. Yn 2022, roedd swm y sbwriel fêps untro yn cyfateb i 0.1% - 0.5% o gyfanswm y tonnelli o y-sbwriel, a rhwng 0.3% ac 1.1% o gyfanswm y sbwriel. Er mwyn pennu gwerth ariannol y fantais amwynder, defnyddiwyd cyfran y cyfrif ysbwriel y gellir ei phriodoli i fêps untro. Mae pwynt canolog yr ystod yn cynrychioli senario ganol, a'r ystodau o senario isel ac uchel ar gyfer dadansoddiad sensitifrwydd. Drwy ragamcanu'r gyfran gan ddefnyddio'r un gyfradd dwf yn Nhabl 4, rydym yn cael y cyfrannau canlynol ar draws y cyfnod arfarnu fel yr amlinellir yn Nhabl 32.

**Tabl 32: Amcanestyniad o gyfran yr ysbwriel y gellir ei phriodoli i fêps untro**

	2025	2026	2027	2028	2029	2030	2031	2032	2033	2034
<b>Cyfran y sbwriel sy'n fêps untro</b>	1.2%	1.5%	1.7%	2.0%	2.2%	2.5%	2.7%	3.0%	3.2%	3.4%

7.162 O ganlyniad i'r gwaharddiad, tybir y bydd gostyngiad o 100% mewn sbwriel fêps untro. I gyfrifo'r gostyngiad mewn annymunoldeb ysbwriel, mae'r gyfran flynyddol o sbwriel a amlinellwyd yn Nhabl **32** yn cael ei lluosoi â chyfanswm yr amcanestyniad paroddrwydd i dalu. Mae'r fethodoleg gyfrifo fel a ganlyn ar gyfer pob blwyddyn o'r cyfnod arfarnu:

$$\begin{aligned} & \textit{Mantais llai o sbwriel (amwynder)} \\ & = \textit{cyfran y sbwriel sy'n fêps untro} \\ & \times \textit{cyfanswm y paroddrwydd i dalu} \end{aligned}$$

$$\begin{aligned} & \textit{Mantais llai o ysbwriel (amwynder)} \\ & = \textit{cyfran y sbwriel sy'n fêps untro} \times \text{£971,602} \end{aligned}$$

7.163 Mae hyn yn cyfateb i werth budd presennol o £0.2 miliwn yn ystod y cyfnod arfarnu. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd hefyd o gyfran y sbwriel fêps untro yn seiliedig ar bwyntiau uchaf ac isaf yr ystod a ddarparwyd ar gyfer cyfran y cyfrif ysbwriel.

## **Crynodeb o'r costau heb werth ariannol**

### **Costau gweithgynhyrchwyr**

7.164 Fel y nodwyd yn gynharach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nododd y rhanddeiliaid y buom yn ymgysylltu â nhw nad oes unrhyw wybodaeth am gynhyrchu fêps untro domestig yn y DU na Chymru. Felly, nid yw colli elw, ymgyfarwyddo, buddsoddiad cyfalaf, a chostau deunyddiau amgen wedi'u mesur.

### **Costau stoc dros ben i fanwerthwyr**

7.165 Bydd y cyfnod pontio o chwe mis o leiaf rhwng yr adeg y rhagwelir y bydd y rheoliadau'n cael eu gwneud a'r amser y byddant yn dod i rym caniatáu amser i fanwerthwyr gynllunio i werthu stoc dros ben.

7.166 O gofio bod ymateb y llywodraeth yn cyhoeddi'r gwaharddiad wedi'i gyhoeddi flwyddyn cyn ei weithredu ac y bydd gwybodaeth bellach yn cael ei chyhoeddi cyn y cyfnod gweithredu, credwn y rhoddwyd amser digonol i baratoi ac addasu.

### **Niweidioldeb i ddefnyddwyr yn sgil colli cyfleustra a mwynhad**

7.167 Bydd gwaharddiad ar fêps untro yn cael effaith negyddol ar y defnyddwyr hynny y mae'n well ganddynt ddefnyddio fêps untro o gymharu â'r dewisiadau amgen. Mae nifer o fanteision i ddefnyddio fêps untro, gyda llawer o bobl yn

ystyried eu bod yn fwy cyfleus o gymharu â chynhyrchion amldro. Er enghraifft, nid oes angen i ddefnyddwyr ail-lenwi fêps untro am eu bod wedi'u llenwi'n barod ac nid oes angen unrhyw waith glanhau neu gynnal a chadw (yn wahanol i fêps amldro).

- 7.168 Mae gwaharddiad ar fêps untro yn cyfyngu ar ddewis defnyddwyr ac mae'n dilyn y bydd y defnyddwyr hynny sy'n prynu fêps untro ar hyn o bryd yn profi gostyngiad yn eu defnyddioldeb o ganlyniad i golli cyfleustra a chael eu gorfodi i symud i'w dewis 'ail orau' (boed hynny'n newid i fêp amldro neu roi'r gorau i fepio yn gyfan gwbl). Nid yw'r data ar gael i bennu gwerth y golled hon mewn defnyddioldeb i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos y bydd unrhyw leihad yng nghyfleustra a dewis defnyddwyr yn sgil gwahardd fêps untro yn cael ei wrthbwyso gan yr enillion i'r gymdeithas ehangach o fynd i'r afael ag allanolion amgylcheddol a chymdeithasol.
- 7.169 Oherwydd bod diffyg tystiolaeth uniongyrchol ar effaith gwahardd fêps untro ar roi'r gorau i ysmegu, ni wnaed unrhyw waith modelu ar yr effaith bosibl honno.
- 7.170 Fodd bynnag, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi nodi sawl maes allweddol lle mae effeithiau gwahaniaethol posibl yn ôl grwpiau poblogaeth a allai gael effaith negyddol ar roi'r gorau i ysmegu. Mae'n bwysig nodi mai grwpiau yw'r rhain lle gwelir cyfraddau uwch o ysmegu fel arfer (e.e. pobl ar incwm is, pobl â chyflyrau iechyd meddwl) ac sy'n grwpiau blaenoriaeth ym mhoblogaeth Cymru ar gyfer targedu anghydraddoldebau a achosir gan ysmegu tybaco, fel y nodir yn ['Cymru Ddi-fwg: Strategaeth hirdymor Cymru ar gyfer rheoli tybaco'](#)
- 7.171 Yn y tymor byr, gallai hyn gyfrannu at gynnydd yng nghostau byw unigolion o aelwydydd incwm is yng Nghymru a gallai gyfrannu at effaith negyddol ar [iechyd meddwl, iechyd corfforol a pherthnasoedd teuluol \(Costau byw cynyddol ac iechyd a llesiant yng Nghymru: arolwg cenedlaethol - Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant \(icccgsib.co.uk\)\)](#). Fodd bynnag, yn y tymor hwy, mae dyfeisiau amldro yn fwy costeffeithiol, a gallant olygu ei bod yn haws gwanhau cryfder y nicotin na chydya dyfeisiau untro. Gall annog pobl sy'n fepio ar hyn o bryd, gan gynnwys y bobl hynny sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, i newid i ddyfeisiau amldro helpu i sicrhau gostyngiad bach mewn gwariant ar gynhyrchion fepio neu ostyngiad mwy sylweddol os byddant yn rhoi'r gorau i ysmegu'n gyfan gwbl.
- 7.172 Hefyd, nid yw fêps untro yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan y gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmegu a ddarperir gan GIG Cymru ('Helpa fi i Stopio'), felly ychydig iawn o effaith uniongyrchol fydd ar y darpariaethau a gynigir gan y

gwasanaethau hynny. Byddant yn parhau i helpu ysmygwyr i roi'r gorau iddi drwy gymhorthion rhoi'r gorau i ysmegu a therapi amnewid nicotin.

## **Crynodeb o'r manteision heb werth ariannol**

### **Manteision i weithgynhyrchwyr**

#### **Elw o werthu cynhyrchion fepio amgen**

7.173 Gan nad oes unrhyw arwydd o weithgynhyrchu domestig yng Nghymru, ni feintolwyd cynnydd mewn elw wrth i weithgynhyrchwyr newid i werthu fêps aml dro nac i weithgynhyrchwyr cyfredol fêps aml dro.

#### **Mwy o elw i weithgynhyrchwyr cyfredol cynhyrchion fepio amgen**

7.174 Gallai fod marchnad fwy i weithgynhyrchwyr domestig cyfredol y cydrannau ail-lenwi ar gyfer fêps aml dro. Cadarnhaodd yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan Defra fod y rhan fwyaf o'r e-hylif a ddefnyddir yn y DU yn cael ei gynhyrchu yn y DU, gan gadarnhau felly bod marchnad cynhyrchu e-hylif sylweddol yn y DU. Er hynny, nid ydym wedi gallu cadarnhau a oes unrhyw weithgynhyrchwyr e-hylif domestig yng Nghymru.

7.175 Mae'r cynnydd posibl mewn elw i'r busnesau hyn yn ddibynnol ar newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr a achosir gan y gwaharddiad. Os bydd defnyddwyr yn newid i fêps y gellir eu hail-lenwi (h.y., y rhai gyda thanc i'w ail-lenwi ag e-hylif) yn hytrach na dyfeisiau pod/cetrisen sydd wedi'u llenwi eisoes, mae'n debygol y bydd cynnydd mewn elw i weithgynhyrchwyr e-hylif domestig.

7.176 Er y dylid nodi hefyd y dangoswyd yn yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar gyfer Asesiad Effaith Defra, pe byddai newid arwyddocaol i'r defnydd o fêps y gellir eu hail-lenwi, gallai fod angen rhywfaint o wariant cyfalaf i ehangu cynhyrchiant e-hylif mewn potel i ymateb i'r galw ychwanegol. Yn ogystal, os bydd senario lle y bydd llawer mwy o bobl yn newid i ddefnyddio dyfeisiau pod wedi'u llenwi eisoes, mae'n bosibl y gallai llenwi cetris/podiau wedi'u llenwi ymlaen llaw yn y DU ddod yn ofyniad economaidd, gan arwain at wariant cyfalaf ar beiriannau llenwi podiau.

## **Manwerthwyr**

### **Elw i fanwerthwyr o werthiannau cynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin eraill**

- 7.177 Yn ogystal â'r ffaith y bydd manwerthwyr yn gallu gwrthbwysu'n rhannol yr elw a gollir drwy werthu cynhyrchion fepio amgen, mae rhai hefyd yn debygol o wrthbwysu hyn drwy werthu tybaco/sigarêts a chynhyrchion disodli nicotin (e.e. ar ffurf gwm cnoi, patsys croen, chwistrelli ceg, etc.).
- 7.178 Ar gyfer cynhyrchion tybaco, mae'n anodd rhagweld y newid mewn ymddygiad gan ddefnyddio'r senario wrthffeithiol ar gyfer gwerthiannau fêps untro. Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym yn tybio y bydd 51% o'r defnyddwyr fêps untro cyfredol yn newid i gynhyrchion fepio amgen, a thybir ymhellach y bydd 29% o'r defnyddwyr cyfredol naill ai'n dychwelyd i ddefnyddio tybaco neu'n defnyddio cynhyrchion nicotin amgen. Ar gyfer cynhyrchion tybaco, efallai na fydd yn gwbl gywir tybio y bydd y gyfran hon o 29% yn gyson dros y cyfnod arfarnu oherwydd cynigion polisi eraill. O ganlyniad, ni fu'n bosibl pennu gwerth unrhyw elw posibl o werthu cynhyrchion tybaco o ganlyniad i'r gwaharddiad ar fêps untro.
- 7.179 Defnyddir fêps i roi'r gorau i ysmegu ac mae'n bosibl y bydd rhai defnyddwyr yn defnyddio dulliau eraill i roi'r gorau i ysmegu gan ddefnyddio cynhyrchion gwahanol i ddisodli nicotin. Fodd bynnag, oherwydd bod ansicrwydd ynglŷn â hyn a'r amrywiaeth o gynhyrchion sydd ar gael, nid ydym wedi ceisio meintoli'r elw posibl o werthu'r cynhyrchion hyn.

### **Elw manwerthwyr o werthu cynhyrchion cysylltiedig nad ydynt yn dybaco**

- 7.180 Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos cost sylweddol i fanwerthwyr yn sgil colli'r elw o werthu fêps untro. Er yr amcangyfrifwyd cynnydd mewn elw i fanwerthwyr o werthu cynhyrchion fepio amgen, cyfrifir hyn ar sail lefelau sylweddol is o wariant defnyddwyr ac felly, mae'n ffracsiwn (ychydig dros un rhan o bump) o'r elw a gollir o werthu fêps untro.
- 7.181 Felly, nid yw cyfran fawr o'r arian na fydd defnyddwyr yn ei wario mwyach ar fêps untro yn cael ei gyfrif yn y dadansoddiad hwn. Bydd y ffordd y caiff yr arian hwnnw ei wario (neu ei arbed) yn dibynnu ar ddewisiadau unigol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd rhywfaint o elw pellach yn cael ei greu i fanwerthwyr yn yr economi y tu hwnt i'r hyn sydd wedi'i gyfrifo yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Gan ddibynnu ar faint yr elw yn y sectorau perthnasol, gallai'r elw hwnnw i fanwerthwyr fod yn is, yn hafal i neu'n fwy na'r

elw y mae manwerthwyr yn ei golli drwy beidio â gallu gwerthu fêps untro mwyach. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch sut y bydd unrhyw arbedion posibl yn cael eu gwario gan unigolion, nid ydym wedi ceisio cyfrifo'r fantais hon i fanwerthwyr.

7.182 Rydym yn cydnabod bod rhai yn y sector manwerthu wedi mynegi pryderon hefyd ynglŷn â gostyngiad posibl yn nifer y bobl fydd yn mynd i siopau cyfleustra yn dilyn y gwaharddiad ac efallai y bydd rhywfaint o ail-ddosbarthu gwariant.

### **Gostyngiad mewn costau tanwydd i fanwerthwyr**

7.183 Mae posibilrwydd hefyd y bydd gostyngiad mewn costau tanwydd trafniadaeth i fusnesau sy'n cludo fêps, gan dybio y byddant yn newid i werthu fêps aml dro a'u cydrannau llenwi ar ôl i fêps untro gael eu gwahardd. Ni fydd pob un o'r fêps untro yn cael eu disodli gan fêps aml dro, ond bydd gan gyfran ohonynt gydrannau ail-lenwi (h.y. podiau/cetris ail-lenwi a photeli o e-hylif). Mae hyn yn debygol o leihau teithiau dosbarthu nwyddau oherwydd bydd pob fêp yn para am gyfnod hwy, a bydd y cydrannau ail-lenwi yn ysgafnach na fêps untro. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch sut y bydd manwerthwyr yn prynu cyflenwadau a beth fydd y gymhareb ar gyfer y gwahanol gynhyrchion fêps, a allai amrywio rhwng busnesau. Mae unrhyw ostyngiad mewn costau tanwydd (ac arbedion allyriadau cysylltiedig) yn sgil y gwaharddiad yn debygol o fod yn gymharol fach.

### **Arbedion allyriadau pellach i gymdeithas**

#### **Gostyngiad mewn allyriadau tanwydd i gymdeithas**

7.184 Yn ogystal â chostau tanwydd is posibl i fusnesau, bydd defnyddio llai o danwydd yn golygu llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Fodd bynnag, ni roddwyd gwerth ariannol i hyn oherwydd mae'n debygol y bydd yr arbedion tanwydd posibl i fanwerthwyr yn fach.

#### **Arbedion allyriadau cynhyrchu**

7.185 Gan y bydd llai o fêps untro yn cael eu cynhyrchu o ganlyniad i'r gwaharddiad, bydd arbedion allyriadau sy'n gysylltiedig â'u cynhyrchu yn cael eu cyflawni. Ni roddwyd gwerth ariannol i'r manteision hyn yn y prif ddadansoddiad o gostau a manteision gan nad oes gwybodaeth ar gael am weithgynhyrchu fêps untro domestig ac felly ni fydd arbedion allyriadau cynhyrchu yn cronni yng Nghymru na'r DU yn gyffredinol. Mae [ymchwil gan Eunomia](#) wedi dangos bod allyriadau cynhyrchu yn cynrychioli tua 26% o gyfanswm yr allyriadau

nwyon tŷ gwydr o fewn cylch oes fêps untro, sy'n gyfran llawer uwch na'r effeithiau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sgil llosgi (tua 2%) a thanau gwastraff (tua 15%) y pennwyd gwerth ariannol ar eu cyfer.

### **Arbedion allyriadau echdynnu deunydd crai**

7.186 Yn ogystal â chynhyrchu arbedion allyriadau cynhyrchu, bydd arbedion allyriadau hefyd o echdynnu deunyddiau crai hanfodol er mwyn cynhyrchu fêps untro. Dangosodd ymchwil gan Eunomia bod prosesau echdynnu deunydd crai i gyfrif am y gyfran fwyaf arwyddocaol o allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â chylch oes fêps untro, a gellir priodoli tua 60% o gyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr i'r cam hwn.

7.187 O gymharu â'r arbedion allyriadau nwyon tŷ gwydr y pennwyd gwerth ariannol ar eu cyfer yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn sgil osgoi llosgi a thanau gwastraff (sef tua 2% a 15% o gyfanswm cyfran yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â chylch oes fêps untro), pe bai gwerth ariannol yn cael ei bennu i'r nwyon tŷ gwydr sydd wedi'u hosgoi o ddulliau echdynnu deunydd crai, byddai manteision hyd yn oed yn fwy sylweddol. Fodd bynnag, gan na fyddai'r effeithiau hyn yn cronni yn ddomestig yng Nghymru, ni roddwyd gwerth ariannol iddynt.

### **Llai o gostau glanhau i awdurdodau lleol**

7.188 Gallai gweithredu'r gwaharddiad ar fêps untro leihau costau glanhau i awdurdodau lleol ar gyfer ysbwriel wedi'i ollwng. Mae'n debygol y byddai'r rhan fwyaf o fêps untro sydd wedi'u gollwng fel ysbwriel yn cael eu casglu a'u clirio fel rhan o'r gwasanaethau glanhau strydoedd arferol sy'n bodoli eisoes ac felly mae'r arbedion ar gyfer hyn yn debygol o fod yn fach iawn. Fodd bynnag, os bydd defnyddwyr yn newid i fêps amlbro, bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y cynhyrchion yn cael eu taflu ac yn arwain at ostyngiad mewn ysbwriel. Er bod posibilrwydd y bydd rhai defnyddwyr fêps untro yn newid i sigarêts, rydym yn rhagweld y bydd gan awdurdodau lleol rhyw fath o weithgarwch gorfodi eisoes ar waith i fynd i'r afael â'r math hwn o ysbwriel (er enghraifft, rhoi Hysbysyddau Cosb Benodedig).

### **Effeithiau amgylcheddol ehangach gollwng ysbwriel sy'n cael eu hosgoi**

7.189 Mae'n hysbys y gall gollwng fêps fel ysbwriel arwain at fêps yn cael eu gadael mewn ardaloedd ar y tir (e.e. parciau dinas), ac i raddau llai, amgylcheddau dyfrol (e.e. fêps yn cael eu gwaredu mewn cyfleusterau toiled neu'n cael eu gollwng fel ysbwriel mewn ardaloedd arfordirol/afonol). Mae'n anodd mesur



effaith ysbwriel o'r fath ar yr amgylchedd oherwydd ymchwil gyfyngedig sydd ar gael am gyfradd ddiraddio fêps a roddir mewn amgylcheddau dyfrol neu ar y tir, yn ogystal â pha gydrannau o'r fêp fydd yn dod i gysylltiad â'r amgylchedd.

7.190 Un ffordd bosibl y gallai fêps untro niweidio'r amgylchedd yw'r defnydd o blastig yng nghanol y fêps. Os caiff ei ollwng fel ysbwriel, mae'n bosibl y bydd y plastig, dros gyfnod amhenodol o amser, yn diraddio i ffurfio microblastigau bach yn yr amgylchedd. Mae [rhywfaint o ddata yn awgrymu](#) y gall microblastigau fod yn wenwynig ac achosi llid os cânt eu hamlyncu gan anifeiliaid neu bobl, ac mae perygl mwy cyffredinol i anifeiliaid sy'n llyncu fêp yn ddamweiniol a allai arwain at dagu. Gall y batris lithiwm-ïon y mae llawer o fêps untro yn eu cynnwys hefyd fod yn ffynhonnell o niwed i'r amgylchedd oherwydd gallent gael eu dosbarthu fel gwastraff peryglus oherwydd y cyfansoddion metelaidd sydd ynddynt.

7.191 Ceir trosolwg o'n Hasesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn Adran 9 isod.

## **Costau llai yn sgil tanau i weithredwyr safleoedd gwastraff, awdurdodau lleol a chymdeithas**

7.192 Rhoddwyd gwerth ariannol i arbedion allyriadau o danau mewn safleoedd tirlenwi yn gynharach yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, mae hwn yn debygol o fod yn amcangyfrif terfyn is ar gyfer cyfanswm y tanau gwastraff a achosir gan fêps untro, oherwydd gellir cael tanau hefyd mewn cerbydau casglu gwastraff, safleoedd trosglwyddo gwastraff a chyfleusterau ailgylchu.

7.193 Amcangyfrifir bod [200 o danau gwastraff wedi'u hachosi gan fatris lithiwm-ïon](#) yn y DU yn 2020, a gostiodd gyfanswm o tua £158 miliwn (ar sail prisiau 2020). Cafodd tua 84.4% o'r costau hyn eu hysgwyddo gan weithredwyr safleoedd gwastraff gyda gwahanol fathau o gostau, gan gynnwys ar ffurf difrod i ddeunyddiau, tarfu ar y busnes, adnoddau a stoc. Cafodd tua 7.2% o'r costau eu hysgwyddo gan y gwasanaethau tân ac achub ar ffurf costau adnoddau, a chafodd gweddill y costau eu hysgwyddo yn bennaf gan yr amgylchedd a chymdeithas ar ffurf allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygredd aer.

7.194 Roedd [astudiaeth ddiweddar](#) yn amcangyfrif bod batris lithiwm-ïon yn achosi 710 o danau ar safleoedd gwastraff ac mewn loris gwastraff y flwyddyn. Am nad oes data ar gael ar y gyfran o'r tanau hyn y gellir eu priodoli i fêps untro, ni fu'n bosibl pennu gwerth ariannol y manteision sy'n gysylltiedig â lleihau costau tanau.

## **Manteision iechyd gostyngiad mewn fepio**

- 7.195 Er y gallai fepio gynnig dewis mwy diogel yn lle ysmegu sigarêts, nid yw'n cael ei argymhell ar gyfer pobl nad ydynt erioed wedi ysmegu o'r blaen am nad yw fepio yn gwbl rydd o risg ac mae'r canlyniadau iechyd hirdymor yn aneglur. Bydd gwahardd cyflenwi fêps untro yn lleihau hygyrchedd e-sigarêts ymhlith y rhai nad ydynt erioed wedi ysmegu, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd fel arfer yn cael gafael ar fêps trwy siopau neu rywun yn eu rhoi iddynt.
- 7.196 Mae'r dystiolaeth ar yr effaith 'porth' yn aneglur (h.y., fepio ymhlith y rhai nad ydynt erioed wedi ysmegu yn arwain at ddechrau ysmegu sigarêts wedi hynny), fodd bynnag gallai atal pobl nad ydynt erioed wedi ysmegu rhag dechrau fepio leihau'r tebygolrwydd y bydd y bobl hyn yn mynd ymlaen i ddefnyddio cynhyrchion tybaco eraill, gan gefnogi uchelgais Cymru i fod yn ddi-fwg erbyn 2030 (h.y., cyffredinrwydd ysmegu tybaco ymysg oedolion (16+ oed) yn 5% neu lai).
- 7.197 Mae annog defnyddwyr i newid i ddyfeisiau aml dro/y gellir eu hail-lenwi yn galluogi iddynt leihau cryfder y nicotin yn raddol yn yr e-hylif a rhoi'r gorau i fepio, nad yw mor rhwydd gyda fêp untro oherwydd nid yw'r un amrywiaeth o gryfderau nicotin ar gael. Er nad ydym wedi gallu cyfrifo manteision ariannol uniongyrchol y gwaharddiad i'r GIG ac i gymdeithas yn gyffredinol, cydnabyddir eu bod yn cyflwyno mantais heb werth ariannol.

## **Effeithiau Masnach Ehangach**

### **Masnach o fewn y DU**

- 7.198 Nid ydym yn rhagweld y bydd y mesur hwn yn effeithio ar fasnach o fewn y DU oherwydd mae gan bob un o'r gwledydd gynlluniau i gyflwyno gwaharddiad gwerthu a chyflenwi tebyg.
- 7.199 Mae'r term 'marchnad fewnol y DU' yn cyfeirio at y gyfres o berthnasoedd masnachu o fewn ac ar draws pedair gwlad y DU (h.y. Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon). Oherwydd bod Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig wedi cytuno ar ddyddiad cychwyn cyffredin, mae'n annhebygol y bydd effaith ar farchnad fewnol y DU. Os bydd unrhyw gam-aliniad wrth gyflwyno deddfwriaeth, mae pedair gwlad y DU wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd drwy broses y Fframwaith Cyffredin Adnoddau a Gwastraff i leihau neu liniaru unrhyw effaith ar farchnad fewnol y DU. Gallai hyn gynnwys cyd-ystyried dyddiad dod i rym amgen neu gymryd camau i gytuno ar eithriad i Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 drwy'r broses Fframweithiau Cyffredin y cytunwyd arni, er mwyn sicrhau nad yw

effaith deddfwriaeth Cymru yn cael ei thanseilio gan Ddeddf Marchnad Fewnol.

7.200 Dylid nodi, er bod pob gwlad wedi cynnal asesiad unigol o'u rheoliadau, rydym wedi ceisio casglu, pan fo'n bosibl, unrhyw effeithiau ehangach ar wledydd eraill yn ein hasesiad.

### **Masnach Ryngwladol**

7.201 Rydym yn rhagweld y bydd ein cynigion yn cael effaith ar fasnach ryngwladol gan y bydd yn lleihau nifer y cynhyrchion untro a fewnforir i Gymru. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod fêps untro yn cael eu gweithgynhyrchu yn y DU ac mae marchnad ddomestig fawr ar gyfer fêps untro, felly gellir casglu bod y mwyafrif helaeth o fêps untro yn gynhyrchion a fewnforir. Bydd effaith negyddol felly ar fasnach ryngwladol gan na fydd marchnad bellach ar gyfer fêps untro yng Nghymru. Yn seiliedig ar dystiolaeth flaenorol, mae'n deg tybio y daw'r mwyafrif o'r mewnforion hyn o Tsieina.

## 8. Asesiad o Gystadleuaeth

- 8.1. Mae tair rhan o'r gadwyn gyflenwi wedi'u hystyried fel rhan o'r asesiad o gystadleuaeth:
- Mewnforwyr ac ail-frandwyr;
  - Manwerthwyr;
  - Cyfanwerthwyr.
- 8.2. Byddai'r polisi yn gosod cyfyngiadau ar weithgynhyrchwyr fêps untro. Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol uchod, nid oes unrhyw dystiolaeth uniongyrchol o unrhyw weithgynhyrchu fêps untro yn ddomestig yng Nghymru, felly rydym wedi hepgor y rhan hon o'r gadwyn gyflenwi o'n Hasesiad Effaith.
- 8.3. Byddai'r cynnig hefyd yn gosod cyfyngiadau ar fewnforwyr, cyfanwerthwyr a manwerthwyr fêps untro, fodd bynnag disgwylir y byddant yn newid yn bennaf i gyflenwi eitemau amgen neu'n cyflenwi mwy ohonynt os ydynt eisoes yn gwneud hynny.
- 8.4. Bydd y rheoleiddio yn rheoli nodweddion y cynhyrchion a gyflenwir ac felly mae'n debygol y bydd gostyngiad mewn cystadleuaeth yn y farchnad fêps yn gyffredinol. Fodd bynnag, gellid gwelld effeithiau cystadleuaeth cadarnhaol mewn perthynas â chynhyrchion fepio amgen, er enghraifft fêps aml dro neu e-hylif, o ganlyniad i gynnydd yn y galw am y cynhyrchion hyn yn denu pobl newydd i'r farchnad. Dangosodd yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid nad oes unrhyw weithgynhyrchwyr fêps domestig yn y DU (h.y. untro neu aml dro) yn ôl pob tebyg, ond bod gweithgynhyrchwyr ar gyfer e-hylif; er nad yw'n glir faint ohonynt sydd yng Nghymru. Gan ein bod wedi tybio y bydd y mwyafrif o ddefnyddwyr fêps untro yn newid i gynhyrchion fepio amgen, mae'n debygol y bydd cynnydd yn y galw am yr e-hylif sydd ei angen ar gyfer fêps aml dro.
- 8.5. Byddai'r polisi yn cymhwyso cyfyngiadau ar bob busnes (h.y. mewnforwyr, manwerthwyr, cyfanwerthwyr) yn gyfartal, ac ni fydd yn cyfyngu ar allu busnesau i gystadlu ar sail ansawdd, lleoliad daearyddol, pris, hysbysebion neu elfennau eraill y mae busnesau'n cystadlu'n rheolaidd ar eu sail. Fodd bynnag, ni fydd busnesau yn y gadwyn gyflenwi sy'n mewnforio fêps untro yn unig i'w gwerthu'n ddomestig a/neu'r rhai sy'n gwerthu fêps untro yn unig yn gallu gwneud hynny mwyach.
- 8.6. Oherwydd y bydd y gwaharddiad ar gyflenwi fêps untro yn cael ei gymhwyso'n unffurf ledled y DU, bydd yn sicrhau chwarae teg i bob busnes. Felly, nid ydym yn disgwyl y bydd materion cystadleuaeth o ran defnyddwyr yn newid i fanwerthwr arall i ofyn am yr eitemau hyn. Bydd chwarae teg i fusnesau hefyd

oherwydd ni fyddant yn gallu codi prisiau is na'i gilydd drwy gynnig fêps untro rhatach, oherwydd bydd y rhain wedi'u gwahardd.

- 8.7. Er y gallai rhwystrau fodoli i fusnesau newydd gael mynediad i'r farchnad yn sgil costau uwch yr eitemau deunyddiau amgen, disgwylir i hynny fod yn fyrhoedlog wrth i'r eitemau hyn ddod yn boblogaidd ac wrth i arbedion maint ffurfio.

**Tabl 33. Y Prawf Hidlo Cystadleuaeth**

<b>Y prawf hidlo cystadleuaeth</b>	
<b>Cwestiwn</b>	<b>Ateb</b>
<b>C1:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 10%?	Nac oes
<b>C2:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 20%?	Nac oes
<b>C3:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 50%?	Nac oes
<b>C4:</b> A fyddai costau'r rheoliad hwn yn cael effaith sylweddol fwy ar rai cwmnïau nag eraill?	Na fyddai
<b>C5:</b> A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint busnesau/sefydliadau?	Nac ydi
<b>C6:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
<b>C7:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
<b>C8:</b> A yw newid technolegol cyflym yn nodweddu'r sector?	Nac ydi
<b>C9:</b> A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na fyddai

## 9. Crynodeb Asesiadau Effaith

- 9.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig (IIA) llawn i werthuso effeithiau - cadarnhaol a negyddol – cyflwyno ein deddfwriaeth. Bydd **Adran 1** (Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?) ac **Adran 8** (Casgliadau) yr IIA, yn ogystal ag **Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant, ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb** yn cael eu cyhoeddi ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).
- 9.2 Mae'r Asesiad wedi'i bennu drwy ddadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ledled y DU '[Creu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc' yn 2023](#) ac ymgysylltu cysylltiedig wedi'i dargedu a gynhaliwyd wedyn yn 2024. Roedd yr wybodaeth yn awgrymu y gallai'r ddeddfwriaeth arwain at effeithiau ar blant a phobl ifanc (yn enwedig y rhai sydd eisoes yn ddibynnol ar nicotin), effeithiau ar roi'r gorau i smygu i unigolion mewn lleoliadau caeedig a'r rhai sy'n ddigartref, yn ogystal ag effeithiau ar unigolion â phroblemau deheurwydd.
- 9.3 Wrth ymgymryd â'r ymgysylltu uchod, glynwyd wrth ein hymrwymadau o dan Erthygl 5.3 o Gonfensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco (FCTC). Mae hyn yn sicrhau bod ein polisiau rheoli tybaco yn cael eu diogelu rhag buddiannau masnachol a breintiedig eraill y diwydiant tybaco.

### Effeithiau

- 9.4 Cynhaliwyd asesiadau effaith penodol yn y meysydd pwnc canlynol, er mwyn nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ein cynigion. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn y paragraffau canlynol.
- Bioamrywiaeth
  - Newid hinsawdd
  - Hawliau plant
  - Cydraddoldeb
  - Prawfesur Gwledig
  - Iechyd
  - Data/Preifatrwydd
  - Anfantais economaidd-gymdeithasol
  - Y Gymraeg
  - Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

## **Bioamrywiaeth**

- 9.5 Er mwyn dangos cydymffurfedd ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth wedi'i gwblhau. Mae [Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru](#) yn nodi chwe amcan a fydd yn cyfrannu at wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru, ac mae un yn ymwneud â mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd. Mae cynhyrchu a gwaredu'n amhriodol gynhyrchion untro (yn enwedig y rhai a wneir o blastig) yn cyfrannu at y pwysau hwn.
- 9.6 Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'n anodd ailgylchu fêps untro, sy'n golygu eu bod yn aml yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi neu'n cael eu llosgi, yn hytrach na chael eu hailgylchu a'u haildefnyddio. Pan fydd fêps untro yn cael eu taflu fel sbwriel, maent yn cyflwyno plastig, halwynau nicotin, metelau trwm, plwm, mercwri a batris lithiwm-ïon fflamadwy i'r amgylchedd naturiol. Gall y cemegau hyn yn y pen draw halogi dyfrffyrdd a phridd a gallant fod yn wenwynig ac yn niweidiol i fywyd gwyllt hefyd. Maent yn cael effeithiau andwyol ar blanhigion, pryfed ac organebau dyfrol hefyd, a gallai hyn amharu ar gadwyni bwyd a dynameg ecosystemau.
- 9.7 Pan fydd fêps untro sydd â chasin plastig yn cael eu taflu fel sbwriel, gall y plastig falu'n fân gan greu microblastigau niweidiol. Mae'r rhain yn aml yn fwy niweidiol i fioamrywiaeth forol wrth i greaduriaid eu bwyta gan arwain at rwystrau yn y system dreulio. Yn ogystal â cholli adnoddau fel copr, cobalt, a lithiwm, ceir effeithiau amgylcheddol trwy fwyngloddio deunydd crai a mathau eraill o gloddio.
- 9.8 Felly, bydd gwahardd fêps untro o fudd i fioamrywiaeth trwy leihau'r difrod i'r amgylchedd naturiol a allai ddeillio o gynhyrchu, defnyddio a gwaredu fêps untro.

## **Newid Hinsawdd**

- 9.9 Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fygythiad cenedlaethol a byd-eang parhaus i'n hiechyd, ein heconomi, ein seilwaith a'n hamgylchedd naturiol. I gydnabod hyn, ym mis Ebrill 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yng Nghymru.
- 9.10 Ceir effeithiau amgylcheddol trwy gynhyrchu, a gweithgynhyrchu fêps untro. Yn fwyaf nodedig, allyriadau nwyon tŷ gwydr, sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd, a'r defnydd o ddŵr, fel y nodir yn [adroddiad technegol Zero Waste Scotland](#).

- 9.11 Mae gwybodaeth yn y [National Library of Medicine](#) yn manylu ar sut y gall y newid yn yr hinsawdd effeithio'n negyddol ar allu rhywogaethau i hela, osgoi ysglyfaethwyr ac atgenhedlu. Gall hyn arwain at ddiffygion yng ngallu cynefin i gynnal amrywiaeth o rywogaethau unigol a darparu safleoedd nythu. Bydd yr effeithiau hyn yn dylanwadu ar y gwasanaethau y gall yr ecosystem eu darparu ar gyfer poblogaethau dynol, fel cynhyrchu bwyd a dal a storio carbon.
- 9.12 Mae cyflwyno gwaharddiad ar argaeledd fêps untro problemus diangen yn rhan o becyn o fesurau ehangach i leihau effaith negyddol sbwriel, llygredd plastig a'r newid yn yr hinsawdd ar ein hamgylchedd.
- 9.13 Mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiad [Rhaglen Lywodraethu 2021-2026](#) i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol drwy sicrhau ein bod yn "ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn". O dan yr addewid hollgynhwysol hwn, mae yna ymrwymiad penodol i "Ddeddfu i ddiddymu'r defnydd o blastigau untro sydd yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel".

### **Hawliau Plant**

- 9.14 Bydd y gwaharddiad ar fêps untro yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar hawliau plant, fel y'u diffinnir gan CCUHP. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) wedi nodi bod y gwaharddiad ar fêps untro yn bodloni'r gofyniad yng [Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#), yn benodol **Erthyglau 3, 6, 12, 13, 17, 24, 29, 31, 33 a 36**.
- 9.15 Bydd ein cynigion yn lleihau effaith negyddol sbwriel, llygredd plastig a'r newid yn yr hinsawdd ar ein hamgylchedd a'n hiechyd a'n lles. Mae'r newid yn yr hinsawdd wedi cael ei nodi fel un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol; bydd gweithredu'r cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ddiogelu ein hamgylchedd, ein hiechyd a'n lles yn y tymor byr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- 9.16 Fodd bynnag, gallai'r gwaharddiad ar fêps untro gael rhai effeithiau negyddol hefyd ar hawliau plant, yn enwedig ar eu hawl i fynegiant, hamdden a chyfranogi. Mae nifer o gamau lliniaru wedi'u cynnwys yn y CRIA.
- 9.17 Er mwyn cael cydbwysedd rhwng yr effeithiau a nodwyd, ac i sicrhau bod budd gorau'r plentyn yn flaenoriaeth, mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd y camau lliniaru a nodir yn yr asesiad effaith yn grymuso plant a phobl ifanc i wneud y dewisiadau cywir. Trwy barhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc a'r rhai sy'n eu cynrychioli, byddwn yn parhau i ddiogelu a gwella lles meddyliol pobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys helpu plant a phobl ifanc i feithrin cadernid a lleihau ymddygiad sy'n peri risg. Yn dilyn yr ymgysylltu hwn, bydd fersiwn



ddiwygiedig o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2025.

- 9.18 Ni allwn ragweld unrhyw effeithiau posibl ar Hawliau Dinasyddion yr UE (fel y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) sy'n ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed, yn sgil y ddeddfwriaeth arfaethedig.

### **Cydraddoldeb**

- 9.19 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i roi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.
- 9.20 Bydd gwahardd cyflenwi fêps untro yn effeithio ar bawb sy'n defnyddio fêps untro ar hyn o bryd ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr presennol a defnyddwyr y dyfodol brynu opsiynau amgen (er enghraifft, fêps aml dro). Codwyd pryderon ynghylch yr effaith ar bobl anabl, gan gynnwys y rhai â salwch hirdymor sy'n achosi problemau dehurwydd (e.e., Clefyd Parkinson), pobl hŷn a phobl â chyflyrau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol pan fo fêps yn cael eu defnyddio i helpu i roi'r gorau i smygu. Mae effaith ein cynigion ar gyfraddau rhoi'r gorau i smygu wedi cael ei hystyried yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd.
- 9.21 Mae dyfeisiau y gellir eu hail-lenwi a'u defnyddio eto wedi datblygu'n sylweddol i fod yn fwy cyfleus a haws eu defnyddio ac mae'r diwydiant yn parhau i'w datblygu ymhellach— gan ddarparu dyfais gyfleus a hygyrch i grwpiau bregus. Nodir fodd bynnag, efallai na fydd dyfeisiau amgen yn addas i ganiatáu ar gyfer lefelau cyfredol o annibyniaeth ac urddas i bawb yr effeithir arnynt. Bydd cymhorthion rhoi'r gorau i smygu, gan gynnwys therapi disodli nicotin, yn opsiwn arall hefyd.
- 9.22 Nid ydym yn credu bod y cynnig yn wahaniaethol nac yn anghyfreithlon fel arall o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac mae'n annhebygol y bydd y polisi yn cael effaith wahaniaethol. Serch hynny, byddwn yn monitro'r gwaith o gyflwyno'r cynigion ac yn parhau i fod yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig arall yn digwydd, neu y gallai fod yn digwydd, ac yn cymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd.

## **Sgrinio Prawfesur Gwledig**

- 9.23 Mae prawfesur gwledig yn ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd, cydraddoldeb a thegwch, ac mae'n cynnwys camau i wella ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yn ein cymunedau gwledig yng Nghymru.
- 9.24 Cynhaliwyd Asesiad Sgrinio Prawfesur Gwledig, a nododd effeithiau cyfyngedig gan y cynigion ar gymunedau gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys yr effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd trwy lai o sbwriel a niwed amgylcheddol o fêps untro a waredir yn amhriodol. Efallai y bydd effeithiau negyddol ar bobl hŷn, yn benodol os ydynt yn defnyddio fêps untro ar gyfer rhoi'r gorau i smygu. Fodd bynnag, bydd fêps aml dro a chymhorthion rhoi'r gorau i smygu, gan gynnwys therapi disodli nicotin, yn parhau i fod ar gael.
- 9.25 Bydd busnesau bach a micro (siopau cyfleustra yn bennaf) yn cael eu heffeithio fwyaf gan y gwaharddiad ar fêps untro oherwydd yr elw a gollir o werthu'r eitemau hyn, sy'n rhoi elw uchel. Fodd bynnag, bydd rhai defnyddwyr fêps untro naill ai'n rhoi'r gorau i fepio neu'n trosglwyddo i gynhyrchion aml dro neu gynhyrchion amgen nad ydynt yn fêps, ac felly'n gwario'r arian a arbedir o'r newid hwn mewn ymddygiad ar gynhyrchion eraill nad ydynt yn gysylltiedig â thybaco sy'n cael eu gwerthu mewn siopau.

## **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd**

- 9.26 Mae gan y gwaharddiad ar gyflenwi fêps untro yng Nghymru y potensial i effeithio'n gadarnhaol ar y boblogaeth trwy leihau difrod amgylcheddol (er enghraifft, llai o daflu sbwriel) a lleihau lefelau fepio ymhlith plant a phobl ifanc (h.y. trwy wahardd cynnyrch sy'n hygyrch a deniadol iawn i bobl ifanc).
- 9.27 Yn absenoldeb tystiolaeth uniongyrchol ynghylch yr effaith y byddai gwahardd fêps untro yn ei chael ar roi'r gorau i smygu, ni wnaed unrhyw waith modelu i lywio'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) hwn. Fodd bynnag, mae'r HIA wedi nodi sawl maes allweddol lle mae effeithiau gwahaniaethol posibl yn ôl grŵp poblogaeth a allai gael effaith negyddol ar roi'r gorau i smygu. Yn bwysig, yn y grwpiau hyn y gwelir cyfraddau uwch o smygu fel arfer (e.e., pobl ar incwm is, pobl â chyflyrau iechyd meddwl) ac maent yn cynrychioli grwpiau blaenoriaeth ym mhoblogaeth Cymru ar gyfer targedu anghydraddoldebau a achosir gan smygu tybaco fel y nodir yn '[Cymru ddi-fwg; strategaeth hir dymor ar gyfer rheoli tybaco](#)' (Llywodraeth Cymru, 2022).
- 9.28 Er na nodwyd tystiolaeth uniongyrchol ar gyfer yr HIA, cawsom wybod am rwystrau posibl (e.e., cost, cymhlethdod) i newid i ddyfeisiau aml dro amgen ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd meddwl, amhariadau corfforol, synhwyraidd neu

ddysgu a allai, mewn rhai achosion, beri risg o effaith negyddol ar roi'r gorau i smygu. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae sawl fersiwn o fêps aml dro, gyda rhai o bosibl yn haws i unigolion a allai ei chael hi'n anoddach cael gafael ar gynhyrchion eraill a'u defnyddio (e.e., pobl â phroblemau deheurwydd, anawsterau gweledol, cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol).

### **Diogelu Data**

- 9.29 Cwblhawyd gwaith sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) i nodi unrhyw effaith y mae ein cynigion yn ei chael ar y defnydd, a newidiadau i'r defnydd, o ddata personol.
- 9.30 Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y sgrinio, gan na fydd Llywodraeth Cymru yn prosesu unrhyw ddata personol ar gyfer y cynnig hwn, penderfynwyd na fyddai angen DPIA llawn ac nad oes angen cyngor ar gydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).
- 9.31 Bydd gan Awdurdodau Lleol unigol a fydd yn gorfodi'r gwaharddiadau eu prosesau eu hunain ar waith i ymdrin â diogelu data (er enghraifft, wrth geisio erlyn neu gyflwyno sancsiynau sifil).

### **Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**

- 9.32 Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Ysgrifenyddion Cabinet Cymru, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn gymwys i Lywodraeth Cymru ac, felly, mae'n ofynnol i Ysgrifenyddion y Cabinet roi sylw dyladwy i'r Ddyletswydd pan fydd penderfyniadau strategol yn cael eu gwneud.
- 9.33 Bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bob unigolyn (er y gallai fod effaith negyddol ar berchnogion busnes), gan gynnwys y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, trwy leihau faint o fêps untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel a'r effaith amgylcheddol negyddol gysylltiedig y gall hyn ei hachosi.
- 9.34 Bydd gwaharddiad ar fêps untro yn arwain at gost ychwanegol yn y tymor byr i unigolion yng Nghymru sy'n fepio ac yn defnyddio fêps untro, a fydd yn effeithio ar gyfran uwch o'r rhai o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol. Yn y tymor byr, gallai hyn gyfrannu at gynnydd mewn costau byw y mae unigolion o aelwydydd incwm is yng Nghymru yn dweud sy'n cael effaith negyddol ar [iechyd meddwl](#), [iechyd corfforol](#) a [pherthnasoedd teuluol](#).

9.35 Fodd bynnag, yn y tymor hwy, canfyddir bod dyfeisiau amlbro yn fwy cost-ffeithiol a gallant sicrhau gostyngiad mwy graddol mewn cryfder nicotin o gymharu â fêps untro. Gallai hyn helpu'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol wrth iddynt geisio fepio llai neu roi'r gorau iddi yn gyfan gwbl.

## **Y Gymraeg**

9.36 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn llawn effaith ein cynigion ar y Gymraeg. Er nad yw ein cynigion yn cysylltu'n uniongyrchol â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, mae'r ddeddfwriaeth, y canllawiau i fanwerthwyr, y deunyddiau codi ymwybyddiaeth, yr holiaduron ar gyfer plant a phobl ifanc a'r asesiadau effaith penodol wedi'u llunio'n ddwyieithog i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg.

9.37 Mae Cymraeg 2050 yn agenda drawslywodraethol â'i gwreiddiau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r rheoliadau'n cyflawni yn erbyn ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

9.38 Yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion yn 2023, ni wnaeth unrhyw ymateb amlinellu ffordd y gallai'r cynigion hyn niweidio'r Gymraeg. Ni fydd y cynigion yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith nac addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o unrhyw oedran.

## **Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder**

9.39 Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn gwahardd cyflenwi fêps untro yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â'r effaith negyddol y mae'r cynhyrchion hyn yn ei chael ar ein hamgylchedd. Drwy gyflwyno'r rheoliadau hyn, byddwn yn lleihau nifer y fêps untro sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi, eu llosgi a'u taflu fel sbwriel. Bydd yn ysgogi busnesau a defnyddwyr hefyd i newid i ddewisiadau amgen amlbro sy'n llai niweidiol i'r amgylchedd.

9.40 Bydd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn drosedd cyflenwi fêps untro, neu rwystro swyddog gorfodi, neu fethu â chydymffurfio â'i geisiadau. Mae'n rhoi pwerau mynediad a phwerau i ymchwilio ac archwilio safle i swyddogion gorfodi'r rheoleiddiwr (ALLau) fel y gallant benderfynu a yw trosedd o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig wedi'i chyflawni neu'n cael ei chyflawni, neu a yw cosb sifil a osodwyd wedi'i thorri, neu'n cael ei thorri.

9.41 Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn arwain at greu troseddau a sancsiynau sifil cysylltiedig.

9.42 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder fel rhan o'r broses o ddatblygu deddfwriaeth. Fel amcangyfrif cychwynnol, rydym yn rhagweld y bydd nifer yr achosion y disgwylir iddynt gyrraedd y llys yn llai na phump y flwyddyn. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, sy'n amcangyfrif y bydd eu deddfwriaeth debyg yn arwain at oddeutu 20 achos y flwyddyn yn dod gerbron y llys, gan ddefnyddio gwerthiant cynhyrchion tybaco i bobl ifanc dan oed o [adroddiad CTSI 2020 ar reoli tybaco](#) fel y llinell sylfaen. Mae ein ffigur wedi cael ei addasu i adlewyrchu maint poblogaeth Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi'i dewis gan ei bod yn cael ei gorfodi mewn ffordd debyg i'r gwaharddiad arfaethedig ar fêps untro h.y. trwy ddirwyon yn bennaf, fodd bynnag, lle ceir achosion dro ar ôl tro neu os yw'r drosedd gyntaf o natur ddifrifol, gellir dwyn achos troseddol.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

- 10.1. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-weithredol o'r ddeddfwriaeth cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o dair blynedd ar ôl iddi ddod i rym. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn asesu effeithiolrwydd y polisi wrth gyflawni ei amcanion.
- 10.2. Mae damcaniaeth gychwynnol o newid wedi'i nodi yn yr Defra IA a fydd yn cael ei hystyried wrth arwain canlyniadau mesuradwy yng Nghymru. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw ganlyniadau ar gyfer monitro a godir drwy'r Asesiadau Effaith (e.e. effeithiau perthnasol ar grwpiau penodol).
- 10.3. Er y bydd manylion yr adolygiad yn cael eu penderfynu, rydym yn rhagweld y byddai hyn yn cynnwys:
  - Canfod a gwerthuso'r effaith y mae'r ddeddfwriaeth wedi'i chael ar ddefnydd cynnyrch plastig untro ac ar ymddygiad cysylltiedig defnyddwyr yng Nghymru.
  - Canfod a gwerthuso pa effeithiau y mae'r ddeddfwriaeth wedi'i chael ar fusnesau yng Nghymru.
  - Canfod a gwerthuso i ba raddau y mae'r ddeddfwriaeth wedi llwyddo i annog newid i gynhyrchion y gellir eu haildefnyddio.
  - Lle bo'n bosibl, canfod a gwerthuso i ba raddau y mae sbwriel plastig untro wedi lleihau ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.